




Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff 2022/23

Cynnwys

1. CYFLWYNIAD	4
Cefndir	4
Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMR)	5
Polisi Cynllunio Cymru (PPW)	5
Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff	6
Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMSP)	6
Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti	7
Y llwybr i Sero Net a Chynnydd ar Leihau Allyriadau yng Nghymru	7
Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	9
2. MONITRO SGIL-GYNHYRCHION GWASTRAFF Y RHANBARTH: Prif Ffrydiau Gwastraff	11
Cyflwyniad	11
Gwastraff a Gesglir gan yr Awdurdod Lleol (LACW)	11
Gwastraff Diwydiannol a Masnachol (I&C)	19
Gwastraff Adeiladu a Dymchwel (C&D)	26
Gwastraff Peryglus	34
Gwastraff Amaethyddol	40
3. MONITRO CAPASITI TIRLENWI'R RHANBARTH	43
Cyflwyniad	43
Canfyddiadau CIMSP	43
Y Sefyllfa Bresennol	43
4. MONITRO GWASTRAFF GWEDDILLIOL Y RHANBARTH	49
Sgil-gynhyrchion Gwastraff Gweddilliol	49
Rheoli Gwastraff Gweddilliol	51
5. MONITRO GWASTRAFF BWYD Y RHANBARTH	60
6. AWDURDOD LLEOL: CYNLLUNIAU PRESENNOL A RHAGLENNI CAFFAEL ARFAETHEDIG	66
7. CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL	82
8. CYFEIRIAD POLISI A NEWIDIADAU YN Y DYFODOL	100
9. CASGLIADAU	104
RHESTR O ACRONYMAU	114

ATODIADAU

Atodiad 1 – Sgil-gynhyrchion Gwastraff Peryglus yng Nghymru 1998 - 2013

Atodiad 2 – Safleoedd tirlenwi a ganiateir ac a adeiladwyd yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, 2022

Atodiad 3 – Nifer y Safleoedd a Ganiateir fesul Awdurdod Lleol, Gorffennaf 2022

Atodiad 4 – Capasiti Safleoedd a Ganiateir fesul Awdurdod Lleol, Gorffennaf 2022

Atodiad 5 – Ceisiadau/penderfyniadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau adfer/trin gwastraff yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru Ebrill 2015 – Mawrth 2023

Atodiad 6 – Ceisiadau/penderfyniadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau Treuliad Anerobig yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru Ebrill 2015 – Mawrth 2023

1. CYFLWYNIAD

Cefndir

1.1 Sefydlodd *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff (2014)* ofyniad i bob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru (ar y pryd - Gogledd, De-ddwyrain a De-orllewin) baratoi Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMR) yn flynyddol. Yn ganolog i'r broses o baratoi'r Adroddiad mae casglu a dadansoddi gwybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa wastraff o fewn pob rhanbarth.

1.2 Hyd at 2021, y 3 rhanbarth oedd y rhai a nodir yn TAN21 o hyd, ond yn 2021 cafodd y 3 rhanbarth gwastraff eu had-drefnu yn unol â 3 rhanbarth economaidd Cymru – Gogledd, Canolbarth a De-orllewin, a De-ddwyrain. Yn y cynllun gweithredu *Ffyniant i Bawb* mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn datgan ei bod eisiau i bob rhan o Gymru elwa ar dwf economaidd gyda chyfoeth a chyfleoedd yn lledaenu i bob rhanbarth. I'r perwyl hwn, maent wedi alinio'r rhanbarthau economaidd â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer olion traed eraill gan gynnwys Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'r rhai a ddefnyddir ar gyfer cydweithredu rhwng llywodraeth leol.

1.3 Aiff *Ffyniant i Bawb* ymlaen i bwysleisio y bydd y dull newydd hwn, sy'n seiliedig ar le, at ddatblygu economaidd yn galluogi LIC i ymateb yn fwy effeithiol i heriau a chyfleoedd arwahanol a wynebier gan bob un o'r rhanbarthau. Er enghraifft, yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, bydd LIC yn gallu defnyddio'r dull newydd i gryfhau ac esblygu trefniadau pwysig ar gyfer datblygu economaidd trawsffiniol.

1.4 Mae rheoli gwastraff yn draddodiadol wedi dibynnu ar gydweithio trawsffiniol rhwng awdurdodau, ac felly gobeithio y bydd y dull newydd hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddyfodol y gweithgaredd economaidd pwysig hwn.

1.5 Y ddogfen hon yw'r Adroddiad ar gyfer rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru am y cyfnod 2022/23. O ganlyniad i ailstrwythuro'r tri rhanbarth, ni fydd yn bosibl cymharu'n uniongyrchol ag adroddiadau blaenorol (ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru) ar gyfer y rhanbarth cyfan. Fodd bynnag, lle bo modd, mae data sy'n mynd yn ôl sawl blwyddyn wedi'i osod i ddangos tueddiadau (fel y gwnaed mewn adroddiadau blaenorol). Mae'n werth nodi bod ail-alinio'r rhanbarthau wedi arwain at ychwanegu un awdurdod lleol yn unig i'r rhanbarth – Powys, a symud Pen-y-bont ar Ogwr i Ranbarth De-ddwyrain Cymru. Mae'r 5 awdurdod arall yn aros yr un fath â'r hen ranbarth De-orllewin Cymru, ac mae cymaint o'r data'n parhau i fod yn berthnasol.

1.6 Mae angen gwybodaeth am y sefyllfa wastraff o fewn pob rhanbarth er mwyn monitro sgil-gynhyrchion gwastraff rhanbarth, ei adfer a'i waredu ac er mwyn gwneud rhagolygon o sgil-gynhyrchion y dyfodol. Rhaid ymgymryd â her cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ac adfer adnoddau gyda sylfaen wybodaeth gadarn. Felly mae'n bwysig cael gwybodaeth gynhwysfawr, gywir, amserol a chyson.

1.7 Mae angen gwybodaeth am gyfleusterau rheoli gwastraff / adfer adnoddau'r rhanbarth er mwyn monitro gweithrediad ***Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (TZW, 2010) – Dogfen Strategaeth Wastraff Gyffredinol ar gyfer Cymru*** – o ran y cyfleusterau y cynllunnir ar eu cyfer yng nghynlluniau datblygu awdurdodau lleol ac o ran y cyfleusterau sy'n gweithredu ar hyn o bryd.

Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMR)

1.8 Prif rôl y WPMR yw coladu a chyflwyno'r holl ddata sydd ar gael i alluogi monitro sgil-gynhyrchion gwastraff a chyfleusterau rheoli gwastraff y rhanbarth yn effeithiol ac asesu perfformiad y rhanbarth yn erbyn y targedau a nodir yn TZW.

1.9 Dylai'r wybodaeth a'r dadansoddiadau a gyflwynir yn yr adroddiadau fod yn sail i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill weithredu ar y sgil-gynhyrchion gwastraff ym mhob ardal awdurdod lleol a thrwy oblygiad y rhanbarth cyfan. Dylai'r adroddiadau hefyd ddarparu sylfaen wybodaeth i gynorthwyo'r diwydiant rheoli gwastraff i wneud penderfyniadau buddsoddi allweddol.

1.10 Mae nodau'r WPMR yn cynnwys y canlynol:

- Coladu ac asesu'r data sydd ar gael ar yr holl sgil-gynhyrchion gwastraff yn y rhanbarth er mwyn monitro tueddiadau o ran sgil-gynhyrchion gorffennol ac yn y pen draw monitro perfformiad yn erbyn y targedau a nodir yn TZW;
- Coladu ac asesu'r data sydd ar gael ar wagleoedd tirlenwi gyda golwg ar ragfynegi'r capasiti tirlenwi sy'n weddill yn y rhanbarth;
- Coladu ac asesu'r data sydd ar gael ar sgil-gynhyrchion a rheolaeth gwastraff gweddilliol a rhoi sylwadau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd targedau o ran dewisiadau amgen i dirlenwi;
- Coladu ac asesu gwybodaeth ar ddatblygiad polisïau gwastraff mewn Cynlluniau Datblygu i fonitro gweithrediad darpariaethau TAN 21 Gwastraff;
- Coladu gwybodaeth am gynlluniau rheoli gwastraff / adfer adnoddau presennol awdurdodau lleol a chaffael yn y dyfodol;
- Adnabod unrhyw fylchau data sy'n bodoli;
- Darparu argymhellion y gellir eu dwyn ymlaen a'u defnyddio wrth gynhyrchu WPMRs yn y dyfodol.

Polisi Cynllunio Cymru (PPW, Arg. 11)

1.11 Cyhoeddwyd PPW11 yn 2021 ac mae'n rhoi pwyslais ar wneud y defnydd gorau o adnoddau materol a hybu'r economi gylchol. Economi gylchol yw un sy'n ceisio cadw deunyddiau, cynhyrchion a chydannau mewn defnydd cyhyd â phosibl. Mae egwyddorion yr economi gylchol yn cynrychioli symudiad oddi wrth y model llinellol presennol o wneud, defnyddio a gwaredu, tuag at aildefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu gwastraff sy'n codi yn ystod datblygiad. Trafodir hyn ymhellach yn adran 8 isod.

1.12 Cyhoeddwyd PPW11 ym mis Mawrth 2021 i gyd-fynd â chyhoeddi *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040* (yn flaenorol y *Fframwaith Datblygu Cenedlaethol FfDC*). Mae PPW11 yn cyd-fynd â *Cymru'r Dyfodol* ac mae wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r gwahanol fesurau a nodir yn y cynllun cenedlaethol, yn ogystal â chyfeirio at bandemig Covid-19.

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff, 2014

1.13 Mae Erthygl 16 o Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yr UE¹ yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau sefydlu rhwydwaith integredig a digonol ar gyfer gwaredu gwastraff, ac ar gyfer adfer gwastraff dinesig cymysg. Mae TAN 21 yn ei gwneud yn ofynnol bod cynnydd tuag at hyn yn cael ei fonitro i nodi a yw capasiti tirlenwi digonol yn cael ei gynnal; bod digon o gapasiti trin yn cael ei gynnal; a yw patrwm gofodol y ddarpariaeth yn briodol i lenwi'r anghenion a nodwyd, a hefyd a oes angen unrhyw gamau pellach gan awdurdodau cynllunio lleol i fynd i'r afael â materion nas rhagwelwyd. Mae Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMSP, 2012) yn darparu man cychwyn strategol ar gyfer monitro.

1.14 Mae TAN 21 a'r CIMSP ill dau yn cyfeirio at y rhanbarthau blaenorol (Gogledd Cymru, De-orllewin Cymru, a De-ddwyrain Cymru) ac felly dim ond fel canllaw y gellir defnyddio eu ffigurau yn yr adroddiad hwn. Mae TAN 21 yn cynghori bod trothwy uchaf yr ystodau capasiti a nodir yn y CIMSP (neu unrhyw ddiweddariad dilynol) yn debygol o gynrychioli'r pwynt yr ystyrir bod maint y ddarpariaeth mewn rhanbarth yn ddigonol ar gyfer gallu adfer. Yn rhanbarth De-orllewin Cymru nodir y trothwy capasiti yn y CIMSP fel: 34-327 mil tonnell y flwyddyn. Mae'r amrywiad i'w briodoli i lefel yr ansicrwydd ynghylch maint y gwastraff gweddilliol sydd angen ei reoli.

1.15 Mae TAN 21 yn cynghori mai 7 mlynedd yw lefel y gwagle tirlenwi nad yw'n beryglus o fewn rhanbarth. Bydd hyd yr amser y mae gwagle tirlenwi yn para'n amrywio'n sylweddol gan y bydd yn dibynnu ar nifer o wahanol ffactorau megis gofynion peirianyddol, gorchudd dyddiol, cywasgiad a chyfraddau anheddu a chyfraddau dyddodi. Gall cyfyngiadau cynllunio hefyd gyfyngu ar faint o wagle a ddefnyddir yn y pen draw gan fod hyd oes caniatâd tirlenwi yn aml yn cael ei gyfyngu gan y defnydd o amodau. Nid yw TAN 21 yn rhagnodi methodoleg ar gyfer pennu oes safle tirlenwi er bod y CIMSP yn amcangyfrif oes tirlenwi yn seiliedig ar nifer o wahanol senarios yn dibynnu ar sgil-gynhyrchion gwastraff gweddilliol a chyfraddau dargyfeirio. Amcangyfrifodd y CIMSP, o dan y senario waethaf, y byddai gwagleoedd tirlenwi yn Ne-orllewin Cymru yn dod i ben yn 2020/21, ac o dan senario achos gorau byddai gwagleoedd yn para am gyfnod amhenodol.

1.16 Mae TAN 21 yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau gwaredu, adfer neu ailgylchu ddod ag Asesiad Cynllunio Gwastraff. Bwriad yr asesiad yw helpu i hysbysu penderfyniadau ynghylch ceisiadau am reoli gwastraff yng ngoleuni gofynion y TAN.

Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMSP, 2012)

1.17 Mae'r CIMSP yn cefnogi TZW, drwy fanylu ar ganlyniadau, polisïau a chymau cyflawni ar gyfer sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n ymwneud â chasglu a rheoli adnoddau gwastraff, a defnyddio cynhyrchion sy'n deillio o wastraff. Mae'n rhan o'r gyfres o ddogfennau sydd at ei gilydd yn rhan o'r cynllun/strategaeth rheoli gwastraff ar gyfer Cymru yn unol â'r gofynion llunio cynllun sydd wedi'u hymgorffori yn neddfwriaeth Cymru a'r UE.

1.18 Cyhoeddwyd y CIMSP yn 2012 ac roedd yn seiliedig ar ddata sydd wedi'i ddiweddararu ers hynny ar gyfer rhai mathau o ffrydiau gwastraff. Roedd ffynonellau data yn amrywio yn

¹ Mae deddfwriaeth yr UE a oedd yn gymwys yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r DU cyn 11.00pm ar 31 Rhagfyr 2020 wedi'i chadw yng nghyfraith y DU fel math o ddeddfwriaeth ddomestig a elwir yn 'ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir'.

dibynnu ar y llif gwastraff dan ystyriaeth. Casglwyd data gwastraff diwydiannol, masnachol a adeiladu a dymchwelgan ddefnyddio arolygon tra bod data ar wastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol (LACW) yn cael ei ddarparu bob chwarter yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio cronfa ddata Llif Data Gwastraff.

1.19 Defnyddiodd y CIMSP ddata gwastraff Diwydiannol a Masnachol (I&C) yn seiliedig ar arolwg a gynhaliwyd yn 2007. Ers cyhoeddi'r CIMSP mae dau arolwg arall wedi'u cynnal a oedd yn darparu data ar sgil-gynhyrchion gwastraff masnachol a diwydiannol a'u rheolaeth yn 2012 a 2018. Defnyddiodd y CIMSP ddata gwastraff adeiladu a dymchwel (C&D) yn seiliedig ar arolwg a gynhaliwyd yn 2005/06. Mae dau arolwg arall wedi eu cynnal ers hynny, a oedd yn edrych ar wastraff C&D sy'n codi ac a reolir yn 2012 a 2019. Cafwyd data ar LACW ar gyfer y CIMSP o'r gronfa ddata Llif Data Gwastraff, sy'n casglu data a ddarperir gan Awdurdodau Lleol yn uniongyrchol. Y cyfnod y mae data CIMSP yn cyfeirio ato yw 2009. Mae'r WPMR hwn yn ymgorffori data LACW sydd ar gael hyd at 2021/22.

Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti (Mawrth 2021)

1.20 Yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2019/20, cyhoeddwyd y strategaeth hon ym mis Mawrth 2021. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar sylfaen gweithredu llwyddiannus dros yr 20 mlynedd diwethaf o ran arferion ailgylchu a gwastraff cynaliadwy; cymryd y camau nesaf tuag at economi fwy cylchol, dileu gwastraff a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Nod y strategaeth yw symud o wneud a gwaredu i aildddefnyddio ac adfer cynhyrchion a deunyddiau lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn gofyn am newid sylfaenol yn y ffordd y mae pawb yn meddwl ac yn gweithredu gyda'r cynhyrchion sy'n cael eu gwneud a'u defnyddio.

1.21 Mae *Mwy nag Ailgylchu* yn cynnwys set o ddangosyddion sydd wedi'u datblygu i ddangos y cysylltiad rhwng polisi a chanlyniad o fewn y strategaeth economi gylchol, gyda dangosyddion i olrhain cynnydd i'r cyfeiriad dymunol. Mae'r dangosyddion hefyd wedi'u cynllunio i gysylltu â'r dangosyddion cenedlaethol o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*. Bydd y dangosyddion yn cael eu hamlinellu yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn, yn enwedig lle maent yn cyd-fynd â dangosyddion a thargedau TZW.

Y Llwybr i Sero Net a Chynnydd ar Leihau Allyriadau yng Nghymru (Rhagfyr, 2020)

1.22 Cynhyrchwyd y ddau adroddiad ar y cyd hyn, sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan y Pwyllgor Newidiadau yn yr Hinsawdd (CCC); maent yn rhoi cyngor i weinidogion ar dargedau hinsawdd Cymru rhwng nawr a 2050, ac yn asesu'r cynnydd o ran lleihau allyriadau hyd yma. Mae cyngor y CCC i LIC wedi'i osod mewn dwy ran:

- **Adroddiad Cynghori: Mae'r Llwybr i Gymru Sero Net** yn darparu argymhellion ar y camau gweithredu y mae angen eu cymryd yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth targed Sero Net a phecyn o bolisïau i'w gyflawni.


- **Adroddiad Cynnydd:** Mae **Lleihau allyriadau yng Nghymru** yn edrych yn ôl ar y cynnydd a wnaed yng Nghymru ers i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gael ei phasio, ac yn asesu a yw Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau lleihau allyriadau sydd wedi'u deddfu ar hyn o bryd.

1.23 Mae'r Adroddiad Cynghori yn cydnabod bod LIC wedi gwneud gwelliannau polisi pwysig ers 2017, gan osod esiamp i rannau eraill o'r DU. Mae hyn yn cynnwys strategaeth wastraff uchelgeisiol ac un o gyfraddau ailgylchu uchaf y byd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion sy'n gysylltiedig â sut y gellir lleihau carbon drwy arferion gwastraff, gan gynnwys:

- Deddfu ar gyfer gwaharddiad ar dirlenwi pob gwastraff dinesig bioddiraddadwy o 2025. Mae angen buddsoddiad cynnar i gyflawni hyn, o ran cyfleusterau compostio a threulio anaerobig newydd ac ati.
- Gosod cynlluniau ar gyfer targedau ailgylchu >70% ar ôl 2025, sut y bydd hyn yn effeithio ar gyfeintiau gweddilliol, yr angen am losgi a pholisi cynllunio
- Llosgyddion yn dechrau ystyried ôl-osod dal carbon
- Cynllun ar gyfer lleihau methan tirlenwi o safleoedd (gwaddol).

Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru

Dangosir yr ardal ddaearyddol a gwmpesir gan ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn Ffigur 1



Ffigur 1 – Awdurdodau Lleol Cyfansoddol rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru²

Ffynhonnell: *Tuag at Fframwaith Economaidd Rhanbarthol - Dogfen Ymgysylltu a Chyfranogiad Rhanddeiliaid*. Swyddfa Ranbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru, 2020.

1.24 Yn 2020 roedd gan ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru boblogaeth breswyl o 913,698 a oedd yn cynrychioli 28.8% o boblogaeth Cymru (amcangyfrif canol blwyddyn 2020, StatsCymru). Mae'r boblogaeth wedi bod yn codi'n raddol ers 2001 pan ddangosodd y cyfrifiad ei bod yn 846,368 (amcangyfrif canol blwyddyn 2001, StatsCymru).

1.25 Mae gan y rhanbarth gymysgedd arbennig o ardaloedd trefol a gwledig. Mae'r ardal drefol wedi'i chanoli ar Fae Abertawe ym mhen gorllewinol De Cymru Ddiwydiannol, tra bod ardaloedd helaeth y Canolbarth a De-orllewin wledig yn gymysgedd o ganolfannau gwasanaethau, trefi marchnad a phentrefi gwledig gwasgaredig. Mae meysydd o'r fath yn cyflwyno problemau a heriau gwahanol ar gyfer rheoli gwastraff.

1.26 Mae ardal Bae Abertawe yn ailstrwythuro economi a oedd yn seiliedig yn wreiddiol ar lo, haearn, dur, tunplat a phetrocemegol, ac mae wedi cael peth llwyddiant o ran denu buddsoddiad preifat a chyhoeddus. Mae ardaloedd gwledig Canolbarth a De-orllewin Cymru yn draddodiadol wedi cysylltu ei chryfderau economaidd â'r diwydiant amaeth, cyflogaeth yn y sector gwasanaethau, petrocemegion a thwristiaeth.

1.27 Yn gyffredinol, mae Canolbarth a De-orllewin Cymru yn ardal o dirwedd ac o werth ecolegol uchel. Mae ganddo'r unig Barc Cenedlaethol arfordirol yn bennaf yn y DU (Arfordir Sir Benfro), rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac AHNE Gŵyr. Mae ganddo hefyd

² Nid yw Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog wedi'u nodi ond cânt eu cynnwys mewn adrannau perthnasol o'r WPMR hwn.

lawer o safleoedd [Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG)] cenedlaethol a rhyngwladol o fewn ei ardal ddiffiniedig sydd wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth cadwraeth natur pwysig. Yn ogystal â'i ardaloedd dynodedig, mae ansawdd amgylcheddol yr arfordir sy'n weddill a sawl rhan o'i chefn gwlad o ansawdd arbennig o uchel. Y rhinweddau hyn sydd wedi gwneud y rhanbarth yn gyrchfan a ffafir i ymwelwyr, gyda thwristiaeth yn gyflogwr allweddol o arwyddocâd cynyddol yn y rhanbarth.

1.28 Mae porthladdoedd masnachol a chyfleusterau cludo nwyddau Dyfrffordd Aberdaugleddau, Abergwaun, Port Talbot ac Abertawe yn arbennig o bwysig i'r ardal. Mae'r porthladdoedd yn cysylltu â gweddill y DU drwy goridor yr A40 / A48 / M4. Mae rhwydwaith rheilffyrdd y rhanbarth yn cynnwys y llinellau Inter City a Gorllewin Cymru, a rheilffordd Calon Cymru. Fodd bynnag, mae'r prif gysylltiadau rheilffordd rhwng y dwyrain a'r gorllewin, heb unrhyw dreiddiad rheilffordd sylweddol o'r gogledd i'r de.

2. MONITRO SGIL-GYNHYRCHION GWASTRAFF Y RHANBARTH: Y Prif Ffrydiau Gwastraff

Cyflwyniad

2.1 Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn trafod y data sydd ar gael i bob un o'r prif ffrydiau gwastraff sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrif fel gwastraff dan reolaeth: Gwastraff a Gasglwyd gan yr Awdurdod Lleol (LACW); Gwastraff Diwydiannol a Masnachol (I&C); Gwastraff Adeiladu a Dymchwel (C&D); Gwastraff Peryglus, a Gwastraff Amaethyddol.

2.2 Ar gyfer pob un o'r prif ffrydiau gwastraff hyn, mae'r adroddiad: yn cyflwyno targed Tuag at Ddyfodol Diwastraff (TZW) (lle mae un yn bodoli); yn adrodd am y lefelau cyfredol o ddeilliant gwastraff yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru (lle mae data ar gael); ac yn adrodd am y rheolaeth ar y gwastraffau hynny ar hyn o bryd.

2.3 Lle bo ar gael ac yn ddefnyddiol, cyflwynir data ar gyfer nifer o flynyddoedd a'i rannu ar gyfer y gwahanol awdurdodau lleol er mwyn hwyluso dealltwriaeth gynhwysfawr o berfformiad y rhanbarthau dros amser a thros yr ardal ddaearyddol.

Gwastraff a Gesglir gan yr Awdurdod Lleol (LACW)

Sgil-gynhyrchion Cyfredol LACW

Targed Atal Gwastraff – Gwastraff y Cartref

Bydd *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn gofyn am:

- ostyngiad mewn sgil-gynhyrchion gwastraff o tua 1.5% (o'r gwaelodlin 2006-07) bob blwyddyn ar draws yr holl sectorau yn cynnwys gwastraff y cartref

Tabl 1: Cyfanswm y Sgil-gynhyrchion LACW, 2013/14 hyd 2021/22, fesul Awdurdod Lleol (mewn Tunellau)

Yr Awdurdod	13/14	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22
Sir Gaerfyrddin	77,247	77,824	78,540	83,756	86,362	88,922	78,174	77,928	80,118
Ceredigion	33,828	34,103	35,203	38,115	35,995	34,264	33,326	29,272	33,707
Sir Benfro	67,729	68,074	69,808	69,627	69,534	71,045	66,158	57,727	64,951
Powys	73,528	71,952	68,882	65,675	55,898	57,259	55,086	55,647	64,590
Castell-nedd Port Talbot	71,922	69,484	72,367	69,355	71,394	69,990	63,322	67,333	56,746
Abertawe	113,627	110,131	118,219	115,363	110,211	109,211	109,448	111,676	113,151
Canolbarth a De-orllewin Cymru	437,881	431,568	443,019	441,891	429,394	430,691	405,514	399,583	413,263

Ffynhonnell: StatsCymru – Rheolaeth o Wastraff Blynnyddol fesul Dull Rheoli (tunnell fetrig).

2.4 Cafwyd newid yn y diffiniad o wastraff trefol o 1 Ebrill 2012. Fe'i gelwir bellach yn wastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol (LACW) a bellach mae'n cynnwys gwastraff y cartref a gwastraff nad yw'n wastraff y cartref sy'n cael ei gasglu a'i waredu gan awdurdodau lleol. Defnyddir LACW i adrodd am dargedau ailgylchu ac mae yn awr yn cynnwys y Cartref, yn ogystal â Diwydiannol a Masnachol lle mae'r olaf hyn o gyfansoddiad tebyg. Mae'n cynnwys casgliadau cartref rheolaidd, casgliadau ailgylchu penodol, casgliadau arbennig o eitemau swmpus, gwastraff a dderbyniwyd mewn safleoedd amwynder dinesig a gwastraff a gesglir o ffynonellau nad ydynt yn gartrefi.

2.5 Ar y cyfan, roedd cyfanswm y sgil-gynhyrchion LACW wedi bod yn gostwng dros y cyfnod 2006/07 i 2012/13 ymhob un o'r chwe awdurdod yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. Yn gyffredinol, cafodd y targed TZW o ostwng LACW o 1.5% bob blwyddyn ers gwaelodlin 2006/07 ei gyflawni yn y rhanbarth cyfan hyd 2012/13. Ond, o ganlyniad i'r newid mewn diffiniad yn 2012, cafwyd cynnydd cyffredinol yng nghyfanswm y gwastraff dinesig awdurdod lleol a gynhyrchwyd. Fodd bynnag, o edrych ar Tabl 1, yn dilyn yr uchafbwynt yn 2015/16, gwelwyd y meintiau'n dechrau gostwng eto yn y pum mlynedd dilynol yr adroddwyd amdanynt hyd at 2020/21. Er nad oedd y gostyngiadau wedi cwmpo'n gyson o 1.5% o un flwyddyn i'r nesaf, y ffigur adrodd ar gyfer y cyfnod 2020/21 oedd yr isaf ers degawd. Mae'r arwyddion hyn yn addawol, ond mae'r cynnydd bach yn y ffigur adrodd diwethaf (2021/22) yn golygu bydd angen parhau â'r ymdrech er mwyn sicrhau bod y patrwm yn y dyfodol yn cyflawni targedau TZW.

2.6 O ran y gwastraff cartrefi gweddilliol (h.y. y maint cyfan o wastraff cartrefi heb y gwastraff cartref a anfonir i'w aildddefnyddio/aiglwlchu/gompostio), roedd hwn yn is cyn y newid yn y diffiniad o wastraff y soniwyd amdano uchod. Ond, yn debyg i'r sgil-gynhyrchion LACW cyffredinol, gwelodd hwn hefyd gynnydd bychan iawn yn ystod 2015/16 (fel y gwelwch yn Nhablau 2 a 3³ isod) cyn disgyn eto ar ôl 2016/17, ar lefel Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. Mae'r ffigurau'n pwyntio at wastatau o ran lleihad dros y 5 mlynedd diwethaf o adrodd, ac felly bydd angen monitro parhaus i benderfynu ar dueddiadau'r dyfodol.

Tabl 2: Sgil-gynhyrchion Gwastraff Gweddilliol y Cartref fesul annedd, 2014/15 hyd 2020/21, yn ôl yr Awdurdod Lleol (Kg)

Awdurdod	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22
Sir Gaerfyrddin	310	315	325	347	371	332	330	331
Ceredigion	434	472	564	495	464	423	347	419
Sir Benfro	509	506	500	484	472	361	364	402
Powys	409	341	295	274	295	288	312	294
Castell-nedd Port Talbot	481	518	462	473	471	393	455	446
Abertawe	338	356	321	287	286	297	328	339
Canolbarth a De-orllewin Cymru	398	402	386	372	375	337	346	363
Cymru	427	436	425	403	395	379	401	392

Ffynhonnell: StatsCymru

Tabl 3: Sgil-gynhyrchion Gwastraff Gweddilliol y Cartref fesul person, 2014/15 hyd 2020/21, yn ôl yr Awdurdod Lleol (Kg)

Authority	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22
Sir Gaerfyrddin	145	148	153	163	174	155	154	154
Ceredigion	203	223	270	240	226	208	170	205
Sir Benfro	253	253	250	242	237	181	161	200
Powys	198	165	144	134	144	141	152	144
Castell-nedd Port Talbot	223	240	214	218	216	181	208	204
Abertawe	155	163	146	130	130	135	149	154
Canolbarth a De-orllewin Cymru	187	190	182	176	177	159	163	171
Cymru	194	199	194	184	180	173	182	178

Ffynhonnell: StatsCymru

³ Ym mis Rhagfyr 2016, cafodd data gwastraff Cartref gweddilliol o Ebrill 2012 ymlaen eu diwygio oherwydd gweithrediad gwelliant methodolegol. Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi'u diwygio yng ngoleuni'r newid hwn.

Y Rheolaeth Gyfredol ar Wastraff a Gesglir gan yr Awdurdod Lleol (LACW)

Targed – Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio LACW

- Erbyn 2012/13, cyflawni o leiaf 52% o'r gwaith o baratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu/compostio (neu AD)
- Erbyn 2015/16 cyflawni o leiaf 58% o'r gwaith o baratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu/compostio (neu AD)
- Erbyn 2019/20 cyflawni o leiaf 64% o'r gwaith o baratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu/compostio (neu AD)
- Erbyn 2024/25 cyflawni o leiaf 70% o'r gwaith o baratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu/compostio (neu AD)

Tabl 4: LACW cyfraddau Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio fel Canran o'r Sgil-gynhyrchion, 2012/13 i 2020/21, fesul Awdurdod Lleol

Authority	13/14	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22
Sir Gaerfyrddin	55.7	59.6	63.5	66.2	63.6	58.9	64.7	66.3	61.8
Ceredigion	58.4	61.6	68.1	70.1	63.7	60.3	71.6	70.2	69.6
Sir Benfro	60.3	65.4	64.9	65.3	56.9	62.0	71.7	73.2	73.2
Powys	52.5	52.1	59.1	65.2	60.4	61.4	63.0	66.1	66.8
Castell-nedd Port Talbot	54.0	58.1	58.3	62.8	60.5	60.8	61.7	67.6	66.0
Abertawe	52.8	56.7	59.5	63.7	63.2	62.9	64.9	64.5	65.1
Canolbarth a De-orllewin Cymru	55.1	58.4	61.5	65.1	61.5	61.2	66.7	67.2	66.5
Cymru	54.3	56.2	60.2	63.8	62.7	62.8	65.1	65.4	65.2

Ffynhonnell: StatsCymru (Y Canran o Wastraff sy'n cael ei Ailddefnyddio/Ailgylchu/Compostio (Targed Statudol)⁴

2.7 Mae Tabl 4 yn dangos y perfformiad yn erbyn targedau ailgylchu a chompostio perthnasol awdurdodau lleol rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru dros y 9 mlynedd diwethaf. Mae'r data'n dangos bod cynnydd graddol wedi digwydd mewn cyfraddau ailgylchu a chompostio dros y blynyddoedd, gyda thri o'r chwe awdurdod yn cwrdd â tharged 2012/13 o 52%, a'r holl awdurdodau'n cyflawni targed 2015/16 o 58% o leiaf. Mae rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi perfformio'n gyson well na Chymru gyfan am y mwyafrif o'r naw mlynedd diwethaf a chyflawnwyd y targed TZW o sicrhau o leiaf 64% o ailgylchu erbyn 2019/20 ar lefel ranbarthol a lefel Cymru. Er bod gostyngiad bach ar y lefel ranbarthol yn y cyfnod adrodd diweddaraf (2021/22), mae targed 2024/25 o 70% (y mae Sir Benfro wedi'i gyrraedd eisoes am y drydedd flwyddyn yn olynol) yn edrych fel un mae modd ei gyflawni, yn enwedig wrth ystyried cynlluniau a chaffael awdurdodau lleol unigol yn y dyfodol (trafodwyd yn adran 6 yr adroddiad hwn).

2.8 Un o ganlyniadau'r cynnydd mewn gwastraff ailgylchu a chompostio yw gostyngiad ym maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Parhaodd maint mewn tunelli'r LACW oedd yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi i ostwng hyd at 2016/17, gwelwch Dabl 5 isod. Roedd y duedd hon yn gadarnhaol iawn, ac yn sicr yn mynd i'r cyfeiriad cywir er mwyn cyflawni targed 2025 a nodwyd yn *TZW a Mwy naq Ailgylchu* sef bod maint y gwastraff trefol a anfonir i'r safleoedd tirlenwi mor agos at sero ag y bo modd. Fodd bynnag, roedd cynnydd nodedig yn y maint o LACW a aeth i safleoedd tirlenwi yn y cyfnod monitro 2017/18. Y rheswm am hynny mae'n debyg oedd y newidiadau mewn contractau gwastraff unigol mewn rhai awdurdodau lleol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae'r cynnydd mewn defnyddio safleoedd

⁴Cyfanswm y gwastraff a ailddefnyddiwyd/ailgylchwyd/gompostiwyd (fel y mae wedi ei ddiffinio gan Darged Adferiad Statudol Awdurdodau Lleol, LART), fel canran o'r holl wastraff trefol a gesglir/gynhyrchir.

tirlenwi'n achos pryder, yn enwedig am mai dim ond lle cyfyngedig sydd ar ôl mewn rhai o'r safleoedd tirlenwi yn y rhanbarth. Er bod maint y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi wedi gostwng yn gyson yn y pedwar cyfnod mwyaf diweddar, bydd angen monitro'r sefyllfa'n fanwl dros y blynyddoedd nesaf i weld a yw'r awdurdodau lleol perthnasol yn defnyddio dulliau amgen i reoli LACW gweddilliol (mae trafodaeth am hyn yn Adran 4 isod), ac a fydd targed 2025 yn TZW a Mwy nag Ailgyllchu yn cael ei gyrraedd.

2.9 Er gwaethaf yr amrywiadau yn y maint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi dros y blynyddoedd diwethaf, mae gan y gostyngiad cyffredinol ers 2015/16 oblygiadau posibl o ran y defnydd arafach o le mewn safleoedd tirlenwi o fewn y rhanbarth. Pwysleisir hyn yn Nhabl 5 isod sy'n dangos bod y tunelledd o LACW a aeth i'r safleoedd tirlenwi yn y saith mlynedd diwethaf yn amlwg is na'r meintiau a ragwelwyd gan CIMSP (y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd) (a ddangosir mewn coch).

Tabl 5: Gwastraff a Gesglir gan Awdurdodau Lleol a anfonwyd i'r Safleoedd Tirlenwi

Awdurdod	15/16 (CIMSP)	16/17 (CIMSP)	17/18 (CIMSP)	18/19 (CIMSP)	19/20 (CIMSP)	20/21 (CIMSP)	21/22 (CIMSP)
Sir Gaerfyrddin	4,125	3,960	17,523	19,377	8,378	2,421	9,658
Ceredigion	4,126	4,671	9,198	10,661	1,867	1,416	2,075
Sir Benfro	10,386	8,125	25,926	13,041	5,054	3,667	4,275
Powys	17,766	13,807	15,464	14,797	11,984	11,597	6,249
Castell-nedd Port Talbot	10,161	7,537	7,864	5,833	9,766	4,652	4,400
Abertawe	44,633	37,111	36,028	37,225	35,869	35,524	31,839
Cyfanswm	91,197 189,000	75,211 186,000	112,003 183,000	100,934 180,000	72,918 177,000	59,277 171,000	58,496 165,000

Ffynhonnell: StatsCymru (gwastraff a reolwyd (tunellau) fesul dull rheoli a blwyddyn) a CIMSP (LIC, 2012).

2.10 D.S. Mae'r ffigurau CIMSP uchod wedi eu seilio ar hen ranbarth De-orllewin Cymru felly nid yw'n bosibl eu cymharu'n uniongyrchol â rhanbarth newydd Canolbarth a De-orllewin Cymru. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r newid graddfa fach rhwng y ddau ranbarth, mae'r ystadegau'n ddefnyddiol i gael syniad, a'r hyn sy'n amlwg yw bod y ffigurau'n llawer is nag y rhagwelwyd yn y CIMSP.

Gwastraff Trefol Biddiraddadwy (BMW)

Targed – Anfon Gwastraff Trefol Biddiraddadwy (BMW) i Safleoedd Tirlenwi

Gosodwyd maint y BMW y gellid ei anfon i safleoedd tirlenwi ymhob blwyddyn darged (tunellau) o dan Gynllun Lwfansau Tirlenwi Cymru, a dyma nhw:

- Yn 2010 maint y BMW y gellid ei anfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru oedd 710,000;
- Yn 2013 maint y BMW y gellid ei anfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru oedd 470,000
- Yn 2020 maint y BMW y gellid ei anfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru oedd 330,000

2.11 Mae Rheoliadau Cynllun Lwfans Tirlenwi (Cymru) 2004, yn rhoi'r cefndir deddfwriaethol ar gyfer y cynllun lwfans tirlenwi yng Nghymru. Maen nhw'n nodi mai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r awdurdod monitro mewn perthynas â chydymffurfio â'r lwfansau tirlenwi. Mae hefyd yn rhoi goblygiad ar Awdurdodau Gwaredu Gwastraff yng Nghymru ac ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i gadw cofnodion mewn perthynas â Gwastraff Trefol Biddiraddadwy ymhob blwyddyn o'r cynllun lwfans tirlenwi a darparu adroddiadau chwarterol. Mae'r offeryn hwn hefyd yn nodi y gall Llywodraeth Cymru (LIC) orfodi cosbau ariannol ar unrhyw Awdurdod Gwaredu

Gwastraff sydd heb gyflawni ei darged lwfans tirlenwi neu sydd heb gydymffurfio â'r gofynion adrodd.

2.12 Mae Rheoliadau Tirlenwi (Blwyddyn y Cynllun ac Uchafswm Tirlenwi) 2004 yn nodi uchafswm y maint o wastraff y ceir ei anfon i safleoedd tirlenwi mewn blynyddoedd targed (2010, 2013 a 2020), i'r DU gyfan ac i bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae LIC wedi dyrannu lwfansau tirlenwi i'r Awdurdodau Gwaredu Gwastraff yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn. Mae Tabl 6 yn dangos y lwfansau dyranedig hyn fesul Awdurdod Lleol hyd at 2019/20.

2.13 Ar lefel Cymru gyfan, mae'r canlyniadau blynyddol yn dangos bod pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi cadw at eu goblygiadau lwfans Cynllun Lwfansau Tirlenwi (LAS) yn ystod 2019/20. Anfonwyd cyfanswm o 73,294 o dunellau o BMW o Gymru i safleoedd tirlenwi o'i gymharu â lwfans Cymru gyfan o 330,000 o dunellau. Mae hyn yn golygu bod awdurdodau lleol Cymru, ar y cyd, wedi anfon 78 y cant (256,706 o dunellau) yn llai o BMW na lwfans 2019/20 ac mae hynny'n golygu bod Cymru gyfan wedi cyflawni targed 2020 sydd wedi ei nodi uchod.

2.14 Ar lefel Canolbarth a De-orllewin Cymru (gwelwch Dablau 6-8 isod), defnyddiodd Ceredigion a Sir Benfro lai na 25 y cant o'u lwfans. Defnyddiodd Powys a Sir Gaerfyrddin lai na 50 y cant o'u lwfans, tra bo Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe wedi defnyddio mwy na 50 y cant o'u lwfans.

2.15 Mae'r rhesymau am y newidiadau yn y defnydd a wnaed o lwfansau'n amrywio rhwng y blynyddoedd a rhwng awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, gellir esbonio'r newidiadau drwy edrych ar y rhesymau hyn:

- newidiadau yn narpariaeth y gwasanaeth casglu gwastraff;
- newidiadau yn yr arferion rheoli gwastraff a thechnolegau newydd/amgen – mae anfon gwastraff gweddilliol i'w losgi gan adfer ynni wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad Awdurdodau Lleol yn y Cynllun Lwfansau Tirlenwi mewn blynyddoedd diweddar;
- lefelau cyfranogaeth y cyhoedd mewn cynlluniau ailgylchu;
- amgylchiadau na chawsent eu rhagweld (e.e. tywydd eithafol, cynlluniau wrth gefn).

Tabl 6: Lwfansau tirlenwi ar gyfer BMW, fesul Awdurdod Lleol 2012/13 hyd 2019/20 (Tunellau)

Awdurdod	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20
Sir Gaerfyrddin	25,304	24,228	23,151	22,074	20,997	19,920	18,844	17,767
Ceredigion	11,635	11,140	10,645	10,150	9,655	9,160	8,665	8,170
Sir Benfro	19,497	18,667	17,837	17,008	16,178	15,348	14,519	13,689
Powys	23,237	22,249	21,260	20,271	19,282	18,293	17,304	16,316
Castell-nedd Port Talbot	22,789	21,819	20,849	19,880	18,910	17,940	16,971	16,001
Abertawe	36,624	35,066	33,507	31,949	30,391	28,832	27,274	25,715
Canolbarth a De-orllewin Cymru	139,086	133,169	127,249	121,332	115,413	109,493	103,577	97,658

Ffynhonnell: Adroddiad am Gynllun Lwfansau Tirlenwi (LAS) Cymru 2019/20, CNC a'r Gofrestr Gynllun Lwfansau Tirlenwi (LAS) yng Nghymru, o 2004 ymlaen, CNC

Tabl 7: BMW a anfonwyd i Safleoedd Tirlenwi, fesul Awdurdod Lleol 2012/13 hyd 2019/20 (Tunellau)

Awdurdod	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20
Sir Gaerfyrddin	15,572	17,681	7,175	2,278	2,388	11,263	12,822	5,295
Ceredigion	5,831	6,456	2,919	3,208	4,326	7,671	8,662	1,304
Sir Benfro	17,786	13,430	6,873	6,487	5,057	16,070	8,078	2,985
Powys	14,069	13,965	13,646	9,730	7,562	8,025	8,128	7,377
Castell-nedd Port Talbot	8,196	5,865	4,646	6,067	4,832	5,972	4,872	8,535
Abertawe	30,449	29,494	25,442	25,445	21,461	21,714	22,612	21,396
Canolbarth a De-orllewin Cymru	91,903	86,891	60,701	53,215	45,626	70,715	65,174	46,892

Ffynhonnell: Adroddiad am Gynllun Lwfansau Tirlenwi (LAS) Cymru 2019/20, CNC a'r Gofrestr Gynllun Lwfansau Tirlenwi (LAS) yng Nghymru, o 2004 ymlaen, CNC

Tabl 8: Canran y lwfansau tirlenwi a ddefnyddiwyd, fesul Awdurdod Lleol 2012/13 hyd 2019/20

Awdurdod	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20
Sir Gaerfyrddin	61.5	73.0	31.0	10.3	11.4	56.5	68	29.8
Ceredigion	50.1	57.9	27.4	31.6	44.8	83.7	99.97	15.96
Sir Benfro	91.2	71.9	38.5	38.1	31.3	104.7	55.6	21.8
Powys	60.5	62.8	64.2	48.0	39.2	43.9	47.0	45.2
Castell-nedd Port Talbot	36.0	26.9	22.3	30.5	25.6	33.3	28.7	53.3
Abertawe	83.1	84.1	75.9	79.6	70.6	75.3	82.9	83.2
Canolbarth a De-orllewin Cymru	66.1	65.2	47.7	43.9	39.5	64.6	62.9	48.0

Ffynhonnell: Adroddiad am Gynllun Lwfansau Tirlenwi (LAS) Cymru 2019/20, CNC a'r Gofrestr Gynllun Lwfansau Tirlenwi (LAS) yng Nghymru, o 2004 ymlaen, CNC

2.16 2019-20 oedd y flwyddyn olaf i Awdurdodau Lleol yng Nghymru dderbyn lwfansau tirlenwi. Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi gostwng maint y BMW a anfonir i safleoedd tirlenwi o 91 y cant (778,195 o dunellau) ers blwyddyn lawn gyntaf y cynllun yn 2005/06.

Mynegai Carbon Ailgylchu Awdurdodau Lleol.

2.17 Eunomia sy'n cynhyrchu Mynegai Carbon Ailgylchu Awdurdodau Lleol ac mae'n rhoi mesur gwahanol i gynghorau o berfformiad amgylcheddol eu gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu na dim ond mesur ar sail pwysau. Mae'r Mynegai'n dangos gweithgareddau ailgylchu pa awdurdodau lleol sy'n darparu'r buddion carbon mwyaf. O'i ddarllen ochr yn ochr ar gyfradd ailgylchu a mesuriadau eraill, ceir darlun llawnach o'r buddion a geir gan y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu.

2.18 Cymerir data am berfformiad ailgylchu awdurdodau lleol gan WasteDataFlow a'i luosogi gyda'r un 'ffactorau' carbon a ddefnyddir gan Zero Waste Scotland i gynhyrchu Metrig Carbon yr Alban. Mae'r broses hon yn trosi data am dunelledd ar gyfer pob defnydd ailgylchadwy i'r maint o garbon deuocsid cyfatebol (CO₂eq). Mae hyn yn dangos cyfanswm y carbon sydd wedi ei ymgorffori yn y defnydd y mae awdurdodau'n ei symud o gael ei waredu i gael ei ailgylchu. Bydd awdurdodau lleol sy'n casglu mwy o'r defnyddiau sydd â maint uwch o garbon ynddynt ar gyfer eu hailgylchu yn dangos buddion uwch. Rhoddir ystyriaeth hefyd i effaith allyriadau'r casgliadau sy'n cael eu gwahanu a'u cyfuno yn eu tarddle.

2.19 Mae Eunomia wedi cyfrifo'r arbedion carbon cyfan a gynhyrchwyd gan yr holl ailgylchu yr adroddwyd amdano gan bob Awdurdod, gan gynnwys eu casgliadau ochr y ffordd, Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC) a safleoedd dod â gwastraff. Trwy rannu'r nifer hwn gyda nifer y boblogaeth a wasanaethir, ceir ffigur arbed carbon fesul person, ac mae hynny'n golygu bod modd gwneud cymhariaeth effeithiol rhwng awdurdodau. Po fwyaf uchel yw'r gwerth, yr uchaf yw'r arbedion carbon. Mae rhoi cyfraddau fel hyn i awdurdodau'n dangos nad yw cyfradd ailgylchu uchel bob amser yn cynhyrchu'r arbedion carbon mwyaf.

2.20 Mae'r canlyniadau'n dangos bod Cymru'n parhau, o nifer dda, yn wlad orau'r DU am sicrhau'r arbedion carbon mwyaf fesul pen o ailgylchu ei Awdurdodau Lleol. Mae ei Mynegai Carbon yn dangos cynnydd bach (o 0.2 pwynt) yn y flwyddyn ddiweddaraf yr adroddwyd amdani – 2018/19, gan gyrraedd 93.6 Kg o CO₂eq fesul pen. Cymru sy'n rhoi'r sgorau uchaf yn gyson yn y Mynegai Carbon Ailgylchu. Ers i'r Mynegai Carbon Ailgylchu gychwyn yn 2011, cafwyd cynnydd yn y canlyniadau blynyddol gan awdurdodau yng Nghymru sy'n gwella o 2.6 pwynt ar gyfartaledd bob blwyddyn.


2.21 Mae pob Awdurdod wedi ei restru yn nhermau'r arbediad CO₂eq fesul pen o'r boblogaeth. Yna, mae'r awdurdodau'n cael eu grwpio fel a ganlyn:

- Perfformwyr Gorau – y 10% uchaf
- Perfformwyr Da – y 30% nesaf
- Perfformwyr Canolig – y 30% nesaf, a
- Perfformwyr Isel – y 30% isaf

2.22 O Ffigur 2 isod, gallwn weld nad oes unrhyw berfformwyr isel yng Nghymru. Wrth ystyried y 6 awdurdod yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 2 wedi cael sgorau perfformwyr gorau (Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin) ac mae'r 4 arall yn berfformwyr da (Powys, Ceredigion, Sir Benfro ac Abertawe).

2.23 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ar y dull o gasglu gwastraff y mae'n ei ystyried yn fwyaf cynaliadwy – y 'Glasbrint Casgliadau'. Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol Cymru wedi mabwysiadu'r glasbrint, ac mae hyn wedi cynyddu'r buddsoddiad mewn ailbrosesu ac wedi gostwng allyriadau carbon i bob Awdurdod Lleol. Mae'r mynegai carbon, a llofnodi'r glasbrint casgliadau yn ddau ddangosydd a nodwyd yn *Mwy nag Ailgylchu* i ddangos y cysylltiad rhwng polisi a chanlyniad yn strategaeth economi gylchol LIC.

Ffigur 2 – Mynegai Carbon Ailgylchu ar gyfer 22 Awdurdod Unedol Cymru



Ffynhonnell: Y Mynegai Carbon Ailgylchu – Awdurdodau Lleol Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon 2018/19 (Eunomia, Gaeaf 2020)

Gwastraff Diwydiannol a Masnachol (I&C)

Sgil-gynhyrchion Cyfredol o Wastraff I&C

2.24 Er nad oes ffynhonnell data blynyddol parhaus am wastraff Diwydiannol a Masnachol (I&C), mae Llywodraeth Cymru yn gofyn bod arolygon yn cael eu cwblhau bob pum mlynedd (yn fras) ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud hyn ar gais a gyda chyllid LIC. Mae'r arolygon mor ddibynadwy yn unigol ag y gallent fod a gwneir ymdrech sylweddol i sicrhau sail ystadegol y canlyniadau.

2.25 Defnyddiodd Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff blaenorol (WPMRs - 2015-20) ddata o ddau adroddiad a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, un yn 2009 (a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r CIMSP) ac un arall yn 2012. Mae'r ddau WPMR diwethaf (2021 a 2022) a'r un hwn yn defnyddio data o'r adroddiad diweddaraf gan Cyfoeth Naturiol Cymru a gyhoeddwyd yn 2020 sy'n rhoi gwybodaeth am y mathau, y niferoedd a gwreiddiau (fesul sector diwydiannol a rhanbarth daearyddol), a thynged (dull rheoli) gwastraff I&C a gynhyrchwyd gan fusnesau a'r sector cyhoeddus yn 2018. Mae Adroddiad 2020 yn diweddarau'r data o'r arolwg diwethaf ar gyfer blwyddyn galendr 2012.

2.26 O ran y fethodoleg ar gyfer yr arolwg diweddaraf, casglwyd data o sampl gynrychiadol o 1,752 o safleoedd busnes o wahanol sectorau a meintiau drwy Gymru gyfan rhwng Ebrill 2019 a Hydref 2019. Cafodd y data ei grosio i fyny gan ddefnyddio data poblogaeth safle busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) i lefel ranbarthol a chenedlaethol yng Nghymru. Roedd data SYG yn dangos bod 97,999 o safleoedd busnes Diwydiannol a Masnachol yng Nghymru yn 2018 gyda 7% mewn sectorau Diwydiannol a 93% mewn sectorau Masnachol. O'r safleoedd busnes hyn, roedd gan 65% lai na phum gweithiwr ac roedd gan 2% gant neu fwy o weithwyr cyflogedig. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn yn cymharu orau â'r arolygon I&C blaenorol a gwblhawyd yng Nghymru.

2.27 Rhaid nodi bod yr arolwg diweddaraf yn defnyddio'r rhanbarthau economaidd hyn yng Nghymru: Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru – sef grŵp rhanbarthol ychydig bach yn wahanol o ardaloedd Awdurdod Lleol nag a ddefnyddiwyd ar gyfer Astudiaethau 2012 a 2009. Mae hyn yn golygu nad oes modd cymharu canlyniadau rhanbarthol yn uniongyrchol ag arolygon blaenorol. Ond, mae'n ddefnyddiol o ran y grwpiau rhanbarthol newydd ar gyfer gwastraff sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad hwn, am eu bod wedi eu seilio ar ranbarthau economaidd Cymru.

Tabl 9 Cymharu gwastraff Diwydiannol a Masnachol a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 2012 a 2018

Sector	Maint y gwastraff a gynhyrchwyd fesul rhanbarth yn 2012 a 2018 (1000oedd o dunellau mewn blwyddyn)							
	De-ddwyrain Cymru		Canolbarth a De-orllewin Cymru		Gogledd Cymru		Cymru gyfan	
	2012	2018	2012	2018	2012	2018	2012	2018
Diwydiannol	1242	566	278	512	481	364	2,001	1,441
Masnachol	757	679	474	427	434	347	1,665	1,453
Cyfanswm	1,999	1,245	752	938	915	710	3,666	2,894

Ffynhonnell: Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018 (CNC, 2020)

2.28 Mae Tabl 9 yn dangos, o'u cymharu â chanlyniadau arolwg cynhyrchu gwastraff 2012:

- Bod maint y gwastraff a gynhyrchir yn y sector I&C yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol o 3.7 miliwn o dunellau yn 2012 i 2.9 miliwn o dunellau yn 2018 (wedi eu rhannu'n fras 50%:50% rhwng busnesau diwydiannol a masnachol).

- Bod maint y gwastraff a gynhyrchwyd yn y sector Diwydiannol wedi gostwng yn sylweddol o 2 filiwn o dunellau yn 2012 i 1.44 miliwn o dunellau yn 2018.
- Bod maint y gwastraff a gynhyrchwyd yn y sector Masnachol yng Nghymru wedi gostwng hefyd o 1.7 miliwn o dunellau yn 2012 i 1.45 miliwn o dunellau yn 2018 (ychydig bach o arwyddocâd ystadegol).

2.29 O ran rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, fel y dywedwyd ym mharagraff 2.27, nid oes modd defnyddio'r data yn Nhabl 9 i wneud cymhariaeth uniongyrchol o'r gwahaniaethau rhwng maint y gwastraff a gynhyrchwyd yn 2012 a 2018 am fod y grwpiau Awdurdod Lleol wedi newid rhwng y ddau adroddiad. Ond, ar lefel Cymru gyfan, mae'r cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd yn y TZW wedi eu nodi isod.

Cynnydd yn erbyn targedau – Atal gwastraff

2.30 Y targed atal gwastraff ar gyfer gwastraff diwydiannol yw gostyngiad o 1.4% bob blwyddyn tan 2050 (gan ddefnyddio 2007 fel gwaelodlin). Felly, dylai'r data fod yn gostwng bob blwyddyn o 26,546 o dunellau tuag at dunelledd cyfan o 1,604 mil o dunellau yn 2018.

2.31 Mae'r data yn Nhabl 10 yn awgrymu bod cynnydd wedi bod tuag at y targed hwn. Mae gostyngiad arwyddocaol yn ystadegol yn y maint o wastraff Diwydiannol a gynhyrchir yng Nghymru.

Tabl 10 Cymharu Gwastraff Diwydiannol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn yr Arolwg	Y targed o ran y gwastraff masnachol sy'n cael ei gynhyrchu	Amcangyfrif o'r gwastraff masnachol sy'n cael ei gynhyrchu	
(miloedd o dunellau)			
2018	1,604	1,441	+/- 6.76%
2012	1,763	2,001	+/- 11.7%
2007	Blwyddyn sylfaen	1,896	+/- 11.4%

Ffynhonnell: Yr Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018 (CNC, 2020)

2.32 Y targed atal gwastraff ar gyfer gwastraff masnachol yw gostyngiad o 1.2% bob blwyddyn tan 2050 (gan ddefnyddio 2007 fel gwaelodlin). Felly dylai'r data fod yn gostwng bob blwyddyn o 20,124 o dunellau tuag at dunelledd cyfan o 1,456 mil o dunellau yn 2018.

2.33 Mae'r data yn Nhabl 11 yn awgrymu bod cynnydd wedi digwydd tuag at daro'r targed hwn gyda gostyngiad yn y maint a amcangyfrifwyd. Ond, o ystyried yr ystod hyder, nid oes gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol ym maint y gwastraff masnachol a gynhyrchwyd yng Nghymru.

Tabl 11 Cymharu gwastraff Masnachol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn yr Arolwg	Y targed o ran cynhyrchu gwastraff masnachol	Amcangyfrif o'r gwastraff masnachol sy'n cael ei gynhyrchu	
(miloedd o dunellau)			
2018	1,456	1,453	+/- 6.05%
2012	1,576	1,665	+/- 10.4%
2007	Blwyddyn sylfaen	1,677	+/- 7.4%

Ffynhonnell: Yr Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018 (CNC, 2020)

Y Rheolaeth Gyfredol ar Wastraff I&C

2.34 Yn ogystal â nodi'r maint o wastraff I&C a gynhyrchwyd, mae Astudiaeth 2020 yn rhoi cyfrif manwl o'r gwahanol ddulliau rheoli gwastraff a ddefnyddir i ymdrin â'r mathau hyn o wastraff. Mae Tablau 12 a 13 isod yn nodi'r gwastraff diwydiannol a masnachol yn ôl y dull o'i reoli, wedi ei rannu fesul rhanbarth yng Nghymru yn 2018.

Tabl 12 Gwastraff Diwydiannol fesul dull Rheoli, wedi ei rannu fesul rhanbarth, Cymru 2018

Y Dull o Reoli Gwastraff	Fesul Rhanbarth mewn miloedd o dunellau a chanran y rhanbarth							
	De-ddwyrain Cymru		Canolbarth a De-orllewin Cymru		Gogledd Cymru		Cymru gyfan	
Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio	365	64%	401	78%	226	62%	992	69%
Adfer Tir	35	6%	17	3%	37	10%	90	6%
Llosgi**	41	7%	21	4%	32	9%	94	7%
Gwarediad Tir	60	11%	44	9%	28	8%	133	9%
Wedi'i Drin	28	5%	15	3%	17	5%	59	4%
Arall*	36	6%	13	3%	23	6%	73	5%
Cyfanswm	566		512		364		1,441	

Ffynhonnell: Yr Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018 (CNC, 2020)

* Mae dulliau eraill o reoli gwastraff yn cynnwys Gorsafoedd Trosglwyddo a Ddim yn Gwybod

**Mae Llosgi yn cynnwys Gan Adfer Ynni ac Heb Adfer Ynni

Tabl 13 Gwastraff masnachol fesul dull Rheoli, wedi ei rannu fesul rhanbarth, Cymru 2018

Dull Rheoli Gwastraff	Fesul Rhanbarth mewn miloedd o dunellau a chanran y rhanbarth							
	De-ddwyrain Cymru		Canolbarth a De-orllewin Cymru		Gogledd Cymru		Cymru gyfan	
Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio	443	65%	271	63%	222	64%	936	64%
Adfer Tir	4	1%	2	0%	2	0%	7	0%
Llosgi**	66	10%	43	10%	33	10%	142	10%
Gwarediad Tir	80	12%	51	12%	42	12%	173	12%
Wedi'i Drin	63	9%	43	10%	34	10%	141	10%
Arall*	24	4%	17	4%	13	4%	54	4%
Cyfanswm	679		427		347		1,453	

Ffynhonnell: Yr Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018 (CNC, 2020)

* Mae dulliau eraill o reoli gwastraff yn cynnwys Gorsafoedd Trosglwyddo a Ddim yn Gwybod

**Mae Llosgi yn cynnwys Gan Adfer Ynni ac Heb Adfer Ynni

2.35 Y prif ddull o reoli gwastraff yn y sectorau Diwydiannol a Masnachol oedd Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio a oedd yn cyfrif am 78% a 64%, yn y drefn honno, yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.

Cynnydd yn erbyn y targedau

Targed – Ailddefnyddio ac ailgylchu Gwastraff Diwydiannol a Masnachol

- Erbyn 2015/16 dylai o leiaf 57% o wastraff masnachol ac o leiaf 63% o wastraff diwydiannol gael ei ailgylchu;
- Erbyn 2019/20 dylai o leiaf 67% o wastraff masnachol a diwydiannol gael ei ailgylchu;
- Erbyn 2024/25 dylai o leiaf 70% o wastraff masnachol a diwydiannol gael ei ailgylchu.

2.36 Mae'r data yn Nhabl 14 yn awgrymu cynnydd tuag at daro'r targed hwn yn y sector Diwydiannol a chynnydd sy'n ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio ar gyfer Gwastraff Diwydiannol; y gyfradd oedd 50% yn 2012 a 69% yn 2018. Yn 2012 cafodd y gyfradd hon ei dylanwadu'n drwm gan reolaeth y gwastraff Llosgi o'r sector Cyflenwad Ynni, yr oedd cyfran fawr ohono wedi ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Tabl 14 Cymharu cyfraddau Ailgylchu Gwastraff Diwydiannol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn yr Arolwg	Amcangyfrif o Gyfanswm y Gwastraff Diwydiannol a Ailgylchwyd	
	Maint (miloedd o dunellau)	Cyfradd ailgylchu
2018	992	69%
2012	1,002	50%
2007	1,128	59%

Ffynhonnell: Yr Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018 (CNC, 2020)

2.37 Mae'r data yn Nhabl 15 yn awgrymu bod perfformiad y sectorau sy'n cynhyrchu gwastraff Masnachol wedi gostwng ychydig i lai na tharged 2019/20, o fod ychydig bach yn uwch na'r targed gynt yn arolwg 2012. Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth yn y perfformiad Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio i Wastraff Masnachol yn wahaniaeth sy'n arwyddocaol yn ystadegol – y gyfradd oedd 68% yn 2012 a 64% yn 2018.

Tabl 15 Cymharu'r Cyfraddau Ailgylchu Gwastraff Masnachol yng Nghymru yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn yr Arolwg	Amcangyfrif o Gyfanswm y Gwastraff Masnachol a Ailgylchwyd	
	Maint (miloedd o dunellau)	Cyfradd ailgylchu
2018	936	64%
2012	1,131	68%
2007	628	37%

Ffynhonnell: Yr Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018 (CNC, 2020)

Adfer ynni

2.38 Mae targed i beidio anfon mwy na 30% o wastraff Diwydiannol i safleoedd Adfer ynni erbyn 2024/25. Mae Tabl 16 yn dangos cynnydd ystadegol sylweddol yn y gyfradd adfer ynni ers 2012, ond nid yw wedi mynd yn uwch na'r lefel uchaf ar gyfer 2024/25.

Tabl 16 Cymharu cyfraddau'r gwastraff Diwydiannol yng Nghymru a aeth i safleoedd Adfer ynni yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn yr Arolwg	Amcangyfrif o Gyfanswm y Gwastraff Diwydiannol a anfonwyd i Adfer ynni	
	Maint (miloedd o dunellau)	Y Gyfradd Adfer ynni
2018	90	6.2%
2012	43	2.1%
2007	8	0.4%

Ffynhonnell: Yr Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018 (CNC, 2020)

2.39 Mae targed i beidio anfon mwy na 30% o wastraff Masnachol i safleoedd Adfer ynni erbyn 2024/25. Mae Tabl 17 yn dangos cynnydd ystadegol sylweddol yn y gyfradd adfer ynni ers 2012, ond nid yw wedi mynd yn uwch na'r lefel uchaf ar gyfer 2024/25.

Tabl 17 Cymharu cyfraddau'r gwastraff Masnachol yng Nghymru a aeth i safleoedd Adfer ynni yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn yr Arolwg	Amcangyfrif o Gyfanswm y Gwastraff Masnachol a anfonwyd i Adfer ynni	
	Maint (miloedd o dunellau)	Y Gyfradd Adfer ynni
2018	135	9.3%
2012	20	1.2%
2007	15	0.9%

Ffynhonnell: Yr Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018 (CNC, 2020)

Tirlenwi

Y Targedau Tirlenwi ar gyfer Gwastraff Diwydiannol a Masnachol

- Erbyn 2019/20 dylai uchafswm o 10% o wastraff diwydiannol a masnachol gael ei anfon i'r safleoedd tirlenwi;
- Erbyn 2024/25 dylai uchafswm o 5% o wastraff diwydiannol a masnachol gael ei anfon i'r safleoedd tirlenwi

2.40 Mae targed o beidio anfon mwy na 10% o wastraff Diwydiannol i Safleoedd Tirlenwi erbyn 2019/20, a dim mwy na 5% erbyn 2024/25. Fel y gwelwn yn Nhabl 18, mae gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn y gwastraff a aeth i'r safleoedd Tirlenwi i 9% yn 2018 o'i gymharu â 27% yn 2012. Mae hyn yn cwrdd â tharged 2019/20 ac mae ar y trywydd cywir i daro targed 2024/25.

Tabl 18 Cymharu cyfraddau'r gwastraff Diwydiannol yng Nghymru a aeth i safleoedd Tirlenwi yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn yr Arolwg	Amcangyfrif o Gyfanswm y Gwastraff Diwydiannol a anfonwyd i safleoedd Tirlenwi	
	Maint (miloedd o dunellau)	Y Gyfradd a aeth i Safleoedd Tirlenwi
2018	133	9%
2012	534	27%
2007	550	29%

Ffynhonnell: Yr Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018 (CNC, 2020)

2.41 Mae targed o beidio anfon mwy na 10% o wastraff Masnachol i Safleoedd Tirlenwi erbyn 2019/20, a dim mwy na 5% erbyn 2024/25. Fel y gwelwn yn Nhabl 19, cyfradd y gwastraff a aeth i'r safleoedd Tirlenwi yn 2018 oedd 12%, sef gostyngiad arwyddocaol ers 2012 pan oedd yn 26%, ac yn agos iawn at daro targed 2019/20, ac ar y trywydd cywir i daro targed 2024/25.

Tabl 19 Cymharu cyfraddau'r gwastraff Masnachol yng Nghymru a aeth i safleoedd Tirlenwi yn 2007, 2012 a 2018

Blwyddyn yr Arolwg	Amcangyfrif o Gyfanswm y Gwastraff Masnachol a anfonwyd i safleoedd Tirlenwi	
	Maint (miloedd o dunellau)	Y Gyfradd a aeth i Safleoedd Tirlenwi
2018	173	12%
2012	429	26%
2007	848	51%

Ffynhonnell: Yr Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018 (CNC, 2020)

Astudiaethau eraill i sgil-gynhyrchion I&C

2.42 O ran monitro yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i weld faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan ddiwydiant rheoledig yng

Nghymru. Mae gan Lywodraeth Cymru ddata pendant am hyn, gan ei bod yn ofynnol i weithredwyr adrodd yn ei gylch i Gyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o ofynion monitro eu hawlen. Felly ar gyfer gwastraff diwydiannol o leiaf, caiff canlyniadau blynyddol annibynnol eu cofnodi y gelir eu defnyddio i ategu'r arolygon llai aml – ac mae'r adroddiadau gwaelodlin wedi dangos eu bod yn cyd-fynd yn eithaf agos â'r arolygon hyn.

2.43 Er Astudiaeth ddiweddaraf 2020, mae'r diffyg data blynyddol parhaus ar wastraff I&C yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddadansoddi o flwyddyn i flwyddyn, a sefydlu tueddiadau dros amser, yn y modd gellir ei wneud gyda data gwastraff awdurdod lleol.

2.44 Fodd bynnag, mae prosiectau unigol yn ddefnyddiol o ran tynnu sylw at ddata penodol, ac efallai, yn fwy pwysig, dangos ar beth gallai astudiaethau'r dyfodol ganolbwyntio. Roedd un darn o waith o'r fath a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar astudiaeth lleihau gwastraff arbenigol y sector diwydiannol yng Nghymru.⁵ Roedd yr Astudiaeth yn dadansoddi effeithlonrwydd-proses y cyfleusterau oedd ar waith mewn pedwar sector blaenoriaeth (bwyd a diod, metelau, papur a chemegau) gan ddefnyddio data gwastraff Atal a Rheoli Llygredd (PCC) ac yn gwneud asesiad lefel uchel o'r cyfleoedd yn y sectorau hyn.

2.45 Roedd y data a gasglwyd ac a aseswyd ar gyfer yr Astudiaeth yn dangos bod gwastraff diwydiannol yng Nghymru yn grynodedig iawn yn ei darddiad, gyda thri safle yn unig yn cyfrif am hanner cyfanswm y gwastraff o fewn y diwydiannau a ganiateir (dau o'r sector metel ac un o'r sector papur). Er bod bron 100 o gyfleusterau'n cael eu cwmpasu gan y diwydiannau a ganiateir, mae'r 20 cyfleuster uchaf yn cyfrif am 90% o'r cyfanswm gwastraff a gynhyrchir. At ei gilydd, mae'r gwastraff o'r cyfleusterau hyn yn cynrychioli 30% o holl wastraff diwydiannol Cymru.

2.46 Fel amcangyfrif, daeth yr Astudiaeth i'r casgliad y gallai cyfleoedd i leihau gwastraff ddod i tua 155,000 o dunellau yn y pedwar sector targed – bron 15% o'r sgil-gynhyrchion gwastraff (neu 8% o'r sgil-gynhyrchion diwydiannol). Fodd bynnag, o ran dosbarthiad rhanbarthol yr 20 cyfleuster uchaf, prin iawn yw'r rhai yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ac felly mae'r astudiaeth yn rhoi bod i fwy o gyfleoedd pan gaiff ei roi ar waith ar lefel Cymru gyfan.

Casgliadau

2.47 Pan wnaed cymhariaeth fer â data o'r arolwg blaenorol yn 2012 gwelwyd bod newid sy'n ystadegol arwyddocaol yng nghyfanswm y gwastraff I&C a gynhyrchwyd yng Nghymru, ond nid oedd y gostyngiad cyffredinol hwn yn ddigon i daro'r targedau gostwng sydd yn TZW. Nid oedd y canlyniadau'n rhoi ateb pendant i'r cwestiwn a fyddai'r cynnydd ym maint y gwastraff a baratowyd ar gyfer ei aildefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio gan y sectorau Diwydiannol a Masnachol ar y cyd yn 2018 yn ystadegol arwyddocaol o'i gymharu â 2012. Ond, roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos bod y gostyngiad ym maint y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi gan y sectorau Diwydiannol a Masnachol ar y cyd yn ystadegol arwyddocaol o'i gymharu â 2012 ac felly roedd gostyngiad wedi digwydd, a llwyddwyd i daro targed TZW ar gyfer 2019/20.

2.48 Mae arolwg gwastraff I&C 2020 wedi dangos methodoleg data a darparu arolwg cadarn y gellir ei ddefnyddio ar gyfer arolygon y dyfodol yng Nghymru, yn arbennig am fod gwastraff

⁵ Waste Reduction Study: Wales Regulated Industries-Evidence Report, Oakdene Hollins (2014).

wedi ei alinio erbyn hyn â 3 rhanbarth economaidd Cymru. Mae canlyniadau arolwg 2018 yn cynrychioli'r gyfres fwyaf dibynadwy a chynhwysfawr o ddata cenedlaethol ar wastraff I&C ers 2012. Trwy arolygon fel hyn, mae gan Lywodraeth Cymru'r fantais o gael cyfres o ddata cadarn am gynhyrchu gwastraff sy'n caniatáu iddi wneud cymariaethau rhwng gwahanol flynyddoedd ac adeiladu llun o dueddiadau a datblygiadau dros amser. Ond, un anfantais o alinio â 3 rhanbarth economaidd Cymru yw nad oes modd cymharu canlyniadau ar lefel ranbarthol yn uniongyrchol â'r rheiny yn arolygon blaenorol 2007 a 2012.

2.49 Mae canlyniadau arolwg 2018 yn tynnu sylw at feysydd lle gallai mentrau a chymorth pellach gael eu canolbwyntio ar wella'r cynnydd tuag at gyflawni targedau a osodwyd yn TZW. Er enghraifft, roedd y mwyafrif (80%) o'r gwastraff masnachol a anfonwyd i'r safleoedd tirlenwi yn 2018 yn wastraffau cymysg oedd yn cynnwys gwastraffau gweddilliol cymysg (90%), gan awgrymu bod mwy o gyfleoedd i wella gwahaniad y defnyddiau ailgylchadwy yn y sectorau masnachol. Mae astudiaethau a phrosiectau unigol eraill, megis yr astudiaeth lleihau gwastraff arbenigol a gaiff sylw uchod, yn ddefnyddiol o ran tynnu sylw at ddata penodol, ac yn bwysicach byth efallai, dangos ar beth y gallai astudiaethau'r dyfodol ganolbwyntio.

Gwastraff Adeiladu a Dymchwel (C&D)

2.50 Yn debyg i'r hyn a wnaed gyda gwastraff Diwydiannol a Masnachol (I&C) a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol, nid yw data'n cael ei gadw'n flynyddol am wastraff Adeiladu a Dymchwel (C&D). Cafwyd astudiaethau achlysurol, a'r mwyaf diweddar oedd yr arolwg o wastraff C&D a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 2019, a luniwyd gan CNC. Diben yr Astudiaeth oedd cynhyrchu gwybodaeth am feintiau, gwreiddiau (fesul sector o'r diwydiant a rhanbarth daearyddol), a thynged gwastraff C&D a gynhyrchir gan fusnesau yng Nghymru. Cafodd yr Astudiaeth ei chyhoeddi ym Mai 2022.

2.51 Gall y data o'r Astudiaeth ddiweddaraf gael ei defnyddio i ddarparu tystiolaeth sy'n cefnogi datblygu polisi gwastraff, targedu ymyriadau, a monitro cynnydd yn erbyn y targedau atal gwastraff ac ailgylchu. Mae'r targedau presennol ar gyfer gwastraff C&D a bennwyd yn Strategaeth Gwastraff Cymru 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a chynlluniau sector-gysylltiedig wedi'u hamlinellu yn Nhabl 20 isod.

Tabl 20: Targedau gwastraff C&D Gwastraff yng Nghymru (Tuag at Ddyfodol Gwastraff, 2010)

Targed	Disgrifiad
Targedau atal gwastraff	Ar gyfer gwastraff Adeiladu a Dymchwel, gostyngiad o 1.4 y cant bob blwyddyn hyd at 2050 ar sail gwaelodlin 2006/07. Mae hyn yn cyfateb i 4.42 miliwn tonnall yn 2019/20.
Targedau ailgylchu (cynnwys Paratoi ar gyfer Aildefnyddio, Ailgylchu, Compostio a Ffeilio)	Erbyn 2019/20, cyflawni targed ailgylchu o 90% ar gyfer Adeiladu a Dymchwel
Targedau Tirlenwi	Erbyn 2019/20, fel canran o waelodlin 2007, lleihau gwastraff C&D sy'n mynd i safleoedd tirlenwi 75%. Mae hyn yn cyfateb i ddim mwy na 328 miliwn tonnall yn mynd i safleoedd tirlenwi.

Ffynhonnell: Arolwg Sgil-gynhyrchion Gwastraff Adeiladu a Dymchwel Cymru 2019 (CNC, 2022)

2.52 Mae sawl astudiaeth flaenorol ar wastraff C&D wedi'u cynnal yn y gorffennol, roedd rhain wedi'u defnyddio yn y WPMRs blaenorol ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru ac [yn achos 2022] y grwpriad rhanbarthol newydd o Ganolbarth a De-orllewin Cymru. Cynhyrchwyd yr astudiaeth ddiwethaf yn 2012. Cynhaliwyd arolwg 2019 i asesu a oedd unrhyw newid wedi bod yn y gwastraff oedd yn cael ei gynhyrchu ac arferion rheoli gwastraff sectorau busnes. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn arolwg 2019 yn gymaradwy'n bennaf â 2012, ond roedd y defnydd o ranbarthau economaidd Cymru sef Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru yn grwpriad rhanbarthol ychydig yn wahanol o ardaloedd awdurdod lleol nag astudiaeth 2012, ac felly o ganlyniad nid oedd yn bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng y ddau adroddiad ar lefel ranbarthol.

Faint o wastraff C&D a gynhyrchir ar Lefel Genedlaethol

2.53 Cafodd tua 3.43 miliwn tonnall o wastraff Adeiladu a Dymchwel ei gynhyrchu yng Nghymru yn 2019. Mae'r canlyniad yn welliant sylweddol o ran cywirdeb yr arolwg o gymharu â

2012, gan leihau o 33.2% i 16.7%. Mae arolwg 2019 yn darparu'r amcangyfrif mwyaf manwl gywir o sgil-gynhyrchion gwastraff Adeiladu a Dymchwel cenedlaethol hyd yn hyn, fel y dangosir yn Nhabl 21 isod. Mae'r cynnydd hwn mewn cywirdeb yn ddangosydd pendant ar gyfer mesur yn erbyn targedau atal gwastraff Llywodraeth Cymru.

Tabl 21 Cymharu gwastraff adeiladu a dymchwel yng Nghymru yn 2012 a 2019


Blwyddyn Arolwg	Gwastraff Adeiladu a Dymchwel a gynhyrchir (mil tunnell)	Ystod (%)	Isaf (mil tunnell)	Uchaf (mil tunnell)
2019	3,427	+/- 16.7%	2,855	3,999
2012	3,359	+/- 33.2%	2,244	4,475

Ffynhonnell: Arolwg Sgil-gynhyrchion Gwastraff Adeiladu a Dymchwel Cymru 2019, CNC 2022

Gwastraff C&D a Gynhyrchir – fesul Sector

2.54 Mae Ffigwr 3 yn dangos dadansoddiad o'r cyfanswm gwastraff C&D a gynhyrchir gan y sector. O'r 3.4 miliwn tunnell a gynhyrchwyd yn 2019, cafodd dros draean ei greu gan y sector Peirianeg Sifil, gan gyfrif am 1.23 miliwn tunnell (36%), gan olygu taw hwn oedd y sector mwyaf o gryn dipyn o ran cynhyrchu gwastraff C&D. Roedd Peirianeg Sifil hefyd wedi creu'r rhan fwyaf o Bridd (780 mil tunnell), gan gyfrif am dros 20% o gyfanswm sgil-gynhyrchion gwastraff C&D Cymru. Y sectorau Adeiladau Cyffredinol (560 mil tunnell) ac Adeiladu Adeiladau Domestig (540 mil tunnell) oedd yr ail a'r trydydd mwyaf, pob un yn cyfrif am tua 16% o gyfanswm y gwastraff C&D. Roedd y chwe sector oedd yn weddill yn cyfrif am lai na 10% yr un o gyfanswm y sgil-gynhyrchion C&D.

Ffigwr 3 dadansoddiad o gyfanswm gwastraff C&D a gynhyrchir fesul sector



Ffynhonnell: Arolwg Sgil-gynhyrchion Gwastraff Adeiladu a Dymchwel Cymru 2019, CNC 2022

Faint o Wastraff C&D a Gynhyrchir– fesul Rhanbarth

2.55 Darperir yn Nhabl 22 ddadansoddiad bras o sgil-gynhyrchion gwastraff C&D yn 2019 ar draws y tri rhanbarth yng Nghymru. Cafodd y rhan fwyaf o wastraff C&D ei greu yn Ne-ddwyrain Cymru (47.0%), ac wedyn Canolbarth a De-orllewin Cymru (30.5%) a Gogledd Cymru (22.5%).

Tabl 22 Gwastraff Adeiladu a Dymchwel a gynhyrchwyd fesul Rhanbarth, Cymru 2019

Rhanbarth	Mil tunnell	Canran
De-ddwyrain Cymru	1,618	47.0%
Canolbarth a Gorllewin Cymru	1,040	30.5%
Gogledd Cymru	769	22.5%
Cyfanswm	3,427	100%

Ffynhonnell: Arolwg Sgil-gynhyrchion Gwastraff Adeiladu a Dymchwel Cymru 2019, CNC 2022

Gwastraff C&D drwy Ddull Rheoli Gwastraff

2.56 Fel y dangosir yn Nhabl 23, ychydig dros 2.5 miliwn tunnell, ar gyfer y wlad gyfan, cafodd y rhan fwyaf o wastraff Adeiladu a Dymchwel ei anfon i’w ailgylchu (73%) gyda 511 mil tunnell (15%) arall yn cael ei baratoi i’w aildddefnyddio oddi ar y safle a 213 mil tunnell yn cael ei waredu drwy Safleoedd Tirlenwi (6%). Roedd y 19 mil tunnell a reolir drwy Losgi yn cynnwys 16 mil tunnell gydag Adfer Ynni a 3 mil tunnell Heb Adfer Ynni.

2.57 Ar y lefel ranbarthol, ailgylchu oedd y dull rheoli gwastraff pennaf a gofnodwyd ar draws pob rhanbarth o Gymru. Bu i bob un o’r rhanbarthau gofnodi cyfradd ailgylchu cymaradwy i’r gyfradd genedlaethol, heb unrhyw wahaniaeth ystadegol sylweddol rhwng perfformiad rhanbarthol. Roedd cyfraddau safleoedd tirlenwi’n amrywio o 5% i 7% ar draws y rhanbarthau. Cofnodwyd y gyfradd Dirlenwi uchaf yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Nid oedd yr amrywiadau mewn perfformiad rhanbarthol yn ystadegol sylweddol.

Tabl 23: Gwastraff C&D fesul dull rheoli gwastraff– yn rhanbarthol ac ar gyfer Cymru gyfan 2019

Dull Rheoli Gwastraff	De-ddwyrain Cymru (mil tunnell a %)	Canolbarth a De-orllewin Cymru (mil tunnell a %)	Gogledd Cymru (mil tunnell a %)	Cymru Gyfan (mil tunnell a %)
Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio, Ailgylchu, Compostio ac Ôl-lenwi	1,463 (90%)	924 (89%)	688 (89%)	3,074 (90%)
Tirlenwi	87 (5%)	78 (7%)	47 (6%)	213 (6%)
Trin	10 (<1%)	7 (<1%)	5 (<1%)	21 (<1%)
Llosgi	9 (<1%)	5 (<1%)	4 (<1%)	19 (<1%)
Adfer Tir	4 (<1%)	4 (<1%)	3 (<1%)	12 (<1%)
Arall	44 (3%)	23 (2%)	22 (3%)	88 (3%)
Cyfanswm	1,618	1,040	769	3,427

Ffynhonnell: Arolwg Sgil-gynhyrchion Gwastraff Adeiladu a Dymchwel Cymru 2019, CNC 2022

Arall yn cynnwys rheoli drwy Adfer Arall, Gorsaf Drosglwyddo a ‘Ddim yn Gwybod’

Cymharu ag Arolygon a Thargedau Blaenorol ‘Tuag at Ddyfodol Diwastraff’


2.58 Cymharu data â chanlyniadau arolwg blaenorol yw'r unig ffordd o nodi tueddiadau lefel uchel oherwydd arolygon yw'r unig ffordd o gasglu'r wybodaeth hon ar y pryd. Mae'r gallu i gymharu canlyniadau C&D 2012 a 2019 yn cael ei gyfyngu gan y cywirdeb a gyflawnwyd gan y ddau arolwg. Mae gan y ddau arolwg lwfans gwallau i raddau, felly bydd gwahaniaethau rhwng arolwg 2012 a 2019 weithiau o achos gwall sampl yn hytrach na newid gwirioneddol o ran creu neu reoli gwastraff, ac felly rhaid cymryd hyn i ystyriaeth.

2.59 Mae'n bwysig cofio hefyd am natur amrywiol y sector adeiladu a dymchwel. Mae amrywiadau o ran gweithgarwch y sector yn gallu cael effaith uniongyrchol ar y gwastraff C&D blynyddol sy'n cael ei greu, a gall maint a lleoliad y prosiectau ddylanwadu'n helaeth ar sgil-gynhyrchion. Er enghraifft, gall sgil-gynhyrchion gynyddu dim ond achos bod rhagor o brosiectau a/neu brosiectau ar raddfa fwy mewn blwyddyn benodol a arolygwyd, er bod y pwysau cyfartalog a gynhyrchwyd fesul uned ar lefel prosiect wedi gostwng o bosibl.

Targedau Atal Gwastraff

2.60 Y targed atal gwastraff ar gyfer gwastraff C&D yw gostyngiad o 1.4% y flwyddyn tan 2050, gan ddefnyddio 2006/07 fel gwaelodlin (Llywodraeth Cymru 2010). Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad blynyddol o 75,701 tonnelli i darged o 4.42 mil tonnelli ar gyfer 2019/20. Ar lefel genedlaethol, mae Ffigwr 4 yn dangos y mwyafswm sgil-gynhyrchion gwastraff C&D a dargedwyd ar gyfer 2019/20, ac yn dangos bod y targed a gyflawnwyd gan y sector C&D pan fesurir hynny yn erbyn y tunelli amcangyfrifedig a gynhyrchir yn 2019 (3.43 mil tonnelli) a hyd a lled y gwallau arolwg (+/-0.57 mil tonnelli).

Ffigwr 4: Creu gwastraff adeiladu a dymchwel yng Nghymru 2019 o gymharu â'r targed Tuag at Ddyfodol Diwastraff



Ffynhonnell: Arolwg Sgil-gynhyrchion Gwastraff Adeiladu a Dymchwel 2019, CNC 2022

Targedau Ailgylchu

2.61 Mae *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn pennu targed Ailgylchu (sy'n cynnwys Paratoi at Ailddefnyddio, Ailgylchu, Ôl-lenwi a Chompostio) o 90% erbyn 2019/20 ar gyfer y Sector Adeiladu a Dymchwel. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos, ar lefel genedlaethol, fod Cymru wedi cyrraedd y targed yn 2019 ar sail y perfformiad Ailgylchu 93% amcangyfrifedig. Mae hyn wedi cynyddu o'r 87% yn Astudiaeth 2012.

2.62 Nid yw'r targed uchod yn cynnwys gwastraff peryglus na phridd a cherrig naturiol. Fodd bynnag, wrth gynnwys gwastraff o'r fath yn y cyfrifiad, cyflawnodd Cymru gyfradd ailgylchu amcangyfrifedig o 90%.

2.63 Ar lefel ranbarthol unigol, ailgylchu oedd y dull rheoli gwastraff a gofnodwyd pennaf ar draws pob rhanbarth o Gymru. Bu i bob un o'r rhanbarthau gofnodi cyfradd ailgylchu gymaradwy i'r gyfradd genedlaethol, heb wahaniaeth ystadegol sylweddol rhwng perfformiad rhanbarthol.

2.64 Fel yn achos arolygon blaenorol, mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u cyfyngu i gywirdeb y wybodaeth am y cyfraddau ailgylchu a ddelir gan y cynhyrchwyr gwastraff. Mae unrhyw ddeunydd a gesglir ar gyfer ailgylchu, ond a waredir wedi hynny gan y diwydiant gwastraff (h.y. o achos halogi neu anallu i ailgylchu) yn annhebygol o gael ei adrodd yn ôl i'r holl gynhyrchwyr gwastraff. Felly, mae'r amcangyfrif hwn yn debygol o gynrychioli'r gyfradd ailgylchu mwyaf posibl.

Targedau tirlenwi

2.65 Mae *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn cynnwys targedau i leihau faint o wastraff C&D sy'n mynd i Safleoedd Tirlenwi yng Nghymru, ar sail gostyngiad canran o waelodlin 2007, gyda tharged penodol o ostyngiad o 75% wedi'i bennu ar gyfer 2019/20. Mae hyn yn cyfateb i darged o ddim mwy na 318 mil tonnall yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi erbyn 2019, ar sail ffigwr gwaelodlin o 1,272 mil tonnall (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru 2006).

2.66 Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod Cymru wedi cyrraedd y targed yn 2019 ar sail y tunelli amcangyfrifedig a gynhyrchwyd yn 2019 o 213 mil tonnall. Fodd bynnag, yn debyg i ailgylchu, mae amcangyfrifon tirlenwi hefyd wedi'u cyfyngu i gywirdeb gwybodaeth y cyfraddau terfynol a ddelir gan gynhyrchwyr gwastraff. Mae'r tri rhanbarth yn gymaradwy'n fras o ran canrannau gwastraff C&D a anfonwyd i safleoedd tirlenwi, gyda'r cyfraddau'n amrywio o 5% i 7%. Cofnodwyd y gyfradd ailgylchu uchaf yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, ond nid oedd yr amrywiadau mewn perfformiad rhanbarthol yn ystadegol sylweddol. Y gyfradd gyffredinol ar gyfer Cymru oedd 6%.

2.67 Fel y nodwyd yn adroddiad 2022, mae costau cynyddol gwastraff tirlenwi yn debygol o fod yn gyfrannwr sylweddol at anfon llai o wastraff C&D i safleoedd tirlenwi ac anfon mwy i gyfleusterau didoli gwastraff canolraddol o gymharu â 2012. Mae deunyddiau gwastraff yn cael eu tynnu at ddibenion ailgylchu yn y cyfleusterau hyn, ond yn y pen draw, efallai fod canran o'r gwastraff yn anaddas ar gyfer ailgylchu ac wedi'i anfon yn anuniongyrchol i'w waredu mewn safleoedd tirlenwi. Mae'n bosib nad yw'r manylyn hwn wedi'i adrodd nôl i gynhyrchwyr gwastraff ac felly mae ffigurau safleoedd tirlenwi a adroddir yn debygol o fod yn amcangyfrifiad 'lleiafswm'.

Casgliadau ac Argymhellion o'r Adroddiad Gwastraff C&D diweddaraf

2.68 O ran cyrraedd targedau cenedlaethol *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, cyrhaeddwyd y targedau atal gwastraff a thirlenwi C&D gan y sector C&D yng Nghymru yn 2019, wrth eu mesur yn erbyn y tunelli amcangyfrifedig. Amcangyfrifwyd bod y targed Ailgylchu gwastraff C&D wedi'i gyrraedd yn 2019 ar sail cyfradd ailgylchu o 93%.

2.69 Mae'r arolwg wedi dangos ffordd o gynnal yr arolwg a dulliau data sy'n gadarn, y gellid eu defnyddio ar gyfer arolygon y dyfodol. Mae canlyniadau 2019 yn cynrychioli'r set fwyaf dibynadwy a chynhwysfawr o ddata cenedlaethol ar C&D a ymgwymerwyd yng Nghymru hyd yn hyn. Trwy arolygon o'r fath, mae gan Lywodraeth Cymru y fantais o gael cyfres o ddata cynhyrchu gwastraff pendant sy'n galluogi cymharu rhwng gwahanol flynyddoedd ar gyfer matrices allweddol a chreu darlun o dueddiadau a datblygiadau dros amser.

2.70 Yn fwy pwysig, o ran monitro gwastraff a chynllunio, gall awdurdodau cynllunio defnyddio data o'r arolwg ar lefel genedlaethol a ranbarthol i lywio cynllunio gwastraff.

2.71 Mae canlyniadau'r arolwg yn amlygu'r ardaloedd lle gallai mentrau a chymorth pellach ganolbwyntio ar wella cynnydd o ran cyrraedd targedau a bennwyd yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*. Er enghraifft, Pridd oedd y rhan fwyaf o'r gwastraff C&D a aeth i safleoedd tirlenwi yn 2019 (tua 150 mil tunnell), a awgrymai fod cyfleoedd posibl i wella adfer y deunydd hwn yn y sectorau C&D.

2.72 Mae'r adroddiad yn pwyntio allan fod nifer o ffyrdd y gellid gwella arolygon yn y dyfodol, er enghraifft mae angen gwelliannau o ran tracio gwastraff yn electronig o'r pwynt cynhyrchu i'r gwaredu terfynol i wella dibynadwyedd ystadegau rheoli gwastraff y sector C&D yn y dyfodol.

Gwastraffau Anadweithiol

2.73 Er bod gwastraffau C&D yn cynnwys gwastraffau eraill heblaw gwastraffau anadweithiol, mae'n ddefnyddiol edrych ar ddata am wastraffau anadweithiol (gan ei fod yn cael ei gyhoeddi yn flynyddol), ac ystyried y ffordd y rheolir gwastraff anadweithiol yng Nghymru, am fod hwn yn cynnwys y mwyafrif o'r gwastraffau a ddaw o'r sector adeiladu a dymchwel. Mae Tabl 24 yn dangos gwastraffau anadweithiol sy'n cael eu rheoli yng Nghymru yn ôl eu dulliau rheoli yn 2020.

Tabl 24: Gwastraff Anadweithiol a Reolir yng Nghymru yn 2021 (tunellau)

Math o Gyfleuster	Gogledd Cymru	De-ddwyrain Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	Cyfanswm
Safle Amwynder Dinesig	20105.76	22724.2896	17035.62	59865.6696
Torrwr Ceir	17.394	5293.239	0.002	5310.635
Cyd-losgydd	191545.358	0	0	191545.358
Compostio	281.38	0	12304.03	12585.41
Gwaredu gwastraff i'r tir (adfer)	240584.85	5997	2163.5	248745.35
Trosglwyddo Gwastraff Peryglus	956.35	2481.655	17443.73	20881.735
Safleoedd Trosglwyddo Gwastraff Cartrefi, Masnachol a Diwydiannol + asbestos	0	0	973.1	973.1
Safleoedd Trosglwyddo Gwastraff Cartrefi, Masnachol a Diwydiannol + triniaeth	0	1220	5594	6814
Safleoedd Trosglwyddo Gwastraff Cartrefi, Masnachol a Diwydiannol + triniaeth (dim adeiladau)	0	0	11029.41	11029.41
Safleoedd Trosglwyddo Gwastraff Cartrefi, Masnachol a Diwydiannol + triniaeth + asbestos	0	389.325	0	389.325
Safleoedd Trosglwyddo Gwastraff Anadweithiol a Chloddio	0	51033	1681	52714
Safleoedd Trosglwyddo Gwastraff Anadweithiol a Chloddio + triniaeth	10470.33	2980	41673	55123.33
LF Anadweithiol	88855.4	0	0	88855.4
Trosglwyddo Gwastraff Anadweithiol	30376.38	6779.546	0	37155.926
Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau (MRF)	69858.835	825641.8361	194887.945	1090388.616
Ailgylchu Metel	79926.3732	30871.745	0.5	110798.6182
Ailbroesu Metel	867.38	0	0	867.38
Cyfarpar Symudol (anhysbys)	0	0	74666	74666
LF nad yw'n Beryglus	55716.15	89105.02	108249	253070.17
LF nad yw'n Beryglus (SNRHW)	0	50469.86	0	50469.86
Trosglwyddo Gwastraff nad yw'n Beryglus	223120.844	210328.584	118078.161	551527.589
Safle HWA y Cartref nad yw'n Beryglus	40.62	0	0	40.62
Safle HWA Peryglus ac nad yw'n Beryglus	0	0	264.12	264.12
Triniaeth Ffisegol	95867.364	215892.55	48442.6	360202.514
Triniaeth Ffisegol-Cemegol	0	4.128	0	4.128
LF Cyfyngedig	0	8044	76	8120
Cyfleuster trin WEEE	0	0	0	0
Cyfanswm Tirlenwi	144,572	147,619	108,325	400,515
Cyfanswm	1,108,591	1,529,256	654,562	3,292,408

Ffynhonnell: Holwr Adroddiadau Trwydded Gwastraff 2021 (CNC)

2.74 O ddiddordeb arbennig yw'r tunelledau o wastraff sy'n cael eu rhoi mewn safleoedd tirlenwi, yn arbennig gwastraff anadweithiol a dodi gwastraff yn y tir, oherwydd nid oes lle diderfyn yn y safleoedd hyn. Cafodd ychydig dros 12% o wastraff anadweithiol a reolir yng Nghymru yn 2021 ei anfon i safle tirlenwi. Mae hyn yn uwch na'r ffigur o 6% a nodwyd yn arolwg 2022 ar gyfer gwastraff C&D, ond dylid nodi bod y data yn adroddiadau'r hawlen wastraff yn cynnwys deilliant gwastraff yn Lloegr ac nid yw'n cynnwys yr holl sgil-gynhyrchion gwastraff yng Nghymru, felly gallai adlewyrchu dosbarthiad y safleoedd mewn ardal. Yn ogystal â hynny, mae safleoedd tirlenwi i wastraff nad yw'n beryglus yn defnyddio gwastraffau anadweithiol yn eu gweithredoedd peirianeg ac fel gorchudd dyddiol.

2.75 O ran canran cyffredinol y gwastraff anadweithiol a reolir yn y tri rhanbarth yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, anfonwyd 16.5% i safleoedd tirlenwi yn 2021. Mae hyn yn uwch nag yng Ngogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru lle cafodd 13% a 9.6% o wastraf anadweithiol ei anfon i safleoedd tirlenwi yn y drefn honno.

Gwastraff Peryglus

Cyflwyniad

2.76 Gwastraffau peryglus yw'r mathau hynny o wastraff sy'n arbennig o niweidiol i iechyd dynol, neu i'r amgylchedd naill ai ar unwaith neu dros gyfnod estynedig o amser. Mae gwastraff peryglus yn cael ei reoli'n dynn, ac mae gan yr anfonwr (cynhyrchydd), y cludwr a'r derbyniwr (sawl sy'n derbyn) gyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am gynhyrchiad, symudiad a thriniaeth/gwaredu gwastraffau peryglus.

2.77 Ym mis Gorffennaf 2005, daeth Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) a'r Rheoliadau Rhestr o Wastraffau (Cymru) i rym, gan ddisodli'r Rheoliadau Gwastraff Arbennig. Cafodd y rheoliadau newydd hyn yr effaith o gynyddu'r nifer o wastraffau a ystyrir yn 'berylus' – maen nhw'n cynnwys setiau teledu, monitorau cyfrifiadurol sy'n wastraff ac offer trydanol ac electronig gwastraff arall, tiwbiau fflworoleuol a phlaleiddiaid – gan achosi cynnydd ym maint y math hwn o wastraff sy'n cael ei gofnodi.

Sgil-gynhyrchion Cyfredol y Gwastraff Peryglus

2.78 Mae CIMSP (2012) yn nodi bod tua 255 mil o dunellau o wastraff peryglus wedi cael eu cynhyrchu yng Nghymru yn 2010, a hynny gan fwy na 9 mil o fusnesau. Daeth y rhan fwyaf o hyn o wastraffau prosesau thermol (fel slag dur), olew a chymysgeddau olew/dŵr, triniaeth/pureiddio glo, petrol a nwy a gwastraff adeiladu a dymchwel ac asbestos. Mae ffigurau mwy diweddar o 2015-2021 i'w gweld yn Nhabl 25 isod sydd wedi eu seilio ar Godau Gwastraff Ewropeaidd (EWC) – wedi eu creu o benodau sy'n disgrifio'r deilliant gwastraff o wahanol ffynonellau.

2.79 Cyn 2012, roedd gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru fonitro symudiadau gwastraff peryglus cofrestredig, a chadwyd y data ar gronfa ddata Holwr Gwastraff Peryglus Asiantaeth yr Amgylchedd. Gan Cyfoeth Naturiol Cymru mae'r cyfrifoldeb erbyn hyn. Mae'r data mwyaf diweddar sydd ar gael ar gyfer 2021, ac mae'n cynnwys:

- Gwastraff sgil-gynhyrchion peryglus fesul pennod y Codau Gwastraff Ewropeaidd (EWC); a
- Gwastraff peryglus a ddodwyd yng Nghymru fesul pennod y Codau Gwastraff Ewropeaidd (EWC)

Tabl 25 Sgil-gynhyrchion gwastraff peryglus ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru (2015 – 2021) mewn tunellau

Awdurdod	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021
Sir Gaerfyrddin	11,422	12,716	14,908	15,337	9,673	19,729	28,020
Ceredigion	580	1,988	3,724	2,348	1,345	1,411	2,386
Sir Benfro	28,473	42,935	5,772	16,599	14,871	14,138	11,158
Powys	8,112	8,656	7,917	4,450	2,833	3,648	3,569
Castell-nedd Port Talbot	21,588	19,847	10,046	14,697	18,304	22,283	28,149
Abertawe	28,751	24,238	25,513	15,764	19,722	16,069	13,393
Canolbarth a De-orllewin Cymru	98,926	110,380	67,880	69,195	66,748	77,278	86,675
Cymru	305,547	303,859	468,422	411,429	257,216	286,946	321,865

Ffynhonnell: Holwyr Gwastraff Peryglus Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC

Tabl 26 Gwastraff peryglus a waredwyd yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru (2015 – 2021) mewn tunellau

Awdurdod	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021
Sir Gaerfyrddin	7,609	7,418	9,184	5,760	9,341	8,261	349
Ceredigion	373	491	2,933	386	329	292	227
Sir Benfro	7,124	23,045	3,530	4,099	2,498	1,438	35
Powys	7,840	3,683	4,618	224	184	234	244
Castell-nedd Port Talbot	2,467	2,247	6,561	2,150	2,252	1,525	1,956
Abertawe	10,073	9,177	17,080	19,992	28,369	17,345	11,319
Canolbarth a De-orllewin Cymru	35,486	46,061	43,906	32,611	42,973	29,095	14,131
Cymru	383,396	407,411	390,767	301,774	320,223	317,640	340,275

Ffynhonnell: Holwyr Gwastraff Peryglus Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC

2.80 O ran lleihau'r gwastraff peryglus sy'n cael ei gynhyrchu, mae CIMSP (2012) yn nodi bod y 242,000 tunnell giwbig o wastraff peryglus a gynhyrchwyd yn 2008 wedi cynrychioli gostyngiad o 33% yn y maint a gynhyrchwyd yn 2000 (365,000 o dunellau). Ond roedd y gostyngiad hwn wedi ei seilio ar yr hen ddiffiniad o wastraffau a ddosbarthwyd fel gwastraff 'arbennig' yn 2000. Mae ffigurau mwy diweddar sydd ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymwneud â diffiniad ôl-2005 o wastraffau peryglus ac felly mae'n anodd eu cyfateb â'r ffigurau yn y blynyddoedd cyn hyn.

2.81 Yr hyn sy'n glir fodd bynnag, yw bod maint y gwastraff yn nhermau sgil-gynhyrchion gwastraff peryglus yng Nghymru, wedi gostwng o fwy na hanner yn ystod y degawd o 2003 i 2013 (591,904 o dunellau i 263,415 o dunellau) – gwelwch Atodiad 1, ond roedd amrywiadau yn ystod y cyfnod hwn. Dros y 7 mlynedd diwethaf, mae Tabl 25 yn dangos bod cynnydd sydyn i 468,422 o dunellau yn 2017, cyn gostwng am y 2 flynedd ddilynol, i lefelau cyn 2013 sef llai na 300,00 o dunellau. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yn y flwyddyn adrodd diwethaf. Yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, mae'r maint a gynhyrchwyd yma hefyd wedi gostwng yn sylweddol o uchafbwynt yn 2016, ond o ran lefel genedlaethol, mae cynnydd wedi bod yn hwn hefyd dros y ddau gyfnod adrodd diwethaf. O ystyried yr amrywiadau yn y gwastraff peryglus a gynhyrchir yng Nghymru dros y degawd diwethaf, mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r cynnydd diweddaraf yn achos pryder. Bydd monitro pellach dros y blynyddoedd nesaf yn rhoi inni ddarlun manylach.

2.82 O ran maint y gwastraff peryglus a waredwyd yng Nghymru, mae Tabl 26 yn tynnu sylw at y ffaith bod y meintiau wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd adrodd ar ôl 2016 pan oedd yn fwy na 400 o dunellau, er bod cynnydd wedi bod yn y cyfnod adrodd diwethaf. Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru hefyd, mae'r meintiau a gafodd eu doddi wedi gostwng o fwy na 46,000 o dunellau yn 2016 i lai na 15,000 o dunellau yn 2010. Mae'r ffigurau yn Nhablau 25 a 26 yn dangos bod mwy o wastraff peryglus wedi ei waredu yng Nghymru yn 2021 nag a gynhyrchwyd yng Nghymru. Mae'r gwahaniaeth net cadarnhaol hwn o 18,410 o dunellau'n golygu bod Cymru'n fewnforwr net o wastraff peryglus. Nid yw hyn wedi ei adlewyrchu yn lefelau Canolbarth a De-orllewin Cymru lle cynhyrchwyd mwy o wastraff peryglus (86,675 o dunellau) nag a waredwyd yn 2021 (14,131 o dunellau). O'r 340,275 o dunellau o wastraff peryglus a waredwyd yng Nghymru yn 2021, dim ond 4% o hyn a waredwyd yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.

2.83 O ran maint y gwastraff peryglus o Ganolbarth a De-orllewin Cymru a waredwyd yn Lloegr dros y cyfnod o 2013-2021, mae Tabl 27 yn dangos bod y tunelledau, o'r pwynt uchel yn 2013, wedi bod yn weddol gyson yn yr 20,000au, gan ostwng islaw'r ffigur hwn yn 2016 a 2018 yn unig, gyda 2021 yn cofnodi'r ffigur uchaf ers 2013.

Tabl 27 – Gwastraff peryglus o Ganolbarth a De-orllewin Cymru i Loegr (tunellau) 2013-2020

Blwyddyn	Gwastraff peryglus o Ganolbarth a De-orllewin Cymru i Loegr
2013	45,664
2014	28,710
2015	23,504
2016	19,219
2017	24,698
2018	19,519
2019	21,870
2020	27,952
2021	36,112

Ffynhonnell: Holwyr Gwastraff Peryglus Asiantaeth yr Amgylchedd

Rheolaeth Gyfredol ar Wastraff Peryglus

2.84 Mae 'dodi' yn yr ystyr hwn yn ymwneud â nifer o wahanol brosesau neu dyngedau ar gyfer y gwastraff. Mae Tabl 28 yn dangos rheolaeth drwy dynged ar y 340,275 tunnell o wastraff peryglus a ddodwyd yng Nghymru yn 2021, a'r mwyaf cyffredin oedd adferiad, oedd yn cyfrif am dynged 39% o'r gwastraff. Roedd hyn wedi ei adlewyrchu yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru lle'r oedd adferiad yn cyfrif am 52% o dynged gwastraffau peryglus. Roedd y mwyafrif o'r gweddill naill ai Wedi'i Drin (25%) neu ei drosglwyddo (32%) yng Nghymru. Dim ond 2% oedd wedi ei anfon i safle tirlenwi (3% yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru). Er mai dim ond maint bach a anfonwyd i safle tirlenwi yng Nghymru, cafodd maint mwy ei ddodi mewn safleoedd tirlenwi gwastraff peryglus yn Lloegr, er bod y maint wedi gostwng yn fawr ers 2013 – gwelwch Dabl 29.

2.85 O bwynt uchel yn 2013, mae Tabl 29 yn pwyntio at ostyngiad yn y maint o wastraff peryglus o Gymru a aeth i safleoedd tirlenwi yn Lloegr dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r ffigur ar gyfer 2020 a 2021 wedi ei effeithio gan faint anarferol o wastraff peryglus (lludw gwaelod a slag yn cynnwys sylweddau peryglus) yn deillio o un o awdurdodau Canolbarth a De-orllewin Cymru. O'r data yn Nhablau 25 a 29, cafodd tua 15% o wastraff peryglus a gynhyrchwyd yng Nghymru ei anfon i safleoedd tirlenwi yn Lloegr yn 2021 – i fyny o 13% yn 2020. At ei gilydd, aeth tua 17% o'r gwastraff peryglus a gynhyrchwyd yng Nghymru i safleoedd tirlenwi yn 2021.

Tabl 28 Canrannau o wastraff peryglus a ddodwyd yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru (a Chymru) yn 2021 yn ôl tynged y gwastraff⁶

Tynged y gwastraff	Canolbarth a De-orllewin Cymru 2021	Cymru 2021
Llosgi gan adfer ynni	<1	<1
Llosgi heb adfer ynni	<1	2
Tirlenwi	<1	3
Tynged arall	<1	<1
Adfer	63	39
Trosglwyddo (D)	3	5
Trosglwyddo (R)	30	23
Triniaeth	3	28
Cyfanswm	100	100

Ffynhonnell: CNC

⁶ Y canrannau a ddangosir yw'r amcangyfrifon gorau am nad yw data cyhoeddedig Cymru (CNC) yn rhoi tynged y gwastraff.

Tabl 29 Gwastraff peryglus o Gymru i safleoedd tirlenwu yn Lloegr (tunellau)

Blwyddyn	Gwastraff Peryglus i safleoedd tirlenwi yn Lloegr	
	O Ganolbarth a De-orllewin Cymru	O Gymru
2013	3,432	77,405
2014	4,479	66,469
2015	2,444	50,369
2016	1,180	48,980
2017	6,988	38,159
2018	3,307	47,905
2019	835	25,966
2020	10,479	39,603
2021	18,140	47,059

Ffynhonnell: Holwyr gwastraff peryglus Asiantaeth yr Amgylchedd 2013-2021

Isadeiledd a galluedd ar gyfer rheoli gwastraff peryglus

2.86 Ar gyfer y CIMSP (2012), sicrhawyd gwybodaeth am yr isadeiledd a'r gallu ar hyn o bryd i reoli gwastraff peryglus yng Nghymru drwy adroddiad y comisiynwyd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i'w weithredu gan Lywodraeth Cymru am allu'r cyfleusterau rheoli gwastraff yng Nghymru yn 2008/09.

2.87 Canfu'r Adroddiad bod Cymru wedi ei gwasanaethu'n dda gan gyfleusterau i gasglu a storio defnyddiau gwastraff peryglus dros dro – 168 o gyfleusterau, a bod y wlad wedi ei gwasanaethu'n dda hefyd gan amrywiaeth o weithfeydd trin cemegol, ffisegol a ffisegol-gemegol sydd â capasiti ar y cyd o oddeutu 1.8 miliwn o dunellau.

2.88 Er na chafwyd adroddiad diweddar yn rhoi manylion y capasiti ers 2008/09, gallwch weld syniad yn Atodiad 3 ac Atodiad 4 o'r mathau a niferoedd y cyfleusterau sy'n ymdrin â gwastraff peryglus yng Nghymru. Mae gan y wlad gapasiti a ganiateir (safleoedd gyda thrwyddedau effeithiol⁷, Gorffennaf 2022) o fwy na 9.1 miliwn o dunellau'r flwyddyn ar gyfer y categorïau dilynol o safleoedd gwastraff: Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff Peryglus, Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff Cartref, Masnachol a Diwydiannol, Safleoedd Amwynder Gwastraff Cartrefi a Safleoedd Amwynder Gwastraff Cartrefi sy'n cymryd Gwastraff Peryglus (gyda mwy na 2.4 miliwn o dunellau o gapasiti a ganiateir yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Er bod maint mawr o'r ffigurau hyn yn ymwneud â gwastraffau nad ydynt yn beryglus, mae nifer o'r cyfleusterau'n derbyn amrywiol fathau o wastraffau cartref peryglus. Mae'r Safleoedd Amwynder Gwastraff Cartrefi sydd wedi eu disgrifio yn Nhabl 30 isod wedi eu cynnwys gan un neu fwy o'r categorïau uchod.

2.89 Canfu'r Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y soniwyd amdano eisoes nad oedd unrhyw safleoedd tirlenwi gwastraff peryglus penodol i fasnachwyr yn gweithredu yng Nghymru⁸. Mae hynny'n dal i fod yn wir ond mae capasiti'n bodoli mewn nifer o safleoedd

⁷ Nid yw trwydded effeithiol yn golygu o anghenraid bod y safle'n weithredol ar hyn o bryd.

⁸ Mae gan rai safleoedd tirlenwi yng Nghymru gelloedd sy'n derbyn gwastraff asbestos, mae hyn yn cyfiri am y ffigur tirlenwi yn Nhabl 26.

tirlenwi gwastraff peryglus strategol yn Lloegr sy'n gallu cymryd gwastraffau peryglus a gynhyrchwyd yng Nghymru, fel y disgrifiwyd uchod ac a ddangoswyd yn Nhabl 29.

Casgliadau ac isadeiledd Awdurdodau Lleol

2.90 O ran awdurdodau lleol, mae'r rhain yn darparu cyfleusterau derbyn ar wahân ar gyfer ystod o wastraffau cartref peryglus yn eu Safleoedd Amwynder Dinesig / Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC). Mae Tabl 30 yn dangos argaeledd cyfleusterau o'r fath yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae 27 o safleoedd yn gweithredu ar hyn o bryd sy'n caniatáu i amrywiol ddefnyddiau gwastraff cartref peryglus gael eu gosod ar wahân o fewn y safleoedd. Hefyd, mae rhai awdurdodau'n darparu gwasanaeth casglu ar gyfer mathau penodol o wastraff peryglus y cartref nad ydynt yn cael eu caniatáu ar eu safleoedd Amwynder Dinesig / HWRC.

Tabl 30 Cyfleusterau Awdurdod Lleol cyfredol ar gyfer derbyn gwastraff peryglus y cartref yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru

Awdurdod	Safleoedd Amwynder Dinesig/ Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
Sir Gaerfyrddin	4 HWRC – oll yn derbyn gwastraffau peryglus y cartref yn cynnwys asbestos wedi'i fondio mewn sment (sy'n gorfod bod mewn bag dwbl), WEEE, bylbiau golau yn cynnwys tiwbiau fflworolau, teiars, olew peiriant, batris ceir a chartrefi, paent. Mae poteli nwy a diffoddyddion tân yn cael eu derbyn ar bob safle <i>heblaw</i> yn Wern-ddu, Rhydaman.
Ceredigion	4 HWRC – Mae 2 ohonynt yn cymryd meintiau bach (1-2 llen bob 3 mis) o asbestos DIY y cartref (ac hefyd mae'r orsaf drosglwyddo breifat yn Beulah a'r orsaf drosglwyddo yng Nghynllun Lwfansau Tirlenwi Llanbedr Pont Steffan yn derbyn asbestos). Ni dderbynnir asbestos rhydd yn y safleoedd uchod <i>heblaw</i> ei fod wedi ei lapio neu ei fagio deirgwaith. Mae pob un o'r 4 safle'n derbyn batris cartref, cemegau, olew a phaent, WEEE, tiwbiau fflworolau a bylbiau golau egni isel. Nid oes unrhyw un yn derbyn poteli nwy neu deiars.
Sir Benfro	6 Canolfan Gwastraff ac Ailgylchu. Derbynnir meintiau bach o wastraff peryglus yn cynnwys WEEE, olew peiriant, batris, paent, teiars car (hyd at 4 teiar am ddim y flwyddyn), cemegau gardd, tiwbiau fflworolau, silindrau nwy (nid ar safle Waterloo, Doc Penfro). Ni dderbynnir asbestos ar unrhyw safle.
Powys	5 HWRC o fewn y Sir. Derbynnir gwastraff peryglus o gartrefi ymhob un, yn cynnwys batris car a chartref, olew peiriant, bylbiau/tiwbiau golau fflworolau, paentiau, WEEE, cemegau gardd a chartref (dim teiars na photeli nwy). Ni dderbynnir asbestos ar unrhyw un o'r safleoedd, a chynghorir pobl i gysylltu â chwmni gwaredu/tynnu asbestos proffesiynol.
Castell-nedd Port Talbot	2 HWRC o fewn y Fwrdeistref Sirol. Derbynnir gwastraff peryglus o gartrefi yn y ddwy, yn cynnwys batris car a chartref, olew peiriant, bylbiau/tiwbiau golau fflworolau, paentiau, WEEE, cemegau gardd a chartref. Derbynnir asbestos ar safle Llansawel yn unig (dylid ei lapio'n ddwbwl mewn polythene). Ni dderbynnir teiars. Dim ond ar safle Cymmer derbynnir silindrau nwy. Mae'r Cyngor hefyd yn rhannu cyfleuster yng Nghwmtwrch Isaf gyda Chyngor Powys yn rhan o waith ar y cyd. Derbynnir ystod debyg o ddefnyddiau (dim asbestos, teiars neu silindrau nwy).

Abertawe	5 HWRC – Mae pob safle yn derbyn WEEE, silindrau nwy a batris cartref; paentiau, cemegau cartref, tiwbiau fflworolau, olew peiriant. Dim ond ar safleoedd Llansamlet a'r Clun y derbynnir batris ceir. Dim ond ar safleoedd penodol y derbynnir eitemau WEEE penodol fel oergelleodd, rhewgelloedd a chyfarpar mawr y cartref. Ni dderbynnir asbestos ar y safleoedd ond mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth casglu o'r cartef ar gyfer llenni asbestos wedi bondio (uchafswm o 3 llen – 3' x 8'). Nid yw teiars gwastraff yn cael eu derbyn ar y safleoedd.
-----------------	--

Ffynhonnell: Darperir gwybodaeth gan awdurdodau unigol

Casgliadau

2.91 Mae sgil-gynhyrchion gwastraff peryglus yng Nghymru wedi parhau'n weddol gyson dros y degawd diwethaf, gyda rhai amrywiadau. Cafwyd cynnydd nodedig yn y maint o sgil-gynhyrchion gwastraff peryglus yng Nghymru yn 2017, ond mae hyn wedi gostwng ers hynny ac, yn y ddwy flynedd ddiwethaf yr adroddwyd amdanynt (2019 a 2020), gwelwyd maint y sgil-gynhyrchion gwastraff peryglus yn gostwng i fod yn llawer is na 300,000 tonnall – y tro cyntaf ers 2013. Gellir gweld patrwm tebyg ar lefel Canolbarth a De-orllewin Cymru. Bydd monitro blynyddol yn y dyfodol yn canfod a yw'r patrwm hwn yn mynd i barhau ac a fydd angen gweithredu pellach ar gyfer capasiti ac isadeiledd newydd yn y blynyddoedd sy'n dod.

2.92 Mae'r bwlch a welwyd o ran opsiynau gwaredu gwastraff peryglus mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru, a nodwyd yn y CIMSP, yn dal i fodoli. Does dim gallu gwaredu masnachol yng Nghymru (yn hytrach nag mewn nifer fach iawn o safleoedd sy'n derbyn meintiau cyfyngedig o asbestos). Ond, mae'r tunelleddau o wastraff peryglus a gynhyrchir yng Nghymru sy'n mynd i safleoedd tirlenwi tu allan i Gymru yn fach, a derbynnir hwn mewn safleoedd tirlenwi gwastraff peryglus hygyrch iawn yn Lloegr.

2.93 Mae'r data ar gyfer 2021 yn dangos bod llai o wastraff peryglus wedi ei allforio o Gymru nag a gynhyrchwyd y flwyddyn honno, gan wneud Cymru'n fewnforwr net. Parhaodd y patrwm a welwyd ers cyhoeddi CIMSP yn 2012 – ac eithrio 2017 a 2018 pan allforiodd Cymru fwy o wastraff peryglus nag y dododd yn y blynyddoedd hynny.

2.94 Er gwaethaf y sefyllfa allforwr:mewnforwr a welwyd yn nata 2017 a 2018, rhaid pwysleisio bod gan y wlad gyfleusterau da (heblaw safleoedd tirlenwi) ar gyfer storio defnyddiau gwastraff peryglus dros dro cyn eu rheoli ymhellach yn ogystal ag amrywiaeth o gyfarpar trin cemegol, ffisegol a ffisegol-gemegol – yr adroddwyd yn y CIMSP (2012) bod ganddynt gapasiti ar y cyd o tua 1.8 miliwn o dunellau. Daeth CIMSP i'r casgliad nad oedd fawr gymhellant yn y farchad i ddatblygu safleoedd tirlenwi ychwanegol ar gyfer gwastraff peryglus, boed hynny yn Ne-orllewin Cymru neu drwy Gymru gyfan.

2.95 Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod y sefyllfa hon wedi newid yn y blynyddoedd diweddar. Mae cyfres ddata Trwydded Gwastraff EPR (2022), a gyhoeddwyd gan CNC, yn pwyntio at gapasiti cyfunedig cyfredol (cyfarpar triniaeth gemegol, ffisegol a ffisegol-gemegol gyda thrwyddedau effeithiol⁹) o tua 5.5 miliwn o dunellau yng Nghymru, gydag oddeutu 1.7 miliwn o dunellau o gapasiti yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru.

⁹ Nid yw trwydded effeithiol yn golygu o anghenraid bod y safle'n weithredol ar hyn i bryd. Yn ogystal, mae'r capasiti cyfunedig hwn yn cynnwys trin gwastraff nad yw'n beryglus yn ogystal â'r potensial i drin gwastraff peryglus.

Gwastraff Amaethyddol

Sgil-gynhyrchion Cyfredol Gwastraff Amaethyddol a'i Reolaeth

2.96 Cyfyngedig yw'r data cywir ar lefel Cymru gyfan o feintiau a mathau'r gwastraff amaethyddol a gynhyrchir, a waredir, a aildddefnyddir ac a ailgylchir. Mae hyn yn ein hatal rhag pennu targedau priodol i'r sector ar gyfer cyflawni ymrwymadau *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* a datblygu camau gweithredu ar gyfer y sector. O ganlyniad, nid yw'n bosibl rhoi amcangyfrif o'r cyfraddau aildddefnyddio, ailgylchu, adfer ynni neu dirlenwi gwastraffau amaethyddol.

2.97 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad drafft ar sefyllfa'r gwastraff amaethyddol ym mis Mehefin 2014, gyda galwad am dystiolaeth i gyd-fynd ag ef. Yn y ddogfen sy'n galw am dystiolaeth, mae'r wybodaeth sydd ar gael hyd yn hyn yn dangos nad yw gwastraff amaethyddol, ar lefel strategol Cymru, yn wastraff problematig er bod cydrannau fel asbestos o adeiladau ffermydd, gwastraff dymchweliadau, cemegau fferm peryglus, cyffuriau anifeiliaid, cemegau trochi defaid ac ati, yn gallu achosi problemau'n lleol os na chânt eu rheoli'n gywir.

2.98 Yn yr alwad am dystiolaeth, gofynnodd LIC i'r sector farnu a oedd angen cynllun sector amaethyddol ar wahân ai peidio. Yr ymateb i hyn yw nad oes angen cynllun ar wahân, ac felly nid oes un i'w gael.

Prosiect newydd i ymdrin â gwastraff fferm:

Adroddiad Terfynol Partneriaeth Maetholion Fferm Tywi – ARC (arc-csg.cymru)

[Tywi Farm Nutrient Partnership Final Report - ARC \(arc-csg.cymru\)](http://arc-csg.cymru)

2.99 Mae werth nodi bod prosiect newydd ar droed sy'n amcannu i ostwng gwastraff ar ffermydd. Yn gyrru'r prosiect mae campws amaethyddol Gelli Aur Coleg Sir Gâr (Sir Gaerfyrddin) a Power & Water, cwmni yn Abertawe sy'n arbenigo mewn triniaethau dŵr wedi eu seilio ar electrogemegau. Cymerwyd yr wybodaeth sydd yn y paragraffau dilynol o wefan Coleg Sir Gâr.

2.100 Bydd y prosiect yn gostwng gwastraff fferm yn arloesol ac yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd a mynd i'r afael ag effaith y diwydiant amaethyddol ar yr amgylchedd drwy ddatblygu system ddad-ddyfrio a phureiddio i reoli slyri ar ffermydd. Wrth i'r diwydiant llaeth ddwysáu, mae rheoli slyri yn dod yn broblem gynyddol i ffermwyr ac i'r amgylchedd.

2.101 Mae'r prosiect wedi derbyn arian drwy Raglen Datblygiad Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, a Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect yn defnyddio technoleg gysyniadol arloesol sydd wedi ei phrofi i ostwng llygredd aer a dŵr er mwyn gostwng maint cyffredinol y slyri o hyd at 80%. Defnyddir system ddad-ddyfrio a phureiddio i hidlo slyri, gan droi'r dŵr yn ddŵr o ansawdd addas i'w ailgylchu neu i'w yrru i ddyfrddordd lân. Bydd y system hefyd yn defnyddio maetholion o'r slyri i gynhyrchu gwrtaith o ansawdd da.

2.102 Nod y prosiect yw gostwng yn sylweddol y risg o lygredd aer a dŵr ac, ar yr un pryd, sicrhau'r gwerth gorau o ran ailgylchu maetholion. Bydd y broses ddatblygu hon yn gostwng storio slyri ar ffermydd yn sylweddol, yn ogystal â'r costau trin. Gallai tynnu maetholion yn effeithlon o dail arbed ar gostau gwrteithiau masnachol a gostwng effeithiau amgylcheddol

difrifol. Nod y prosiect yw dylunio, datblygu a dylsu systemau economaidd ymarferol a fydd ar gael yn fasnachol ac yn cael eu defnyddio ar ffermydd.

2.103 Mae Prosiectsyri Projec wedi gwneud datblygiadau sylweddol yn barod ac yn cyflawni ei nodau prosiect. O ganlyniad i'r prosiect, mae Power & Water yn datblygu unedau trin ar y ffermydd sydd wedi eu seilio ar faint y fuches.

2.104 Cafodd yr Adroddiad Terfynol ar y prosiect ei gyhoeddi ar ddiwedd 2022 gan Bartneriaeth Maetholion Fferm Tywi. Nodwyd yn yr Adroddiad bod:

Arloesi diweddar mewn technolegau dad-ddyfrhau bellach yn cynyddu ei addasrwydd ar gyfer y sector amaethyddol. Arddangosir gwahanu hylif a deunydd solet mewn slyri gan wartheg godro, i leihau sylwedd, a lleihau'r pwysau ar gapasiti storio'r fferm. Ochr yn ochr â thriniaeth dŵr gwastraff, rydym wedi gweld cyfraddau cyffredinol yn lleihau 98.9% Nitrogen (N), 99.9% Ffosffad (P) a 98.3% Potasiwm (K), wrth wahanu slyri amrwd (yn arferol ~4-5% deunydd solet) yn ychwanegol at drin slyri dyfrllyd a 'dŵr brwnt'. Mae dal y maetholion hyn yn gyfle i leihau'r angen am wrtaith artiffisial. Yn bwysig ddigon, mae hyn hefyd yn helpu ffermwyr yng Nghymru i gydymffurfio â newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth megis Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol

2.105 Ar 27 Ionawr 2021 cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig gyflwyniad mesurau rheoli i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol yng Nghymru, Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Bydd y Rheoliadau'n berthnasol o 1 Ebrill 2021 ar gyfer set gychwynnol o fesuriadau. Caiff y gweddill eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o 3 blynedd.

2.106 Mae'r Rheoliadau'n canolbwyntio ar y ffermydd hynny lle mae'r risg amgylcheddol o achos gwrtaith gwael fwyaf. Maent wedi'u seilio ar argymhellion arfer da presennol, felly bach iawn fydd yr effaith fydd rhai ffermwyr yn ei gweld, yn enwedig rheiny sydd eisoes yn dilyn arfer da a'r rheiny nad ydynt yn cynhyrchu slyri megis ffermwyr defaid, tra bydd angen amser a chymorth ar eraill i gydymffurfio. Yn gryno, mae'r rheoliadau'n cynnwys y gofynion canlynol:

- Cynllunio rheoli maetholion;
- Ceisiadau gwrtaith cynaliadwy cysylltiedig â gofynion y cnwd;
- Diogelu dŵr rhag llygredd mewn perthynas â phryd, ble a sut gwasgerir gwrtaith; a
- Safonau storio gwrtaith a silwair.

Mae'r Rheoliadau'n nodi'r safonau sylfaenol ar gyfer cynhyrchu, tebyg i'r rheiny yng ngweddill y DU ac Ewrop.

Rhagor o fesurau gan Lywodraeth Cymru:

2.107 Mewn thema sy'n gysylltiedig â gwastraff amaethyddol, nododd erthygl a bostiwyd ar wefan LIC ar 14 Awst 2018, bod yr Ysgrifennydd Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig wedi cyhoeddi Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) newydd werth £6m ar gyfer ymdrin â rheoli a storio maetholion ar ffermydd.

2.108 Bydd y Grant yn rhoi'r cyfle i ffermwyr gymryd yr arweiniad o ran ymdrin â llygredd amaethyddol er mwyn gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer. Bydd yr eitemau a gefnogir yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, storio slyri dan orchudd ac offer rheoli.

2.109 Dyfynnwyd geiriau'r Ysgrifennydd Cabinet:

"Bydd ein rownd nesaf o'r SPG yn canolbwyntio ar gefnogi ffermwyr i weithredu ein hamcanion o well rheolaeth ar faetholion, diogelu a gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer drwy ostwng llygredd. Bydd y buddsoddiad yn cefnogi ffermwyr i fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn a sicrhau bod y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol yn parhau i elwa o'n hadnoddau naturiol."

3. MONITRO CAPASITI TIRLENWI'R RHANBARTH:

Cyflwyniad

3.1 Amcangyfrifodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) yn 2010, pe bai dyddodion gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yn parhau ar gyfraddau 2010, ac na chaiff unrhyw safleoedd tirlenwi newydd eu datblygu, byddai safleoedd tirlenwi nad ydynt yn beryglus ledled Cymru gyfan yn cyrraedd diwedd eu hoes ymhen tua 10 mlynedd. Seiliwyd y dadansoddiad ar fewnbynnau cyfredol i safleoedd tirlenwi a thybiwyd na fyddai'r rhain yn newid gydag amser. Mae hon yn sefyllfa achos gwaethaf felly ac mae'n cymryd yn ganiataol na fydd yr ymyriadau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu yn cael fawr o effaith. Mae'n dilyn y bydd yr oes sy'n weddill mewn safleoedd tirlenwi (h.y. eu capasiti sy'n weddill) yn cael ei ymestyn os bydd mewnbynnau blynyddol yn parhau i leihau, fel y bwriedir mewn perthynas â nod Tuag at Ddyfodol Diwastraff 2025 o fod mor agos at sero tirlenwi â phosibl. Mae un broblem bosibl yma fodd bynnag, sef cwmnïau tirlenwi yn cau safleoedd yn gynamserol oherwydd diffyg mewnbynnau, ac o ganlyniad incwm annigonol i barhau â'r gweithrediadau (gweler Ffigur 5, isod).

3.2 Hefyd, er bod tirlenwi yn dal i fod yn un o'r dulliau rheoli ar gyfer gwastraff gweddilliol a gynhyrchir yng Nghymru, wrth i weithgareddau atal gwastraff, ailgylchu ac adfer newydd eraill ddatblygu yn unol â thargedau a chatau gweithredu, bydd yr angen am dirlenwi yn lleihau'n sylweddol.

Canfyddiadau CIMSP

3.3 Roedd CIMSP (2012) yn amcangyfrif yr oes dirlenwi sy'n weddill ar gyfer safleoedd tirlenwi masnachol nad ydynt yn beryglus o dan dri phrif senario. Mae Tabl 31 isod yn seiliedig ar Dabl 34 y CIMSP. Roedd Tabl 34 yn rhannu Cymru yn 3 rhanbarth a nodir yn TAN 21 – Gogledd, De-orllewin a De-ddwyrain. Oherwydd ailstrwythuro'r Adroddiad hwn i dri rhanbarth economaidd Cymru, nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol. Mae Tabl 31 felly yn seiliedig ar ranbarth De-orllewin Cymru at ddibenion dangosol. Mae'n amcangyfrif y flwyddyn pan fydd gwagle tirlenwi yn dod i ben yn unol â'r 3 senario a fodelwyd (ac isrannu pob un o'r senarios hyn yn dri is-senario pellach) mewn perthynas â phatrymau twf gwastraff.

3.4 I grynhoi, mae'r modelu senarios ar gyfer gweddill yr oes tirlenwi yn rhanbarth De-orllewin Cymru yn cyflawni'r canlyniadau achos gwaethaf / achos gorau a ganlyn: Yr achos gwaethaf – daw gwagle tirlenwi i ben yn 2021-22; mae achos gorau gwagle tirlenwi yn para am gyfnod amhenodol (gan dybio y cyflawnir yr holl dargedau ar gyfer yr holl ffrydiau gwastraff a bod yr holl Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA) yn cael ei ailgylchu).

Y sefyllfa gyfredol

3.5 Mae ymchwiliad byr i'r sefyllfa bresennol o ran safleoedd tirlenwi yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi canfod nad oes unrhyw safleoedd newydd wedi dod yn weithredol ers 2010. Mae un safle sydd wedi'i ganiatáu fel safle tirlenwi nad yw'n beryglus, ond nid yw hwn wedi'i adeiladu felly ni ellir ystyried ei wagle posibl. Felly yn achos y senarios uchod, bydd yr oes dirlenwi sy'n weddill yn dibynnu'n llwyr ar y capasiti sy'n weddill mewn safleoedd tirlenwi presennol, gan gyrraedd targedau ailgylchu (gan gynnwys lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi) ac unrhyw driniaeth gweddilliol amgen newydd sy'n dod yn weithredol. O ran triniaeth gweddilliol, ymdrinnir â hyn yn adran 4 isod.

Tabl 31 Amcangyfrif o'r flwyddyn pan fydd gwagle tirlenwi yn dod i ben yn Ne-orllewin Cymru fel y modelwyd yn CIMSP (2012)

Senarios (senario achos gwaethaf wedi'i amlygu mewn melyn)		Amcangyfrif o'r flwyddyn y bydd gwagle tirlenwi yn dod i ben
Os na ddatblygir capasiti triniaeth amgen	i) Cyflawnwyd dim ond y targedau ailgylchu LAMW, mae cyfraddau ailgylchu eraill yn parhau fel gwaelodlin, ni chymerwyd unrhyw fesurau atal gwastraff ychwanegol	2020-21
	ii) Cyflawnwyd yr holl dargedau ailgylchu, ni chymerwyd unrhyw fesurau atal gwastraff ychwanegol i fodloni targedau atal gwastraff	2022-23
	iii) Cyflawnwyd yr holl dargedau ailgylchu a mesurau atal gwastraff ychwanegol wedi'u cynnal i fodloni targedau atal gwastraff	2024-25
Os caiff EfW ei ddatblygu ar gyfer gwastraff gweddilliol LAMW yn unig	i) Cyflawnwyd dim ond targedau ailgylchu LAMW, mae cyfraddau ailgylchu eraill yn parhau fel gwaelodlin, ni chymerwyd unrhyw fesurau atal gwastraff ychwanegol	2021-22
	ii) Cyflawnwyd yr holl dargedau ailgylchu, ni chymerwyd unrhyw fesurau atal gwastraff ychwanegol i fodloni targedau atal gwastraff	Y tu hwnt i 2024-25
	iii) Cyflawnwyd yr holl dargedau ailgylchu a mesurau atal gwastraff ychwanegol wedi'u cynnal i fodloni targedau atal gwastraff	Y tu hwnt i 2024-25
Os caiff EfW ei ddatblygu ar gyfer holl wastraff gweddilliol	i) Cyflawnwyd dim ond targedau ailgylchu LAMW, mae cyfraddau ailgylchu eraill yn parhau fel gwaelodlin, ni chymerwyd unrhyw fesurau atal gwastraff ychwanegol	Ni fydd yn dod i ben (mae capasiti o 1,846kt ar ôl)
	ii) Cyflawnwyd yr holl dargedau ailgylchu, ni chymerwyd unrhyw fesurau atal gwastraff ychwanegol i fodloni targedau atal gwastraff	Ni fydd yn dod i ben (mae capasiti o 2,254kt ar ôl)
	iii) Cyflawnwyd yr holl dargedau ailgylchu a mesurau atal gwastraff ychwanegol wedi'u cynnal i fodloni targedau atal gwastraff	Ni fydd yn dod i ben (mae capasiti o 2,477kt ar ôl)

Ffynhonnell: Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMSP, 2012)

3.6 Mae Atodiad 2 yn manylu ar y safleoedd tirlenwi presennol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn 2021. Fel y gwelir, mae dau safle tirlenwi yn gysylltiedig â Gwaith Dur Corus ym Mhort Talbot (mae un yn beryglus o dan gyfyngiadau a'r llall yn ddefnyddiwr cyfyngedig) - dim ond ar gyfer gwastraff y cwmni ei hun y mae'r rhain, ac felly ni ellir eu cynnwys yn y gwagle sy'n weddill ar gyfer y rhanbarth yn gyffredinol.

3.7 Gan ganolbwyntio ar safleoedd tirlenwi nad ydynt yn beryglus, mae Tabl 32 isod yn nodi cyfanswm y capasiti sy'n weddill yn 2022; mae eu capasiti unigol sy'n weddill wedi'u hepgor er budd cyfrinachedd masnachol.

Tabl 32 – y capasiti sy'n weddill (M³) yn y chwe safle tirlenwi nad ydynt yn beryglus yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru

Rhif EPR	Enw Gweithredwr	Enw Gosod	Math o Safle	Awdurdod Lleol	Capasiti 2022
CP3735PB	Cwm Environmental Limited	Safle Tirlenwi Nant-y-caws	Heb fod yn beryglus	Sir Gaerfyrddin	-
BU8819IV	WRG Waste Services Ltd	Safle Tirlenwi Pwllfawatkin	Heb fod yn beryglus	Castell-nedd Port Talbot	-
VP3935AT	Swansea City Waste Disposal Co Ltd	Safle Tirlenwi Tir John	Heb fod yn beryglus	Abertawe	-
MP3330WP	Potters Waste Management	Cam 2 Tirlenwi Withy hedge	Heb fod yn beryglus	Sir Benfro	-
BU7766IC	Potters Waste Management	Safle Tirlenwi Bryn Posteg	Heb fod yn beryglus	Powys	-
BT19081X	JLA Disposal Ltd	Cam 2 Tirlenwi Palleg	Heb fod yn beryglus	Powys	-
Cyfanswm					2,172,015

Ffynhonnell: CNC

3.8 Mae Tabl 33 yn nodi'r cyfraddau dyddodi blynyddol cyfunol yn 2021 ar gyfer yr holl safleoedd tirlenwi nad ydynt yn beryglus yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae'r ffigurau sy'n mynd yn ôl i 2014 wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Drwy rannu'r mewnbwn blynyddol olaf yn Nhabl 33 (2021) i'r cyfanswm yn Nhabl 32¹⁰, gallwn gyfrifo yn fras faint o flynyddoedd o gapasiti tirlenwi sydd ar ôl yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru: **5.5 mlynedd** (Mae'r ffigurau wedi'u haddasu i dybio y bydd 25% o'r capasiti sy'n weddill yr adroddwyd amdano yn cael ei golli drwy beirianeg a gorchudd). Mae hyn yn fwy ffaithiol na'r rhagfynegiad achos gwaethaf a nodir yn y CIMSP lle byddai'r oes tirlenwi sy'n weddill amcangyfrifedig yn dod i ben yn rhanbarth De-orllewin Cymru erbyn 2020/21 os na chaiff capasiti amgen ei ddatblygu a dim ond targedau ailgylchu LACW sy'n cael eu bodloni.

Tabl 33 – mewnbynnau tunelledd i safleoedd tirlenwi (Nad yw'n Beryglus) yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru 2014-2020

Blwyddyn	Cyfanswm Mewnbwn Tunelledd ¹¹	O awdurdodau Canolbarth a De-orllewin Cymru	O tu hwnt i awdurdodau Canolbarth a De-orllewin Cymru
2014	344,903	302,364.8	42,538.14
2015	379,911	255,769.6	79,691.18
2016	355,341	206,277.3	106,131.4
2017	374,111	257,226.4	81,137.25
2018	412,366	291,306.5	117,668.5
2019	392,736	239,394.7	142,943.7
2020	345,091	219,053.5	117,003.4
2021	393,273	217,090.4	176,182.4

Ffynhonnell: Holwr Data Ffurflenni Trwydded Gwastraff, 2021, CNC

¹⁰ Amcangyfrifon yw'r ffigurau capasiti a gallant newid wrth aros am ragor o waith Sicrhau Ansawdd (CNC).

¹¹ Yn cynnwys rhai mathau o wastraff nad oes modd eu codio i unrhyw awdurdod lleol: mae'r symiau hyn wedi'u hepgor o'r ddwy golofn arall ym mhob blwyddyn. Ar gyfer 2014 a 15, mae'r ffigur yn cynnwys symiau bach iawn o wastraff peryglus.

Amrywiadau yn y symiau o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn

3.9 Gall cynnydd sylweddol yn y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi mewn blwyddyn benodol, er enghraifft yn 2018 (yn ôl pob tebyg oherwydd newidiadau mewn contractau gwastraff unigol), ac i raddau llai yn 2019, ystumio'r cyfrifiad - o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, os byddwn yn defnyddio'r ffigur mewnbyn blynyddol terfynol o 2018 i gyfrifiad eleni, yna byddai'r ffigur gwagleoedd yn gostwng i 5.3 mlynedd. Fel arall, pe baem yn defnyddio'r ffigur blynyddol terfynol o 2020, yna byddai'r gwagle sy'n weddill yn para 6.3 blynedd.

3.10 Fodd bynnag, pe baem yn parhau â'r agwedd a ddefnyddid mewn WPMRs blaenorol a defnyddio'r ffigur diweddaraf, sef 5.5 mlynedd fel nodwyd uchod, mae hyn yn disgyn dan y trothwy tirlenwi 7 mlynedd a bennwyd yn TAN21 – ystyrir bod y cyfnod hwn yn ddigonol i alluogi'r farchnad i ddod o hyd i ateb. Er nad yw'r ffigur wedi disgyn o dan y trothwy 5 mlynedd – yr un a glustnodwyd fel trothwy ar gyfer cymryd camau a allai fod yn angenrheidiol i hwyluso darpariaeth y dyfodol – byddai'r sefyllfa'n awgrymu y dylai'r rhanddeiliaid dan sylw ystyried trafodaethau cychwynnol o ran camau priodol – byddai hyn yn cynnwys LIC, CNC, awdurdodau lleol (Cynllunio a'r Timau Gwastraff) yn ogystal â'r Diwydiant Gwastraff. .

3.11 Mae Tabl 32 isod yn dadansoddi'r data [yn Nhabl 33] ymhellach drwy edrych ar raniad y gwastraff Cartref/Diwydiannol a Masnachol (HIC) i Wastraff Anadweithiol (C&D). O hyn, gallwn weld, er bod symiau'r ddau ddosbarth o wastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi wedi aros yn weddol gyson o 2014-2017, bu cynnydd mewn HIC a C&D yn 2018 (ac yn 2019 ar gyfer gwastraff anadweithiol), cyn gostwng eto yn 2020. Mae cynnydd sydyn mewn gwastraff HIC yn y cyfnod adrodd diweddaraf (2021), gan wthio'r tunelledd cyffredinol i safleoedd tirlenwi i'w lefel uchaf ers 2018, yn broblem a hynny fwy na thebyg oherwydd y newidiadau mewn contractau gwastraff gweddilliol.

Tabl 34 – tunelleddau o HIC a Gwastraff Anadweithiol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (nad yw'n beryglus) yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru 2014-20

Blwyddyn	Gwastraff HIC	Gwastraff Anadweithiol (C&D)
2014	239,116.4	105,780
2015	273,340.2	106,569.7
2016	255,265.2	100,075.7
2017	250,394.9	123,715.6
2018	255,903.4	156,462.9
2019	230,321.2	162,415.2
2020	216,466.8	128,624.4
2021	285,023.8	108,249

Ffynhonnell: Holwr Data Ffurflenni Trwydded Gwastraff, 2014 – 2021, CNC

Ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar y capasiti tirlenwi sy'n weddill:

- **Safleoedd Tirlenwi Defnyddiwr Cyfyngedig** – ar hyn o bryd mae gan y rhanbarth un categori tirlenwi o'r fath, sef Corus ym Mhort Talbot. Er bod gan y safle gapasiti sylweddol ar ôl, mae angen monitro hyn oherwydd efallai y bydd y cwmni angen gwaredu yn rhywle arall pe bai'r sefyllfa'n newid.
- **Cyfleusterau Trin Gwastraff Gweddilliol Newydd** – trafodir y rhain yn adran 4 isod. Byddai unrhyw gyfleusterau newydd a fyddai'n ymdrin â gwastraff gweddilliol yn cael yr

effaith gadarnhaol o ddargyfeirio meintiau pellach posibl o wastraff o safleoedd tirlenwi yn y rhanbarth.

- **Gwastraff o'r tu allan i'r rhanbarth** – mae data gwastraff yn awgrymu bod gwastraff yn cael ei fewnforio i un neu fwy o safleoedd tirlenwi o'r tu allan i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn y cyfrifiad ar y gwagle sy'n weddill isod, nid yw'n gynaliadwy, yn enwedig o ran yr egwyddor agosrwydd.
- **Contractau Caffael** – l'r gwrthwyneb, mae llawer o'r awdurdodau yn y rhanbarth heb fod yn defnyddio'r safleoedd tirlenwi eu hunain, ond mae ganddynt gontractau i waredu eu gwastraff drwy ddulliau eraill, a hynny'r tu allan i'r rhanbarth. Nodir hyn yn Nhabl 38 yn adran 4 isod.
- **Dyfodol safleoedd tirlenwi presennol** – gall rhai safleoedd gau neu roi'r gorau i weithredu am gyfnod amhenodol cyn cyrraedd eu capasiti. Felly bydd angen monitro'r sefyllfa o ran pob safle yn ofalus. Mae'r sefyllfa bresennol o ran pob un o'r chwe safle tirlenwi nad yw'n beryglus a ganiateir yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi'i nodi yn Ffigur 3 isod.

Ffigur 5 – sefyllfa bresennol y 6 safle tirlenwi nad ydynt yn beryglus yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru

Safle tirlenwi Nant-y-caws (Cwm Environmental)

Y safle hwn sy'n cynnig yr unig wagle yn Sir Gaerfyrddin. Mae CWM Environmental Ltd (cwmni teckal i Gyngor Sir Gaerfyrddin) yn parhau i weithredu'r gweithrediadau rheoli gwastraff eraill ar y safle, ond mae ansicrwydd ynghylch dyfodol elfen tirlenwi y safle. Mae gweithrediadau tirlenwi wedi dod i ben ar y safle ar hyn o bryd, felly yn dechnegol nid yw'r oes weithredol wedi gostwng o'r ffigurau a adroddwyd yn yr WPMRs blaenorol.

Yn Ail CDLI Diwygiedig Adneuo Sir Gaerfyrddin (a gyhoeddwyd i ymgynghori yn ei gylch ym Mawrth 2023), mae Nantycaws wedi'i ddynodi'n safle defnydd cymysg, wedi'i ddiogelu dan y polisi defnydd cymysg.

Mae'r safle wedi'i leoli'n strategol, ochr yn ochr â phrif gefnffordd yr A48 (dwyrain : gorllewin), ac mae eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy. Mae'n cynnig y cyfle yn y dyfodol o bosibl i harneisio ynni o wastraff ar raddfa fach, a gweithgareddau cysylltiedig ar sail cyflogaeth. Gellid nodi cyfleoedd yn y dyfodol drwy ddatblygu prif gynllun ar gyfer y safle, a/neu drwy geisiadau cynllunio manwl.

Safle tirlenwi Withyhedge (Potters Waste Management)

Dyma'r prif safle tirlenwi yn Sir Benfro. Yr oedd y safle gynt yn cael ei weithredu gan Sita, ac mae bellach yn cael ei redeg gan Potters. Mae Withyhedge bellach yn cystadlu am fusnes gyda safleoedd pellach.

O ran gwastraff awdurdod lleol, mae Cyngor Sir Penfro wedi parhau i leihau eu dibyniaeth ar y cyfleuster hwn drwy Gontract Troi Gwastraff yn Ynni, fodd bynnag mae gofyniad cyfyngedig ar yr Awdurdod o hyd am ddatrysiad tirlenwi, felly mae'r contract tirlenwi wedi'i ymestyn hyd at 2024 ar hyn o bryd ac mae'n darparu ar gyfer gwastraff gweddilliol Swmpus sy'n anaddas i'w drin drwy Ynni o Wastraff. Mae'r contract hefyd yn cynnwys trefniant wrth gefn ar gyfer gofynion cynyddol ar gyfer tirlenwi h.y. yn ystod cyfnodau cynnal a chadw EfW ac ar gyfer swmpio deunyddiau gweddilliol ac ailgylchu os oes angen.

Safle tirlenwi Pwllfawatkin (FCC Environment) Gwrthodwyd cais cynllunio, a fyddai wedi caniatáu i weithrediadau barhau am bron i 3 blynedd (roedd y caniatâd i ddod i ben yn 2018), yn hwyr yn 2020. Mae'r ACLI yn awr yn negodi gyda'r ymgeisydd mewn perthynas â chynigion ar gyfer proffiliau adfer ar gyfer y safle. Bydd yn rhaid i'r cynllun adfer sicrhau draeniad effeithlon a bydd angen iddo fodloni gofynion CNC i sicrhau bod y gwaith adfer gorau posibl yn cael ei gyflawni. Mae cais cynllunio ar gyfer 'proffil adfer diwygiedig o Domen 890 gan gynnwys parhau i fewnforio gwastraff hyd at 31 Hydref 2023 a'r gwaith adfer i'w gwblhau erbyn 31 Hydref 2025' yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol CNPT, fel y mae amrywiad o gais Amod i ymestyn oes weithredol y safle tan 2025, i'w ddilyn gan flwyddyn o waith adfer.
Safle tirlenwi Tir John (Enovert Ltd) Mae Dinas a Sir Abertawe yn berchen ar Tir John ond maent wedi rhoi ei weithrediad ar gontract i Enovert Ltd. Er bod gwagle sylweddol ar ôl i'w ddatblygu ar y safle, ni fydd Cyngor Abertawe/Enovert yn datblygu'r capasiti hwn sy'n weddilliol, ac mae'r safle nawr yn cael ei gapio a'i adfer.
Safle Tirlenwi Bryn Posteg (Potters Waste Management) Wedi'i leoli ger Llanidloes, Powys, mae'r safle'n dal i fod yn weithredol ac mae'r gwagle sy'n weddill yn cyfrannu at y ffigur cyffredinol a nodir yn Nhabl 32 uchod, ac mae'r bwnd wedi cael ei greu gyda phriddoedd a gedwid. Mae system newydd wedi caniatáu iddynt sgrinio a rhwygo'r deunydd llawer yn fwy mân. Mae'r safle yn eiddo preifat ac nid yw'n cael ei ddefnyddio gan Gyngor Sir Powys. Mae cais cynllunio yn cael ei benderfynu ar hyn o bryd ar gyfer 'Rheoleiddio a chadw deunydd sydd wedi'i or-dipio ar y safle tirlenwi presennol, gweithrediadau tirlenwi ychwanegol yn unol â phroffil adfer diwygiedig a manylion fesul cam ynghyd â seilwaith tirlenwi cysylltiedig'. Mae hyn yn aros am benderfyniad ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw arwydd a fydd y safle'n parhau i weithredu ar ôl i'r gwagle presennol gael ei ddefnyddio.
Safle Tirlenwi Palleg (JLA Disposal Ltd) Wedi'i leoli ger Ystradgynlais, Powys, mae'r safle'n dal i fod yn weithredol ac mae'r gwagle sy'n weddill yn cyfrannu at y ffigur cyffredinol a nodir yn Nhabl 32 uchod. Mae'r safle yn eiddo preifat ac nid yw'n cael ei ddefnyddio gan Gyngor Sir Powys. Mae'r safle'n dod i ddiwedd ei oes a chymeradwywyd cynllun adfer terfynol arfaethedig yn 2019. Nid oes unrhyw arwydd a fydd y safle'n parhau i weithredu ar ôl i'r gwagle presennol gael ei ddefnyddio.

Ffynhonnell: gwybodaeth wedi'i darparu gan yr awdurdodau lleol unigol.

3.12 Mae'n werth nodi bod ymchwilio i ddata tirlenwi cywir wedi'i flaenoriaethu fel darn o waith gan CNC, gyda modelu ariannol y Dreth Waredu Tirlenwi newydd yn sbardun allweddol.

3.13 I gloi, er bod y cyfrifiadau diweddaraf yn awgrymu bod digon o wagleoedd tirlenwi yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, mae'r ffigur yn amodol ar nifer o newidynnau y bydd angen eu monitro'n agos dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i weld a oes angen cymryd unrhyw gamau i gydymffurfio â gofynion TAN 21, ac i weld a yw nod *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* 2025 o fod mor agos ag sy'n bosib at anfon dim i safleoedd tirlenwi yn mynd i gael ei gyflawni.

3.14 O ran nod *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* 2025 ar gyfer tirlenwi, mae'n bwysig nodi bod consensws cyffredinol ymhlith gweithwyr proffesiynol gwastraff bod angen o leiaf capasiti tirlenwi bach o ran gwastraff gweddilliol a hynny fel cynllun wrth gefn (Ynni o Wastraff (EfW) ar gau ar gyfer cynnal a chadw / atgyweirio ac ati) ac ar gyfer rhai elfennau o wastraff na ellir eu hailgylchu na'u trin mewn ffyrdd eraill.

4. MONITRO GWASTRAFF GWEDDILLIOL Y RHANBARTH

Sgil-gynhyrchion Gwastraff Gweddilliol

4.1 Mae gwastraff gweddilliol yn wastraff na ellir ei ailgylchu, sef y deunydd sy'n weddill ar ôl i wastraff gael ei drin neu ei ailgylchu cymaint â phosibl. Mae Tabl 35 isod yn nodi'r amcangyfrif o sgil-gynhyrchion a rheolaeth gwastraff gweddilliol y flwyddyn (fel y nodir yn Nhabl 22 o CIMSP, 2012, ar gyfer y flwyddyn waelodlin). Roedd Tabl 22 y CIMSP yn rhannu Cymru yn 3 rhanbarth a nodir yn *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff – Gogledd, De-orllewin, a De-ddwyrain*. O ganlyniad i ailstrwythuro'r Adroddiad hwn i dair rhanbarth economaidd Cymru, mae'r ffigurau gwirioneddol ar gyfer pob ffrwd wastraff [yn Nhabl 35] yn seiliedig ar y ffigurau diweddaraf ar gyfer awdurdodau rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.

Tabl 35: Amcangyfrif o sgil-gynhyrchion rhanbarthol a rheoli gwastraff gweddilliol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru

Ffrwd	Swm y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir gan Ranbarth De-orllewin Cymru (miloedd o dunelli y flwyddyn) a'i brif ddull rheoli		
		De-orllewin Cymru (ffigurau gaelodlin a amcangyfrifwyd yn y CIMSP)	Canolbarth a De-orllewin Cymru (LACW gwirioneddol 2020/21; I&C gwirioneddol 2018) C&D gwirioneddol 2019)
Gwastraff a gesglir gan yr Awdurdod Lleol (LACW)	Adfer ynni	43	76
	Tirlenwi	246	58
	Arall	6	5
	Cyfanswm	295	139
Masnachol	Adfer ynni	1	41
	Tirlenwi	234	51
	Arall	37	64
	Cyfanswm	272	156
Diwydiannol	Adfer ynni	1	20
	Tirlenwi	79	44
	Arall	26	46
	Cyfanswm	106	110
Adeiladu a Dymchwel	Adfer ynni	0	3
	Tirlenwi	115	78
	Arall	38	36
	Cyfanswm	153	117
Pob ffrwd	Adfer ynni	45 (5%)	140 (27%)
	Tirlenwi	674 (82%)	231 (44%)
	Arall	107 (13%)	151 (29%)
	Cyfanswm	826	522

Ffynhonnell: CIMSP (LIC, 2012); StatsCymru (Rheolaeth flynyddol gwastraff yn ôl dull rheoli (tunelli); Arolwg o Wastraff I&C a Gynhyrchir yng Nghymru 2018 (CNC, 2020); Arolwg Cynhyrchu Gwastraff C&D Cymru 2019 (CNC, 2022).

4.2 Er ei bod yn amlwg o Dabl 35 bod gan y rhanbarth dipyn o ffordd i fynd eto i gyrraedd y nod o gyrraedd mor agos at sero â phosibl i safleoedd tirlenwi erbyn 2025, mae'n amlwg bod y CIMSP (2012) wedi goramcangyfrif y tunelleddau yn y dyfodol, sydd mewn gwirionedd wedi lleihau'n sylweddol dros y degawd ers hynny. Mae angen monitro parhaus dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i weld a fydd y targed yn cael ei gyflawni, o gofio'r ffaith y bydd angen parhaus am o leiaf ychydig iawn o dirlenwi fel dull gwaredu terfynol, er enghraifft ar adegau pan allai cyfleusterau EfW fod ar gau dros dro oherwydd amgylchiadau unigol.

4.3 Dalier sylw: Rhaid nodi y dylid trin y data yn Nhabl 35 fel data dangosol yn unig, am y rhesymau a ganlyn:

- mae diffyg data blynyddol ar gyfer gwastraff I&C a C&D yn effeithio ar gywirdeb y data ar gyfer y ffrydiau gwastraff hyn;
- er bod astudiaethau diweddar wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer y ffrydiau gwastraff hyn (2020 ar gyfer gwastraff I&C gan ddefnyddio data 2018, a 2022 ar gyfer gwastraff C&D gan ddefnyddio data 2019) nid oes ffurf barhaus o ddata blynyddol fel sy'n wir yn achos LACW;
- roedd y Tabl 22 gwreiddiol yn y CIMSP yn ymwneud â rhanbarth De-orllewin Cymru. Mae'r ychwanegiadau diweddaraf i Dabl 35 uchod yn ymwneud â rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru sef rhanbarth economaidd yng Nghymru. Felly nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng hwn a'r Tabl 22 gwreiddiol, ond gan fod y newid mewn rhanbarthau dim ond yn golygu disodli un sir yn unig (Powys ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr) yna gallwn o leiaf dynnu rhywfaint o arwydd o'r data diweddaraf yn Nhabl 35;
- y data diweddaraf (2018) ar gyfer llosgi gwastraff I&C wedi'i grwpio (gydag adfer ynni) gyda llosgi (heb adfer ynni), fodd bynnag dim ond tua 5% o'r cyfanswm oedd yr olaf, ac felly mae hyn wedi'i gyfrif yn y mewnbwn adfer ynni yn Nhabl 35. Yn wir, gwelodd 2018 gynydd mewn Llosgi ond yn bennaf Llosgi gydag Adfer Ynni o gymharu â 2012. Yn 2012, aeth 143 mil tonnall (3.9%) o wastraff i Losgi (2.2% heb Adfer Ynni ac 1.7% gydag Adfer Ynni). Yn 2018 cynyddodd hyn i 236 mil tonnall (8.2%) o wastraff (0.4% heb Adfer Ynni a 7.8% gydag Adfer Ynni.
- Mae'r data ar LACW yn cael ei gymryd o reolaeth flynyddol o wastraff yn ôl dull rheoli ar StatwsCymru, lle nodir 'Bod anghysondeb amlwg rhwng cyfanswm y ffigurau gwastraff a roddwyd ar gyfer y tabl 'Gwastraff a reolir (tunellau) a thablau eraill. Mae hyn oherwydd bod gwahaniaeth bach rhwng y swm a gesglir a'r swm a drinnir. Gall hyn fod yn fater o amseru os yw awdurdodau, er enghraifft, yn pentyrru gwastraff i'w drin yn ddiweddarach. Hefyd mae'n bosibl bydd peth anghysondeb o ran mesur, gan fod y gwastraff yn cael ei bwyso pan gaiff ei gasglu ac eto pan gaiff ei anfon i'w drin.'

4.4 Mae Tabl 36 isod yn canolbwyntio ar LACW gweddilliol ac yn cymharu'r ffigurau gwirioneddol rhwng 2016/17 a 2021/22 gyda'r amcangyfrifon gwaelodlin a ffigurau 2024-25 a ragwelwyd yn y CIMSP (ar gyfer De-orllewin Cymru). Unwaith eto, gyda'r newid mewn cyfansoddiad rhanbarthol, ni all cymharu'r ffigurau gwaelodlin ar gyfer De-orllewin Cymru ond gynnig amcangyfrif gorau o'i weld ochr yn ochr â'r sgil-gynhyrchion gwastraff gweddilliol gwirioneddol ar gyfer rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Fodd bynnag, mae'n galonogol nodi bod symiau gwirioneddol y LACW gweddilliol yng Nghymru gyfan ac yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi bod yn lleihau'n gyson dros y cyfnod rhwng

2016/17 a 2019/20. Er bod cynnydd bach wedi bod yn y ffigurau yn y ddau gyfnod adrodd diwethaf, o ran rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, mae'r swm dal o fewn y sgil-gynhyrchion a ragwelir gan CIMSP ar gyfer 2024-25 (ar gyfer De-orllewin Cymru).

4.5 Er bod hyn yn dangos cynnydd cadarnhaol yn y rhanbarth, bydd angen monitro hyn er mwyn gweld a fydd y duedd yn parhau ac nad yw swm y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir yn fwy na'r sgil-gynhyrchion a ragwelir ar gyfer 2024-25. Mae monitro gwastraff gweddilliol yn bwysig gan y bydd y lefel sy'n cael ei chynhyrchu o fewn y rhanbarth a'i dull rheoli yn effeithio ar y galw am gapasiti adfer a'r gyfradd ar gyfer defnyddio gwagle tirlenwi.

Tabl 36 Sgil-gynhyrchion Gwastraff Gweddilliol a Gesglir gan Awdurdodau Lleol: Amcangyfrif a Gwirioneddol ¹²

Ffynhonnell: CIMSP (Llywodraeth Cymru, 2012) a StatsCymru (Gwastraff blynyddol (tunellau) a gynhyrchir yn ôl ffynhonnell)

Awdurdod Lleol	CIMSP – amcangyfrif o'r gwaeloglin ar gyfer sgil-gynhyrchion gweddilliol (Tabl 22)	CIMSP – amcangyfrif o'r sgil-gynhyrchion gweddilliol 2024/25 (Tabl 32) ¹³	2016/17 Gwirioneddol	2017/18 Gwirioneddol	2018/19 Gwirioneddol	2019/20 Gwirioneddol	2020/21 Gwirioneddol	2021/22 Gwirioneddol
Sir Gaerfyrddin	-	-	29,983	31,902	33,842	29,496	29,412	29,570
Ceredigion	-	-	19,901	18,019	16,504	15,086	12,817	14,928
Castell-nedd Port Talbot	-	-	32,931	33,666	32,594	27,765	31,780	31,055
Powys			22,742	21,443	21,769	21,178	22,020	21,345
Sir Benfro	-	-	33,034	32,428	31,471	24,534	20,871	25,890
Abertawe	-	-	44,868	40,810	40,456	39,039	40,958	43,230
Cyfanswm Canolbarth a De-orllewin Cymru	295,000	148-168,000	183,459	178,268	176,636	157,098	157,858	166,018
Cyfanswm Cymru	1,026,000	512-583,000	675,835	645,530	630,703	608,135	628,068	626,689

Rheoli Gwastraff Gweddilliol

- 4.6 Mae rheoli gwastraff gweddilliol yn cynnwys tair proses eang:
- Triniaeth ganolradd e.e. MBT a MHT, a chynhyrchu RDF & SRF
 - Adferiad arall – e.e. troi gwastraff yn ynni a thaenu ar y tir
 - Gwaredu – e.e. tirlenwi

¹² Ffigurau wedi’u newid i adlewyrchu StatsCymru: ‘Gwastraff Blynyddol a Gynhyrchir (tunellau) fesul ffynhonnell’. Roedd adroddiadau blaenorol wedi defnyddio ‘Rheolaeth flynyddol o wastraff yn ôl dull rheoli (tunellau)’ sydd i weld ag anghysondeb amlwg â setiau data eraill.

¹³ Amcangyfrifodd CIMSP fod sgil-gynhyrchion gweddilliol (Tablau 22&32) yn seiliedig ar ranbarth De-orllewin Cymru ac felly nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol â'r symiau gwirioneddol o ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.

4.7 Triniaeth Fiolegol Fecanyddol (MBT) a Thriniaeth Fecanyddol â Gwres (MHT) yw'r ddwy brif broses driniaeth ganolradd a ddefnyddir yn y DU ar hyn o bryd. Gyda'r ddwy broses hyn, mae'r gweddillion na ellir eu hailgylchu yn mynd naill ai i droi gwastraff yn ynni, safle tirlenwi neu daenu ar y tir.

4.8 Gall adfer gwastraff gweddilliol arall gynnwys llosgi, pyrolysis, nwyeddio, gyda gweddillion (fel lludw gwaelod llosgydd) yn cael eu hailgylchu neu eu tirlenwi. Mae treulio anaerobig a chyd-llogi (e.e. mewn odyd sment) hefyd yn fathau o adferiad arall, yn ogystal â thaenu ar y tir yr allbwn sydd fel compost (CLO) a gynhyrchir o ganlyniad i driniaeth ganolradd fel MBT neu MHT, ac y mae'n rhaid ei daenu o dan drwydded amgylcheddol ar gyfer gwaith symudol.

4.9 Mae technoleg ar gyfer trin gwastraff gweddilliol yn cael ei datblygu'n barhaus, gyda gwahanol raddau o lwyddiant. Rhaid aros i weld beth yw'r tebygolrwydd y bydd prosesau trin arloesol a dibynadwy yn cael eu sefydlu yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru dros y blynyddoedd nesaf fel dewis amgen i dirlenwi. Mae nifer o gyfleusterau gwastraff eisoes yn bodoli o fewn y rhanbarth sy'n defnyddio technegau MBT, er bod hynny ar gyfer trin gwastraff ailgylchadwy yn hytrach na gweddilliol. Mae'r Baling Plant yn Abertawe, er enghraifft, yn defnyddio proses fecanyddol i drin ei wastraff ailgylchadwy ymlaen llaw. Mae safle arall yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cyflawni cyfradd ailgylchu o 70% o'r gwastraff mae'n ei dderbyn, ac mae'r gwastraff gweddilliol o'r broses wedyn yn cael ei felio fel Tanwydd yn Deillio o Sbwriel (RDF). Mae'r safle'n cyflawni cyfradd dargyfeirio o safleoedd tirlenwi o 98% a chaiff yr RDF ei gludo i ynni o gyfleusterau gwastraff yn Ewrop.

4.10 Gellir dweud yr un peth am driniaethau thermol; mae gan y rhanbarth hanes hir o ddefnyddio technolegau o'r fath yn y diwydiant petrolewm (e.e. Sir Benfro) a chynhyrchu dur (e.e. Port Talbot) i ddelio â gwastraff petrogemegol neu fetel. Ond nid yw technolegau o'r fath wedi'u defnyddio i drin gwastraff trefol gweddilliol o fewn y rhanbarth.

4.11 Nodir ymchwiliad i'r cyfleusterau presennol sy'n gweithredu yn y rhanbarth ar hyn o bryd yn Nhabl 37 isod.

Tabl 37: Capasiti a ganiateir a mewnbwn blynyddol ar gyfer trin neu adfer gwastraff gweddilliol gweithredol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru 2021

Math o Gyfleuster	Canolbarth a De-orllewin Cymru		
	Nifer y Safleoedd	Capasiti (tunelli y/flwyddyn)	Mewnbwn (tunelli y/flwyddyn)
MBT gydag EfW gweddilliol (EfW ddim yn weithredol mwyach)	1	260,200	67,403
MBT gyda gweddilliol i safleoedd tirlenwi	1	74,999	27,144 ¹⁴
Cyd-llogi	0	0	0
Llosgi gydag adfer ynni	0	0	0
Nwyeddio	0	0	0
Cyfanswm	2	335,199	94,547

Ffynhonnell: CIMSP (LIC, 2012); Set Ddata Safleoedd Gwastraff EPR (CNC, Gorffennaf, 2022) a Holwr Data Ffurflenni Trwyddedau Gwastraff (CNC, 2021)

¹⁴ Mae'r ffigur yn cynnwys Aelwydydd/Diwydiannol/Masnachol; Gwastaff Anadweithiol C&D, a Pheryglus

4.12 Mae un safle yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer llosgi gydag adfer ynni - cyfleuster gwastraff Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn Nhwyni Crymlyn. Mae'r caniatâd ar gyfer y safle hefyd yn cynnwys Triniaeth Fiolegol Fecanyddol. Fodd bynnag, ni fu unrhyw losgi ar y safle ers dros 10 mlynedd, ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw weithrediad MBT ac nid oes unrhyw gynhyrchu RDF yn gysylltiedig. Mae CNPT wedi tynnu'r cyfleuster dan ei ofal ac ar hyn o bryd maent wrthi'n ailfodelu'r gwaith i ganolbwyntio ar gynyddu'r deunydd ailgylchu a wahanir sy'n cael ei ddosbarthu i'r safle. Cafodd y llosgwr a'r twneli bio-sychu eu gwaredu yn 2022 fel rhan o'r ailfodelu. Bydd y symiau llai o wastraff gweddilliol a gludir i'r safle yn fwy sylweddol ac yn cael eu trosglwyddo oddi ar y safle i'w trin a'u gwaredu. Mae'r Drwydded Amgylcheddol yn cael ei halinio'n unol â hynny ac ni chaniateir y safle mwyach ar gyfer MBT na llosgi.

4.13 Yr unig gyfleuster trin gwastraff gweddilliol gweithredol arall yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru sy'n delio â LACW yw gwaith MBT yn Llanbedr Pont Steffan lle caiff y gweddillion sy'n cael eu trin eu hanfon i safleoedd tirlenwi. Mae ganddo gapasiti o 75 mil tunnell, ac fel y gwelir o Dabl 37, nid yw'n gweithredu i'w llawn allu ar hyn o bryd.

4.14 Mae cyfleuster arall yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru sy'n trin gwastraff gweddilliol - Gwaith Ynni Gwyrdd Margam yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond mae'n ymdrin yn benodol â gwastraff pren. Felly, er ei fod yn fuddiol wrth ddelio â math o wastraff gweddilliol, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y broses, dim ond ar gyfer y ffrwd wastraff benodol hon y mae'n darparu. At hynny, daw'r gwastraff pren o'r DU (a thu hwnt), a dim ond cyfran fach o'r defnydd crai cyffredinol sy'n dod o awdurdodau lleol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.

Capasiti ychwanegol ar gyfer trin LACW gweddilliol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru

4.15 Nid yw'r capasiti a ganiateir ar gyfer trin gwastraff gweddilliol yn cael ei gyflenwi'n dda yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Yn ogystal â'r ddau safle gweithredol yn Nhabl 37, nododd y CIMSP (2012) fod gan ranbarth De-orllewin Cymru gapasiti pellach (100,000 tunnell) ar safle newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a oedd wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith nwyeddio. Fodd bynnag, mae'r prosiect wedi'i roi o'r neilltu ers hynny oherwydd diffyg cyllid [ac mae Pen-y-bont ar Ogwr bellach yn rhan o Dde-ddwyrain Cymru, o ran adrodd am wastraff]. O ganlyniad, nid oes gan y ranbarth unrhyw gapasiti ychwanegol pellach ar hyn o bryd ac eithrio'r ddau gyfleuster yn Nhabl 37.

4.16 Mae Atodiad 5 yn amlinellu'r holl geisiadau/caniatadau ar gyfer cyfleusterau adfer/trin gwastraff rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2023. Gwrthodwyd un cais, yn ymwneud â thrin LACW gweddilliol yn Sir Gaerfyrddin ym mis Chwefror 2016. Gwrthodwyd cais arall, ar gyfer cyfleuster adfer troi gwastraff yn ynni ar raddfa fach yn Abertawe, a fyddai wedi prosesu 21,000 tunnell o wastraff nad yw'n beryglus, ym mis Mai 2019. Mae'r ceisiadau / caniatadau eraill yn yr atodiad hwn yn cwmpasu amrywiaeth o ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â gwastraff, megis MRF, ar gyfer rheoli gwastraff nad yw'n weddilliol, a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff.

4.17 Yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer yr Adroddiad hwn, roedd cais cynllunio ar gyfer Cyfleuster Adfer Ynni (ERF) yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn cael ei benderfynu – cais ERF Buttington ger Y Trallwng. Er y byddai'r cyfleuster wedi cynhyrchu ynni carbon isel ac yn lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, oherwydd y byddai ei

gapasiti wedi bod yn fwy na 10MW, roedd yn groes i'r moratoriwm ar ddatblygiadau ynni gwastraff ar raddfa fawr yn y dyfodol, fel y nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru *Mwy nag Ailgylchu* (a gwmpesir ym mharagraffau 4.21 a 4.22 isod). Cafodd y cais ei wrthod gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn Awst 2022. Mae'r canlyniad hwn yn bwysig o ran gosod safbwynt pendant Llywodraeth Cymru yn erbyn EfW yng Nghymru yn y dyfodol.

4.18 Gellir dod i'r casgliadau cychwynnol, o ystyried faint o wastraff gweddilliol a gynhyrchir yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, a'r defnydd parhaus o dirlenwi (i raddau amrywiol) i'w waredu, mae'n amlwg nad oes gan y rhanbarth ddigon o gapasiti mewn cyfleusterau "adfer eraill" ac felly mae ganddo gryn ffordd i fynd i allu cyrraedd nod 2025 o gyflawni mor agos at â phosibl at sero tirlenwi. Fodd bynnag, er y gallai nod 2025 [o fod mor agos at sero gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi] ymddangos fel pe bai'n bell i ffwrdd, mae angen ymchwilio ymhellach i driniaeth weddilliol yn y rhanbarth, a thrafodir ei dyfodol yn fanylach yn yr adran ganlynol.

Dyfodol Trin Gwastraff Gweddilliol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru

4.19 Ar adeg cyhoeddi'r CIMSP yn 2012, roedd LIC o'r farn mai Troi Gwastraff yn Ynni (EfW) gyda chyfuniad o dechnoleg gwres a phŵer oedd â'r potensial mwyaf i gael effaith gadarnhaol ar newid yn yr hinsawdd na thechnolegau trin gwastraff gweddilliol eraill. I'r perwyl hwn, roedd gan LIC becynnau ariannu ar gael ar gyfer caffael capasiti trin gwastraff, ac i ddechrau roedd awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'u gosod mewn canolfannau rhanbarthol, lle byddent yn gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau i gaffael triniaeth gwastraff gweddilliol. Er enghraifft, roedd Canolfan Wastraff De-orllewin Cymru yn cynnwys Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (roedd Ceredigion wedi'i grwpio gyda Chanolfan Canolbarth Cymru).

4.20 O ran y Canolfannau, y bwriad oedd y byddai'r awdurdodau cyfansoddol yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i'r ateb mwyaf cynaliadwy, cost-efeithiol ac ymarferol ar gyfer trin eu gwastraff gweddilliol. Fodd bynnag, mwy na deng mlynedd yn ddiweddarach, nid oes un contract rhanbarthol yn cwmpasu'r holl awdurdodau cyfansoddol, ac nid oes cyfleuster gwastraff gweddilliol rhanbarthol newydd wedi'i ddatblygu. Amlinellir y contractau gwirioneddol ar gyfer trin/gwaredu gwastraff gweddilliol gan yr holl awdurdodau (yn y grŵp rhanbarthol newydd o Ganolbarth a De-orllewin Cymru), yn Nhabl 40, isod.

***Mwy nag Ailgylchu* a'r moratoriwm ar gyfleusterau Troi Gwastraff yn Ynni ar raddfa fawr**

4.21 Yn y Datganiad Ysgrifenedig, *Cymryd camau i droi'r economi gylchol yn realiti*, dywedodd LIC fod "Mae'n taith ailgylchu fel gwlad, a'r gostyngiad yn sgil hynny mewn gwastraff, yn golygu'n bod wedi cyrraedd bellach y pwynt lle nad oes angen seilwaith ynni o wastraff mawr arnom i ddelio â'r gwastraff gweddilliol a gynhyrchir yng Nghymru.

4.22 Gyda chyhoeddi *Mwy nag Ailgylchu* ym mis Mawrth 2021, cyflwynodd LIC moratoriwm di-oed ar unrhyw ddatblygiadau ynni gwastraff ar raddfa fawr yn y dyfodol, gan roi terfyn ar y safiad dros hyrwyddo datblygiad o'r fath a gymerwyd yn y CIMSP yn 2012. At ddibenion y moratoriwm diffinnir 'graddfa fawr' fel gweithfeydd o 10MW neu fwy.

Yr angen am Gyfleuster Gwastraff Gweddilliol newydd yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru

4.23 Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd LIC *asesiad strategol ar gyfer yr angen yn y dyfodol am gapasiti ynni o wastraff yn nhri rhanbarth economaidd Cymru*. Y bwriad oedd darparu "gwybodaeth i'w defnyddio gan ddatblygwyr, Awdurdodau Cynllunio Lleol ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru wrth ystyried yr angen am ganiatâd cynllunio newydd, neu amrywiadau, ar gyfer cyfleusterau troi gwastraff yn ynni a chyfleusterau ynni sy'n defnyddio gwastraff fel tanwydd".

4.24 Roedd yr asesiad wedi disodli'r asesiad strategol ar gyfer yr angen am ynni newydd o gapasiti gwastraff a ddarperir yn adran 2.3.4 o'r CIMSP. O ganlyniad, ac yn unol â TAN 21: *Gwastraff*, mae'r Asesiad Strategol yn fan cychwyn ar gyfer penderfynu ar yr angen am gapasiti yn y dyfodol ac, yn unol â hynny, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos bod cynnig o fewn yr ystod capasiti a nodir yn yr *Asesiad Strategol*.

4.25 Defnyddiodd yr Asesiad Strategol 2 senario yn y dyfodol i nodi'r angen am ynni newydd o ddata capasiti gwastraff (gweler Tablau 38 a 39 isod).

Tabl 38 Y lefelau presennol a'r amcanestyniadau yn y dyfodol ar gyfer gwastraff gweddilliol nad yw'n anadweithiol y gellir ei reoli mewn cyfleusterau troi gwastraff yn ynni yng Nghymru ar gyfer Senario 1.

Eitem	Amcangyfrif o wastraff gweddilliol sy'n addas ar gyfer EfW yn ôl blwyddyn a rhanbarth economaidd (1,000 tunnell)								
	Gogledd			De-ddwyrain			Canolbarth a De-orllewin		
	19/20	24/25	34/35	19/20	24/25	34/35	19/20	24/25	34/35
Cartref	125	70	45	260	180	85	125	70	50
Di-breswyl	20	20	20	35	35	25	10	15	15
Masnachol	90	65	50	165	145	115	105	100	75
Diwydiannol	45	30	25	65	40	30	40	25	20
C&D	10	5	5	25	15	15	20	10	10
Cyfanswm gweddilliol	290	190	145	550	415	270	300	220	170
Capasiti gweithredu sydd ar gael	200	200	200	425	425	425	0	0	0
Bwlch capasiti yn erbyn gweithredol	-90	10	55	-125	10	155	-300	-220	-170

Ffynhonnell: Asesiad strategol ar gyfer yr angen yn y dyfodol am gapasiti troi gwastraff yn ynni yn nhair rhanbarth economaidd Cymru, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021.

Tabl 39 Y lefelau presennol a'r amcanestyniadau yn y dyfodol ar gyfer gwastraff gweddilliol nad yw'n anadweithiol y gellir ei reoli mewn cyfleusterau troi gwastraff yn ynni yng Nghymru ar gyfer Senario 2.

Eitem	Amcangyfrif o wastraff gweddilliol sy'n addas ar gyfer EfW yn ôl blwyddyn a rhanbarth economaidd (1,000 tunnell)								
	Gogledd			De-ddwyrain			Canolbarth a De-orllewin		
	19/20	24/25	34/35	19/20	24/25	34/35	19/20	24/25	34/35
Cartref	125	80	70	260	210	130	125	85	70
Di-breswyl	20	20	25	35	35	35	10	15	15
Masnachol	90	75	70	165	165	150	105	105	100
Diwydiannol	45	30	25	65	40	40	40	25	25
C&D	10	5	5	25	15	15	20	10	10
Cyfanswm gweddilliol	290	210	200	550	465	370	300	240	220
Capasiti gweithredu sydd ar gael	200	200	200	425	425	425	0	0	0
Bwlch capasiti yn erbyn gweithredol	-90	-10	0	-125	-40	55	-300	-240	-220

Ffynhonnell: Asesiad strategol ar gyfer yr angen yn y dyfodol am gapasiti troi gwastraff yn ynni yn nhair rhanbarth economaidd Cymru, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021.

4.26 O Dablau 38 a 39, mae'r ystod o fylchau capasiti amcangyfrifedig ar gyfer gwastraff gweddilliol sy'n addas ar gyfer adfer ynni fesul rhanbarth ar gyfer 2034-35 fel a ganlyn:

- Gogledd Cymru: 0 mil o dunelli metrig y flwyddyn o dan/dros - capasiti i 55 mil tunnell y flwyddyn o or-gapasiti
- De-ddwyrain Cymru: 55 i 155 mil tunnell y flwyddyn o or-gapasiti.
- Canolbarth a De-orllewin Cymru: 170-220 mil tunnell y flwyddyn o dan-gapasiti.

4.27 Mae'r ffigurau bwlch capasiti a ddarperir yn adlewyrchu statws presennol capasiti gweithredol gweithfeydd troi gwastraff yn ynni yng Nghymru. Bydd y ffigurau'n newid yn naturiol os bydd unrhyw un o'r safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio presennol yn trosi hyn yn gapasiti gweithredol ar y ddaear.

4.28 Er y bwlch capasiti, mae'r Papur Asesiad Strategol serch hynny yn amlygu ac yn disgrifio goblygiadau'r moratoriwm ar droi gwastraff yn ynni ar raddfa fawr a nodir yn *Mwy nag Ailgylchu* ac a roddwyd ar waith ar unwaith yn Natganiad Ysgrifenedig y Gweinidog a gyhoeddwyd ar 24 Mawrth 2021. Mae'r moratoriwm yn golygu nad yw LIC yn ystyried bod angen unrhyw weithfeydd troi gwastraff yn ynni newydd ar raddfa fawr o 10MW neu fwy. Yn ogystal, bydd gweithfeydd troi ynni yn wastraff ar raddfa fach o lai na 10MW ond yn cael eu caniatáu os gall yr ymgeisydd ddangos angen am gyfleuster o'r fath ar gyfer y gwastraff na ellir ei ailgylchu a gynhyrchir yn y rhanbarth. Rhaid i unrhyw gyfleusterau newydd ar raddfa fach hefyd gyflenwi gwres, a lle bo'n ymarferol, wedi'i alluogi i ddal a storio carbon neu'n barod i wneud hynny. Byddai hyn felly'n golygu na fyddai safle ar raddfa fach yn cael ei ganiatáu os bydd gwastraff yn cael ei fewnforio o'r tu allan i'r rhanbarth arfaethedig (oni bai ei fod yn agos at ranbarth), er mwyn osgoi cloi allyriadau trafnidiaeth a llygredd cysylltiedig hefyd.

4.29 Yn achos cynnig ERF Buttington (gweler para. 4.17), cyfeiriodd yr ymgeisydd at Asesiad Strategol LIC a chyfeiriodd at yr egwyddor agosrwydd sy'n nodi bod yn rhaid mynd i'r afael â'r tan-gapasiti a nodwyd yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru trwy gyfleuster wedi'i leoli'n briodol. Aeth ymlaen i ddadlau bod ei ddatblygiad arfaethedig wedi'i leoli mewn lleoliad canolog ar gyffordd y tair rhanbarth economaidd sy'n golygu ei fod mewn lleoliad delfrydol i ddarparu'r capasiti ychwanegol sydd ei angen, yn enwedig ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru (yr unig ranbarth yng Nghymru heb unrhyw gapasiti EfW gweithredol). Mae gwrthod y datblygiad hwn yn dangos effaith safbwynt newydd Llywodraeth Cymru ar gynlluniau EfW.

4.30 Ffactor pwysig arall i'w gadw mewn cof wrth fynd i'r afael â'r angen am gyfleuster trin gwastraff gweddilliol newydd i wasanaethu rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yw **contractau presennol**. Mae Tabl 40 isod yn dangos bod awdurdodau yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru eisoes wedi sefydlu contractau i ymdrin â'u gwastraff gweddilliol, gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio cyfleusterau y tu allan i'r rhanbarth. O ganlyniad, ac er gwaethaf casgliadau'r Asesiad Strategol o'r diffyg capasiti o fewn y rhanbarth, mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â'r angen am gyfleuster newydd os yw'r deunydd crai eisoes wedi'i rwygo mewn man arall ar gytundebau tymor hir. Gyda chyflenwad annigonol o ddeunydd crai o fewn y rhanbarth bydd yn anodd gwneud cynllun posibl yn ymarferol. Roedd cynnig Buttington wedi ystyried y mater hwn, fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai rhywfaint o'r deunydd ffynhonnell yn dod o'r tu hwnt i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.

4.31 Mae cwestiynau ynghylch argaeledd gwastraff crai eisoes wedi cyfrannu at y broses o wrthod cynlluniau trin gwastraff gweddilliol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, gwrthodwyd cais am gyfleuster EfW yn Sir Gaerfyrddin yn

rhannol oherwydd y ffaith yr ystyriwyd nad oedd digon o wastraff ar gael o'r tu mewn i'r rhanbarth (masnachol a diwydiannol) er mwyn iddo allu gweithredu i'r capasiti a nodir yn ei gynnyg. At hynny, wrth benderfynu ar y cais, ystyriodd yr awdurdod lleol y ffaith bod awdurdodau lleol yn y rhanbarth wedi ymrwymo i gontractau gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol presennol. Felly, ystyriwyd bod argaeledd gwastraff o ffynonellau dinesig hefyd yn gyfyngedig.

4.32 Mae'r ffactorau hyn yn awgrymu bod darpariaeth ddigonol ar gyfer rheoli gwastraff gweddilliol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru ar hyn o bryd, ac nad oes angen capasiti newydd. Mae'r awdurdodau o fewn y rhanbarth eisoes wedi ymrwymo i gytundebau, ac mae rhai ohonynt yn golygu bod eu gwastraff gweddilliol yn cael ei gludo y tu allan i'r DU i'w drin. Yn gyffredinol, mae llawer o gapasiti prosesu gwastraff yn Ewrop ac o ganlyniad mae'r awdurdodau hynny sy'n anfon eu gwastraff gweddilliol i Ewrop wedi canfod ei bod yn fwy cost effeithiol gwneud hynny na'i anfon i gyfleusterau yng Nghymru neu Loegr. Felly mae'r achos economaidd dros greu rhagor o gapasiti yn y rhanbarth yn cael ei wanhau ymhellach. Fodd bynnag, gyda'r ansicrwydd ynghylch Brexit, efallai y bydd yn rhaid ystyried dyfodol contractau o'r fath yn ofalus. Yn flaenorol bu gorddibyniaeth ranbarthol ar gyfleusterau EfW yn Ewrop fel cyrchfan ar gyfer gwastraff gweddilliol rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Fodd bynnag, mae trefniadau newydd, fel y rhai yn Sir Benfro (gweler Tabl 40), yn golygu bod mwy o wastraff gweddilliol y rhanbarth yn aros yng Nghymru.

4.33 Gall materion eraill gael sgil-ffeithiau o ran y sefyllfa gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth. Mae Tabl 40 isod yn nodi manylion y contract y mae'r awdurdodau cyfansoddol wedi ymrwymo iddynt. Mae'n tynnu sylw at y newidiadau a all ddigwydd yn flynyddol, yn ogystal â'r ddibyniaeth ar gyfleusterau y tu allan i'r rhanbarth. Yr hyn sy'n amlwg fodd bynnag yw'r ddibyniaeth gynyddol ar EfW [er ei fod y tu allan i'r rhanbarth], yn lle tirlenwi, sy'n gadarnhaol o ran anelu at darged 2025 o fod mor agos at sero tirlenwi â phosibl, yn ogystal ag ymestyn oes y gwagle tirlenwi sy'n weddill, y gellid o bosibl ei ddefnyddio yn ôl yr angen yn y dyfodol e.e. ar adegau pan fydd ynni o gyfleusterau gwastraff ar gau ar gyfer gwaith cynnal a chadw / atgyweiriadau ac ati ac ar gyfer elfennau penodol o wastraff dinesig na ellir eu gwaredu drwy driniaeth thermal. .

Tabl 40 Prosiectau Caffael Gwastraff Gweddilliol – Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru

Enw'r Prosiect	Awdurdodau Partner	Statws Caffael	Cyfleusterau a Ddatblygwyd	Capasiti Trin Gwastraff Gweddilliol
Rhaglen Gweddilliol Llywodraeth Cymru				
Prosiect Gwastraff Gweddilliol De-orllewin Cymru	Sir Gaerfyrddin; Sir Benfro; Abertawe Ceredigion. Nid yw CNPT yn rhan o'r Astudiaeth Ddichonoldeb.	Cwblhawyd astudiaeth ddichonoldeb i gyfleuster trin thermol posibl ar gyfer gwastraff ar gyfer De-orllewin Cymru. Fodd bynnag, ni ddatblygwyd unrhyw gynllun.	Dim hyd yma.	Amh.

Gwastraff gweddilliol – Statws Caffael				
	CSP	Contract i anfon gwastraff gweddilliol i gyfleuster EfW Viridor yng Nghaerdydd.	Dibyniaeth ar gyfleuster y tu allan i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Amh.
	Ceredigion	Yn cael ei drin ar hyn o bryd gan droi gwastraff yn ynni	Dibyniaeth ar gyfleuster y tu allan i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Amh.
	CNPT (a Phen-y-bont ar Ogwr)	Trefniadau presennol yn eu lle. Mae CNPT a Phen-y-bont ar Ogwr yn anfon gwastraff gweddilliol i gyfleuster CNPT yn Nhwyni Crymlyn, lle caiff ei drosglwyddo i'w drin a'i waredu oddi ar y safle. Y trefniadau presennol i ddod i ben yn 2030.	Yn defnyddio'r cyfleuster presennol yn Nhwyni Crymlyn CNPT. Trin a gwaredu oddi ar y safle mewn amrywiol gyfleusterau yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru a thu hwnt.	Amh.
	Sir Gaerfyrddin	Cytundeb gyda CWM Environmental Ltd ar gyfer didoli; gyda gwastraff gweddilliol yn mynd i gyfleusterau EfW yn Ewrop a'r DU ac ychydig bach yn cael ei dirlenwi o fewn y rhanbarth a'r tu hwnt.	Yn defnyddio cyfleusterau y tu hwnt i'r Sir (o fewn a thu hwnt i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru)	Amh.
	Powys	Mae contract newydd wedi sicrhau bod yr holl ddeunydd bellach yn mynd i EfW trwy Potters	Mae'r holl ddeunydd yn mynd i EfW yn y DU, ond y tu hwnt i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.	Amh.

		Waste Management		
	Abertawe	Daeth y contract gydag Enovert i dirilenwi'r gwastraff i ben Chwefror 2022. Mae datrysiad newydd yn defnyddio EfW.	Bydd peth gwastraff yn mynd i CNPT i ddechrau cyn ei brosesu a'i anfon i gyfleusterau EfW yn y DU neu Ewrop. Bydd rhywfaint o wastraff yn mynd yn syth i gyfleuster EfW yn Lloegr.	Amh.

Ffynhonnell: gwybodaeth wedi'i darparu gan yr awdurdodau lleol unigol.

Dyfodol trin gwastraff gweddilliol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru

4.34 Fel y nodwyd eisoes, nid oes cyfleuster trin gwastraff gweddilliol rhanbarthol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru ar hyn o bryd. Dinas a Sir Abertawe oedd yr awdurdod arweiniol ar gyfer caffael contract hirdymor, yn cynnwys LIC, ar gyfer trin gwastraff gweddilliol yn Ne-orllewin Cymru. Fodd bynnag, daeth y broses i ben pan ddaeth yn amlwg na fyddai LIC yn cefnogi'r rhanbarth i ddatblygu cyfleuster triniaeth thermol newydd. Cyhoeddwyd *Mwy nag Ailgylchu* gyda'i foratoriwm ar gyfleusterau EfW ar raddfa fawr yn fuan wedyn.

4.35 Mae safbwynt LIC felly yn glir. Fel y gwelsom gyda gwrthod cais Buttington yn ddiweddar, nid yw cyfleusterau EfW newydd yng Nghymru yn cael eu hystyried yn angenrheidiol, gyda phwyslais LIC yn gadarn ar leihau gwastraff gweddilliol i gyrraedd targed 2050, cynyddu ailgylchu, ac atal gwastraff yn ei darddle.

4.36 I gael enghraifft ddiweddar arall, gallwn edrych ar ranbarth De-ddwyrain Cymru lle pwysleisiwyd safbwynt LIC yn bendant eto drwy wrthod Gwaith 200,000 tonnall y flwyddyn EfW Môr Hafren Bio Power ger Caerdydd. Gwrthodwyd y Gwaith, a fyddai'n bennaf wedi defnyddio deunyddiau gwastraff masnachol a diwydiannol gweddilliol (I&C) gan yr Arolygydd Cynllunio, a nododd, yn ogystal â gwrthwynebiadau yn ymwneud ag "angen annigonol" a "niwed ecolegol", ei fod yn groes i gynlluniau lleihau gwastraff LIC. Canfu'r Arolygydd y gallai polisïau lleihau gwastraff olygu bod sgil-gynhyrchion gwastraff cartrefi gweddilliol yn Ne Ddwyrain Cymru yn disgyn i lefelau y gellid eu rheoli mewn cyfleusterau EfW presennol, yn benodol, cyfleuster presennol Parc Trident yng Nghaerdydd y bydd ei gapasiti ar gyfer gwastraff gweddilliol I&C yn cynyddu yn lle hynny [yn ôl yr Arolygydd], gan arwain at angen annigonol am gyfleuster ychwanegol.

4.37 Bydd y sefyllfa o ran rheoli gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth yn y dyfodol yn parhau i gael ei monitro'n ofalus mewn WPMRs yn y dyfodol.

5. MONITRO GWASTRAFF BWYD Y RHANBARTH

Sefyllfa'r DU a Chymru

5.1 Fel sy'n wir am wastraff Diwydiannol a Masnachol (I&C) ac Adeiladu a Dymchwel (C&D), nid oes adroddiadau blynyddol cyson ar sgil-gynhyrchion gwastraff bwyd yn y DU neu Gymru, ac eithrio'r hyn a gesglir gan awdurdodau lleol ar gyfer compostio (gweler Tabl 43 isod). Fodd bynnag, mae Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) wedi cyhoeddi data ar wastraff bwyd cartrefi (HHFW) yn rheolaidd ers 2007. Amcangyfrifodd astudiaethau a gyhoeddwyd yn 2013 a 2017 bod sgil-gynhyrchion gwastraff bwyd blynyddol o fewn sectorau cartrefi, lletygarwch a gwasanaeth bwyd, gweithgynhyrchu bwyd, manwerthu a chyfanwerthu y DU yn tua 10 miliwn o dunelli.

5.2 Yn ôl pwysau, mae gwastraff bwyd cartref (HHFW) yn cyfrif am 70% o gyfanswm y DU ar ôl giât y fferm, ac yna gweithgynhyrchu 17%, lletygarwch a gwasanaeth bwyd 9% a manwerthu 2%.

5.3 Canfu Astudiaeth 2017 WRAP, ar lefel y DU, na fu unrhyw newid ystadegol arwyddocaol yn lefelau amcangyfrifedig HHFW rhwng 2012 a 2015, ac na chyflawnwyd targed Courtauld 3 i leihau HHFW gan 5% erbyn 2015 o'i gymharu â 2012.

5.4 Fodd bynnag, nododd yr Adroddiad fod tystiolaeth bod lefelau HHFW yn is yng Nghymru na gweddill y DU. Yng Nghymru, roedd swm yr HHFW fesul person yn 2015 yn sylweddol is – tua 9% – o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Yn ogystal, rhwng 2009 a 2015 bu gostyngiad o 12% yn swm yr HHFW yng Nghymru (unwaith eto, newid ystadegol arwyddocaol).

5.5 Mae Tabl 41 yn darparu data ar gyfer Cymru ar gyfer 2009 a 2015. Er gwybodaeth, amcangyfrif 2015 y DU ar gyfer yr un ffrydiau gwastraff oedd 73.1kg / person / blwyddyn.

Tabl 41: Gwastraff bwyd cartrefi yng Nghymru ar gyfer 2009 a 2015. Data ar gyfer HHFW a gasglwyd gan awdurdodau lleol (gweddilliol a chasgliadau yn targedu gwastraff bwyd) wedi'i fynegi fesul person.

HHFW (kg / person bl)				Newid	
	2009	2014	2015	Kg / person / bl	%
Cymru	75.4	amh.	66.2	-9.2	-12.2%

Ffynhonnell: WRAP, Gwastraff Bwyd Cartrefi yn y DU, 2015 (Ionawr 2017)

5.6 Aiff yr Adroddiad ymlaen i ddweud bod y rhesymau posibl dros y ffigur uchod yn cynnwys bod gan Gymru lefelau incwm is na gweddill y DU (a allai roi mwy o gymhelliant i weithredu); cael mwy o gasgliadau gwastraff bwyd ar wahân sy'n cael eu defnyddio'n well (a allai fod wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r symiau sy'n cael eu gwastraffu); gwahaniaethau mewn ymyriadau a wneir i helpu i leihau HHFW; gwahaniaethau diwylliannol yn ymwneud â bwyd, neu gyfuniad o'r rhain i gyd neu rai ohonynt. Mae'r Adroddiad yn ychwanegu bod angen ymchwil pellach i ddeall hyn yn well, a nodi unrhyw wersi a allai helpu i leihau HHFW ymhellach ar draws y DU.

5.7 Amlinellir cynnydd pellach ar fynd i'r afael â gwastraff bwyd yn Adroddiad Cynnydd Carreg Filtir Ymrwymiad Courtauld 2025 - a gyhoeddwyd gan WRAP ym mis Ionawr 2020. Mae hyn yn datgelu bod cartrefi a busnesau wedi cyflymu eu hymdrechion i leihau gwastraff bwyd, gyda gostyngiad o 7% (480,000 tonnelli) rhwng 2015 a 2018. Roedd hyn yn gyfradd uwch o gynnydd nag yn ystod y pum mlynedd flaenorol. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos

gostyngiad sylweddol o 7% yn y nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r bwyd a diod a fwyteir yn y DU dros y cyfnod hwn.

5.8 Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chyhoeddi gan WRAP yn eu *hadroddiad Cynnydd Map Trywydd ar gyfer Lleihau Gwastraff Bwyd 2021*. Mae'r Map Trywydd yn cefnogi cyflawni targed gwastraff bwyd Courtauld 2030 a Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SDG12.3), trwy ddarparu canllawiau ac adnoddau i bob busnes bwyd. Mae'r Map Trywydd yn cwmpasu'r holl brif sectorau (cynhyrchu, gweithgynhyrchu, manwerthu a lletygarwch a gwasanaeth bwyd), gyda cherrig milltir uchelgeisiol a mesuradwy, i helpu i haneru gwastraff bwyd y DU erbyn 2030. Ers ei lansio, mae nifer y sefydliadau sydd wedi ymrwymo i'r Map Trywydd bron bedair gwaith yn fwy, o 90 i 351.

Mae'r adroddiad yn amlygu er bod y rhan fwyaf yn fusnesau mwy o faint, fod nifer gynyddol o fusnesau bach a chanolig eu maint hefyd wedi ymrwymo i'r Map Trywydd (52 yn 2022, i fyny o 30 yn 2021) gan ddangos ymwybyddiaeth well o'r Map Trywydd i fusnesau a chymhelliant i ymrwymo iddo, beth bynnag eu maint neu adnoddau.

Ailddosbarthu bwyd sydd dros ben

5.9 Mae adroddiad 2021 yn pwysleisio pwysigrwydd ailddosbarthu bwyd dros ben i leihau faint o fwyd sy'n mynd yn wastraff. Gan ddefnyddio data gan sefydliadau ailddosbarthu'r DU, ym mis Gorffennaf 2022 adroddodd WRAP fod swm y bwyd dros ben a gafodd ei ailddosbarthu yn 2021 dros 106,000 o dunelli, a rhwng 2018 a 2021, bu cynnydd o 91% yn y tunelledd bwyd dros ben a gafodd ei ailddosbarthu.

5.10 Bu i ddata gan fusnesau sy'n gweithredu 'Target, Measure, Act' ddatgelu eu bod wedi ailddosbarthu dros 51,000 tonnall yn fwy o fwyd rhyngddynt yn 2021 nag yn 2018, sef cynnydd o 150%. Roedd y bwyd hwn werth mwy na £120 miliwn a byddai wedi darparu 123 miliwn o brydau. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r cynnydd positif hwn, mae WRAP yn rhagweld bod potensial o hyd i ailddosbarthu tua 170,000 i 200,000 tonnall yn fwy o'r sectorau adwerthu, gweithgynhyrchu a lletygarwch, a bwyd. Mae gan WRAP a IGD adnoddau helaeth sydd wedi'u hanelu at wireddu'r potensial hwn.

Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru

Cefndir

5.11 Roedd y ganolfan gaffael gychwynnol ar gyfer gwastraff bwyd yn cynnwys yr un awdurdodau ag ar gyfer gwastraff gweddilliol yn rhanbarth De-orllewin Cymru. Yn dilyn ymchwiliad cychwynnol gan y cyrff partneriaeth sy'n rhan o Ganolfan De-orllewin Cymru i ffyrdd amgen o drin gwastraff bwyd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, dewiswyd Treulio Anaerobig (AD) fel y dechnoleg a ffeirir.

5.12 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan dechnoleg treulio anaerobig fwy o botensial i gael effaith gadarnhaol ar newid yn yr hinsawdd na thechnolegau trin gwastraff bwyd eraill. Gall treulio anaerobig helpu i fynd i'r afael yn gadarnhaol â newid yn yr hinsawdd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. I ddechrau, creodd LIC becyn cymorth ariannol cyfalaf a refeniw ar gyfer awdurdodau lleol sy'n dymuno mabwysiadu technoleg treulio anaerobig.

5.13 O ran proses caffael safleoedd gwastraff De-orllewin Cymru, roedd Nant-y-caws (Sir Gaerfyrddin) a Felindre (Abertawe) yn safleoedd cyfeirio. Gwnaeth Sir Gaerfyrddin rywfaint o gynnydd drwy gael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith treulio anaerobig yn Nant-y-caws, ond nid yw hwn wedi'i ddatblygu a than yn ddiweddar bu'r awdurdod yn prosesu ei wastraff bwyd (ynghyd â gwastraff gardd) yn ei waith Compostio Caeedig yn Nant-y-caws. Yn y pen draw, fel yn achos gwastraff gweddilliol, ni sefydlwyd unrhyw gynllun rhanbarth gyfan yn cynnwys yr holl awdurdodau cyfansoddol ar gyfer trin gwastraff bwyd.

Gweithgarwch diweddar mewn perthynas â Gwastraff Bwyd yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru

5.14 Mae Atodiad 6 yn nodi nifer y ceisiadau treulio anaerobig newydd a dderbyniwyd ac a broseswyd ers mis Ebrill 2015. I ddechrau, bu llawer o weithgarwch gwaredu gwastraff ar gyfer gweithfeydd treulio anaerobig. Roedd hyn yn gysylltiedig â mecanweithiau cymorth ariannol fel y Tariffau Cyflenwi Trydan (FITs), gan fod y cynnyrch yn ynni adnewyddadwy. Y bwriad oedd i FIT annog darparu trydan carbon isel ar raddfa fach, ac roedd cyfleusterau treulio anaerobig gyda capasiti o lai na 5MW (5000kw), a gwblhawyd ar ôl 15 Gorffennaf 2009 yn gymwys.

5.15 Derbyniwyd nifer o geisiadau ar gyfer cynlluniau treulio anaerobig llai ar ffermydd, yn enwedig yn y siroedd mwy gwledig yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae rhai cynlluniau mwy hefyd wedi'u cyflwyno; mae cyfleuster treulio anaerobig Green Power Severn Trent yn Stormy Down ger Pen-y-bont ar Ogwr, er enghraifft, yn gallu prosesu 40,000 tonnell o wastraff bwyd ac organig a chynhyrchu tua 2.4 MW (2,400 KW) o ynni adnewyddadwy y flwyddyn. Fel y gwelir yn Nhabl 42 isod, mae cyfleuster Stormy Down bellach yn cymryd y gwastraff bwyd o lawer o'r awdurdodau yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru i ryw raddau. Fodd bynnag, rhaid nodi, gyda'r newid yn y strwythur rhanbarthol i gyd-fynd â'r tair rhanbarth economaidd, fod cyfleuster Stormy Down bellach wedi'i leoli y tu allan i ardal Canolbarth a De-orllewin Cymru.

Tabl 42 Prosiectau Gwastraff Bwyd Awdurdodau Lleol: Gwastraff Bwyd – statws caffael

Enw'r Prosiect	Awdurdodau Partner	Statws Caffael	Cyfleusterau a ddatblygwyd (neu a ddefnyddiwyd)	Capasiti Trin Gwastraff Bwyd ¹⁵
Canolfan De-orllewin Cymru	Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr	Aeth ymarfer caffael rhanbarthol ymlaen i gam datblygedig i ddechrau cyn dod i ben. Ers hynny ni fu unrhyw gynnydd pellach ar gyfer y grŵp cyfan.	Dim fel rhan o Ganolfan De-orllewin Cymru.	Amh.

¹⁵ Dim capasiti o ran cyfleuster rhanbarthol. Mae rhai gweithfeydd treulio anaerobig ar raddfa fach (ar ffermydd yn y bôn), ond ni chaiff y rhain eu defnyddio gan yr awdurdodau lleol wrth brosesu eu gwastraff bwyd LACW.

Canolfan Canolbarth Cymru	Ceredigion a Phowys	Dechreuodd ymarfer caffael rhanbarthol i ddechrau, ond ni fu unrhyw gynnydd pellach ar sefydlu cyfleuster yn y rhanbarth.	Dim fel rhan o Ganolfan Canolbarth Cymru.	Amh.
	Canolfan ranbarthol yn cynnwys Ceredigion, Powys a Sir Benfro	Contract 15 mlynedd wedi'i ddyfarnu i Severn Trent Green Power	Defnydd o Gynllun y Sector Preifat: yn un o dri cyfleuster Severn Trent Green Power Ltd (Parc Stormy, Pen-y-bont ar Ogwr, Cassington, Swydd Rhydychen, a Roundhill, Stourbridge	Amh.
-	Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr mewn partneriaeth	Dechreuodd y ddau awdurdod gontract hirdymor (15(+10) o flynyddoedd) yn 2017 gyda Severn Trent.	Defnydd o Gynllun y Sector Preifat: Cyfleuster AD Severn Trent Green Power ym Mhen-y-bont ar Ogwr	Amh.
-	Sir Gaerfyrddin	Gwastraff bwyd yn cael ei gludo i safle CWM Environmental Ltd Nant-y-caws lle caiff ei drosglwyddo i AD oddi ar y safle	Defnydd o Gynllun y Sector Preifat: Yn cael ei brosesu ar hyn o bryd gan AD yng nghyfleusterau Severn Trent Green Power ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Wallingford a Cassington	Amh.
-	Castell-nedd Port Talbot	Gwastraff bwyd yn cael ei gludo i gyfleuster gwastraff y Cyngor yn Nhwyni Crymlyn, lle caiff	Yn defnyddio'r cyfleuster presennol yn Nhwyni Crymlyn yn CNPT i drosglwyddo. Mae	Amh.

		ei drosglwyddo i AD oddi ar y safle	triniaeth yn amodol ar gontractau 'off-take'. Ar hyn o bryd yn cael ei brosesu gan AD mewn cyfleusterau Biogen amrywiol gan gynnwys y cyfleuster ym Mryn Pica mewn ALL cyfagos, RhCT.	
	Sir Benfro	Gwastraff bwyd yn cael ei drosglwyddo i AD oddi ar y safle	Yn cael ei brosesu ar hyn o bryd gan AD yng nghyfleuster Severn Trent Green Power ym Mhen-y-bont ar Ogwr.	Amh.

Ffynhonnell: gwybodaeth wedi'i darparu gan yr awdurdodau lleol unigol

Asesu'r angen presennol am Driniaeth Gwastraff Bwyd

5.16 Gyda'r rhan fwyaf o'i wastraff bwyd yn cael ei reoli ar hyn o bryd mewn un cyfleuster y tu hwnt i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru (ond yn agos ato), mae angen codi'r cwestiynau a ganlyn:

- A oes angen am unrhyw gyfleusterau newydd o fewn y rhanbarth?
- A fyddai digon o gapasiti mewnbyn i gynnal unrhyw gyfleusterau newydd, neu a fyddai angen dod o hyd i wastraff bwyd o'r tu allan i'r rhanbarth?

5.17 Gellid ystyried bod mewnfario gwastraff o'r tu allan i'r rhanbarth yn groes i'r egwyddorion cynaliadwyedd, megis yr egwyddor agosrwydd, sy'n rhan o Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Ymhellach, gellid dadlau bod cynlluniau lluosog yn ymwneud â chontractau gyda chwmnïau neu awdurdodau lleol y tu hwnt i'r rhanbarth yn groes i nod cychwynnol LIC o sefydlu canolfan gaffael yn cynnwys yr holl awdurdodau o fewn rhanbarth.

5.18 Yn seiliedig ar y tri rhanbarth yng Nghymru yn TAN 21 (Gogledd, De-ddwyrain a De-orllewin Cymru), amcangyfrifodd y CIMSP (2010) y byddai angen rhywbeth rhwng 400,000 a 494,000 tonnall o gyfanswm capasiti trin gwastraff bwyd erbyn 2024/25. Fel cymhariaeth ddangosol, defnyddir y ffigurau ar gyfer De-orllewin Cymru yma. Yn seiliedig ar y dybiaeth y gellir yn rhesymol gymhwyso'r rhaniad canrannol o sgil-gynhyrchion gwastraff bwyd ledled Cymru (De-orllewin Cymru 20% o gyfanswm y sgil-gynhyrchion gwastraff bwyd) i'r elfen weddilliol, byddai'n trosi'n ofyniad capasiti ar gyfer gwastraff bwyd gweddilliol a gesglir gan

awdurdodau lleol rhwng 38,400 a 47,400 o dunelli yn Ne-orllewin Cymru, gyda 28,800 - 35,560 o dunelli pellach ar gyfer masnachol. Fodd bynnag, amcangyfrifon yw'r rhain, ac fel y nodir uchod, ychydig o ddata cyfredol sydd ar sgil-gynhyrchion gwastraff bwyd o bob sector, ac eithrio'r symiau blynyddol a gesglir gan awdurdodau lleol ar gyfer compostio.

5.19 Cyhoeddir y symiau gwirioneddol o wastraff bwyd awdurdodau lleol a gesglir i'w gompostio bob blwyddyn ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod unedol (gweler Tabl 43 isod ar gyfer y rheini yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru).

Tabl 43 Symiau o wastraff bwyd awdurdod lleol a gasglwyd i'w compostio

Awdurdod	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22
Powys	4,285	5,308	5,617	5,516	5,644	5,933	6,342	6,342
Sir Gaerfyrddin	7,673	7,909	2,840	6,630	7,074	8,342	9,970	9,550
	cymysg gardd a bwyd	cymysg gardd a bwyd						
Ceredigion	2,663	2,653	2,667	2,606	2,779	3,228	3,644	3,651
Sir Benfro	4,815	4,882	4,925	5,036	5,353	7,161	8,702	8,435
Castell-nedd Port Talbot	4,475	4,798	5,135	5,089	5,177	5,822	6,557	6,257
Abertawe	9,560	10,142	10,596	11,702	12,343	13,935	15,038	14,695
Cyfanswm Canolbarth a De-orllewin Cymru	33,471	35,692	31,780	36,579	38,370	44,421	50,253	48,930

Ffynhonnell: StatsCymru, Gwastraff blynyddol a gesglir i'w aildddefnyddio/ailgylchu/compostio (tunelli) yn ôl deunydd a ffynhonnell

5.20 Mae'r symiau o wastraff bwyd awdurdodau lleol a gesglir i'w gompostio wedi bod yn cynyddu'n gyffredinol, gyda'r ffigur a adroddwyd yn fwyaf diweddar ychydig dan 49,000 tonnelli. Mae'r ffigur hwn yn agos i'r ystod a nodwyd ym mharagraff 5.18 uchod yn ymwneud â'r capasiti trin gwastraff bwyd amcangyfrifedig ar gyfer LACW y byddai ei angen ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru erbyn 2024/25. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys y capasiti ychwanegol y gallai fod ei angen ar gyfer gwastraff I&C diwydiannol a masnachol.

5.21 Er gwaethaf y diffyg data cyfredol ar faint o wastraff bwyd a gynhyrchir yn flynyddol (o ran pob sector gwastraff bwyd), yr hyn sy'n glir o'r wybodaeth yn Nhabl 40, a'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol unigol (Adran 6, isod), yw bod contractau ar waith i ymdrin â llawer o wastraff bwyd awdurdodau lleol a gynhyrchir yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru a llawer o hyn yn cael ei drin gan un cyfleuster preifat [neu eraill sy'n eiddo i'r un cwmni] - Cyfleuster AD Severn Trent Green Power ger Pen-y-bont ar Ogwr. Hefyd mae'n werth nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cymeradwyo newidiadau i'r cyfleuster treulio anaerobig ger Pen-y-bont ar Ogwr i ganiatáu cynnydd yn y tunelli o wastraff bwyd a dderbynnir ar y safle i 95,000 t/yf.

5.22 Mae'n amlwg y darperir ar gyfer anghenion presennol gwastraff bwyd a gesglir gan awdurdodau lleol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, gydag awdurdodau lleol yn aml yn ymgymryd â chontractau hirdymor. O ran y gofyniad posibl yn y dyfodol am gyfleusterau treulio anaerobig newydd yn y rhanbarth, byddai angen felly i unrhyw gwmni a allai ystyried opsiynau o'r fath ymchwilio i weld a fyddai digon o ddeunydd yn y rhanbarth i wneud y cynnig yn bosibl, gan ganolbwyntio o bosibl ar ffynonellau posibl eraill o'r fath fel gwastraff bwyd megis o'r sectorau diwydiannol a masnachol. Fodd bynnag, byddai sefydlu cyfleuster newydd a dod o hyd i wastraff o'r tu allan i'r rhanbarth yn mynd yn groes i egwyddorion TAN 21.

6.0 AWDURDOD LLEOL: CYNLLUNIAU PRESENNOL A RHAGLENNI CAFFAEL ARFAETHEDIG

6.1 Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i darparu gan gydweithwyr yn y chwe awdurdod lleol sy'n rhan o ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru ac o ganlyniad mae'n amrywio o ran ei chwmpas a'i manylion. Nid oes gan awdurdodau parciau cenedlaethol gyfrifoldebau mewn perthynas â chasglu a gwaredu gwastraff (TAN 21 para 1.7), felly nid yw'r ddau barc cenedlaethol sydd wedi'u lleoli o fewn (neu'n rhannol o fewn) ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi'u cynnwys yn yr adran hon.

CYNGOR SIR PENFRO (CSP)

Rhaglen Gaffael Gyfredol ac Arfaethedig:

6.2 Sylwer: CSP yw'r awdurdod casglu gwastraff ar gyfer y Sir gyfan, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Cynllun Ymyl y Ffordd

6.3 Mae CSP yn ei phedwaredd blwyddyn o Newid Gwasanaeth, sef casgliad gweddilliol bob 3 wythnos a chasgliad ailgylchu didoli ymyl y ffordd wythnosol.

Ailgylchu

6.4 Ar ôl gweithredu'r newidiadau gwastraff ym mis Tachwedd 2019, symudodd y Gwasanaeth Casglu Ailgylchu Ymyl y Ffordd i wasanaeth ailgylchu didoli ymyl y ffordd wythnosol. Mae hyn yn cynnwys casgliadau wedi'u gwahanu o wydr, gwastraff bwyd, cardbord, papur, batris cartref a chasglu pecynnau bwyd a diod metel cymysg (h.y. caniau, tuniau, ffoil a hambyrddau ffoil), poteli plastig cymysg, potiau, tybiau a hambyrddau a chartonau bwyd a diod.

6.5 Mae'r deunyddiau hyn yn cael eu pentyrru yng Ngorsaf Trosglwyddo Gwastraff Dros Dro CSP ym Mhorthladd Penfro, cyn eu cludo i gyfleusterau ailgylchu ledled Cymru a'r DU. Mae'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff yn gyfleuster dros dro oherwydd cynlluniau datblygu ar gyfer y Porthladd o amgylch Ynni Morol a Bargaen Ddinesig Bae Abertawe.

6.6 Mae CSP bellach wedi sicrhau cynllunio ar gyfer gorsaf drosglwyddo newydd ar gyfer y tymor hir, sef Parc Eco ar gyrion Aberdaugleddau. Bydd y cyfleuster yn galluogi deunyddiau a gesglir ar draws Sir Benfro i gael eu swmpio, eu didoli a'u storio cyn eu trosglwyddo ymlaen i gyfleusterau prosesu a gwaredu ledled Sir Benfro. Dechreuodd y gwaith ar gyfer y Parc Eco ar ddiwedd mis Chwefror 2023, gyda'r bwriad o'i wneud yn gwbl weithredol erbyn Mehefin 2024. Mae'r Parc Eco newydd wedi'i ddylunio gyda chanolfan ymwelwyr ac addysg ar gyfer ymgysylltu'n barhaus â thrigolion, busnesau lleol, ysgolion a'r gadwyn gyflenwi a bydd yn llwyfan ar gyfer hyrwyddo'r angen parhaus i gael deunyddiau o ansawdd da i gefnogi'r economi gylchol yng Nghymru.

6.7 Ers y newid yn 2019, mae gan y gwasanaeth nifer fach o eiddo a oedd yn parhau i fod ar wasanaeth ailgylchadwy cymysg, o gasgliadau ailgylchu bwyd a gwydr ar wahân a chasgliad bagiau ailgylchu cymysg sych (Oren) - adlewyrchir hyn ar gyfer casgliadau masnachol. Fodd bynnag, ers yr amser hwn, mae adolygiad wedi'i gynnal ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol i'r eiddo hyn er mwyn symud i gasgliadau ailgylchu wedi'u gwahanu yn y tarddiad yn unol â Deddf yr Amgylchedd a'r dull casglu a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, a'r rheoliadau ailgylchu busnes disgwylidig sydd i'w cyflwyno yn 1 Hydref 2023. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar symud blociau o fflatiau llai i'r cynllun didoli ymyl ffordd gyda'r opsiwn o ddefnyddio'r cit ymyl ffordd presennol, bagiau *quad* neu fframweithiau ailgylchu pwrpasol ar gyfer gwahanu cymunedol yn y tarddle yn amodol ar argaeledd lle. Rydym yn rhagweld y bydd yn cael ei gyflwyno i'r fflatiau mwy o faint yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

6.8 Mae'r swm bach o ailgylchu cymysg sych (bagiau oren ac ailgylchu masnachol) a gesglir yn cael ei brosesu ar hyn o bryd gan CWM Environmental Ltd, Caerfyrddin.

6.9 Ynghyd â'r Newid Gwasanaeth yn 2019, mae'r gwasanaeth hefyd wedi gweithredu gwasanaeth casglu cynhyrchion hylendid amsugol (AHP) o ymyl y ffordd bob pythefnos ar gyfer aelwydydd sydd wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth. Mae'r deunydd hwn yn cael ei benthyrru yn Sir Benfro cyn ei gludo ymlaen i NappiCycle yn Rhydaman, Sir Gaerfyrddin i'w brosesu a'i ailgylchu.

Canolfannau Ailgylchu a Gwastraff y Cartref

6.10 Mae gan yr Awdurdod 6 chanolfan ailgylchu a gwastraff. Mae pob safle'n cynnig y gyfres nodweddiadol o ddarpariaeth ailgylchu ar wahân sy'n gyffredin i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, gyda mân wahaniaethau rhwng safleoedd. Mae cynllun o bob safle, sy'n nodi lleoliad pob sgip (er mwyn i bobl lwytho eu ceir yn unol â hynny cyn eu hymweliad), ar gael i'w weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor.

6.11 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae CSP wedi buddsoddi'n helaeth yn y canolfannau hyn drwy eu huwchraddio i gynnwys mwy o ffrydiau gwastraff a hefyd drwy hyfforddiant dwys i staff.

6.12 Mae pob safle ar gau am 2 ddiwrnod yr wythnos yn ystod misoedd y gaeaf, ond mae dyddiau cau yn amrywio i sicrhau bod rhai safleoedd ar agor bob dydd.

Gwastraff Bwyd

6.13 Mae CSP yn rhan o ganolfan ranbarthol sy'n cynnwys tri awdurdod lleol, gan gynnwys Ceredigion a Phowys. Mae'r contract gyda Severn Trent Green Power, sy'n prosesu'r deunydd yn eu cyfleuster Treuliwr Anaerobig yn Stormy Down, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r gwastraff bwyd yn cael ei benthyrru yn gyntaf yng Ngorsaf Trosglwyddo Gwastraff CSP ym Mhorthladd Penfro cyn ei gludo ymlaen i'r cyfleuster Treulio Anaerobig.

Gwastraff gweddilliol

6.14 Symudodd y casgliadau i sail gyfyngedig o 3 bag llwyd a ddarperir gan y Cyngor yn cael eu casglu bob tair wythnos. O Ebrill 2023 ni fydd bagiau llwyd yn cael eu darparu i aelwydydd. Yna caiff y deunydd hwn ei benthyrru yng nghyfleuster trosglwyddo gwastraff interim CSP ym Mhorthladd Penfro. Caiff y gwastraff gweddilliol hwn ei contractio i Viridor yn eu cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni (EfW) ym Mharc Trident, Caerdydd. Dechreuodd y contract hwn ar 12/12/18 am 8 mlynedd gyda'r opsiwn i ddod i ben ar ôl 5 mlynedd gyda 6 mis o rybudd.

6.15 Mae gwastraff gweddilliol swmpus, sy'n anaddas i'w drin drwy Droï Gwastraff yn Ynni, yn cael ei dirlenwi ar Safle Tirlenwi Withy hedge, ac mae'r contract hwn ar waith ar hyn o bryd tan 31 Mai 2024. Mae'r contract hefyd yn cynnwys trefniant wrth gefn ar gyfer gofynion cynyddol ar gyfer tirlenwi h.y. yn ystod cyfnodau cynnal a chadw EfW ac ar gyfer pentyrru deunyddiau gweddilliol ac ailgylchu os oes angen.

Gwastraff gwyrdd

6.16 Mae CSP yn gweithredu gwasanaeth casglu gwastraff gardd y codir tâl amdano o ymyl y ffordd rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd. Mae'r deunydd hwn ar ôl cael ei gasglu o gartrefi ar draws Sir Benfro gan CSP yn cael ei brosesu a'i ailgylchu yn Safle Tirlenwi Lawrence, Hwlfordd.

Tracio Gwastraff yn Ddigidol o'i Gasglu i'w Waredu

6.17 CSP yw'r awdurdod cyntaf yng Nghymru i drosglwyddo draw i System Rheoli Data Gwastraff Opensky. Ateb digidol i hwyluso tracio gwastraff o'i gasglu i'w waredu, gyda chanlyniadau tracio cywir at ddibenion adrodd, cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae hon yn system unigryw bwrpasol sy'n caniatáu casglu, trawsnewid, rheoli ac adrodd data ynghylch symud gwastraff, o'i gasglu i'w waredu ar un llwyfan digidol.

Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

6.18 Yn dilyn cyflwyno'r gwasanaeth ailgylchu a gwastraff domestig newydd ym mis Tachwedd 2019, Sir Benfro bellach yw prif ailgylchwr Cymru. I gefnogi'r gwasanaeth casglu ymyl y ffordd, fel y nodwyd uchod, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu cyfleuster interim ym Mhorthladd Penfro (Unedau 29 a 41). Fodd bynnag, oherwydd natur dros dro y cyfleuster, cynlluniau'r safle ar gyfer y dyfodol, ac er mwyn caniatáu i'r Cyngor barhau i gynyddu gallu ailgylchu ymhellach, cafodd tir ei glustnodi ar safle ar gyrion canolfan Puma Energy ger Aberdaugleddau, fel safle addas ar gyfer Parc Eco parhaol ar gyfer Sir Benfro. Mae pedwar cam cyntaf y parc eco wedi cael caniatâd cynllunio, yn cynnwys cyfleuster trosglwyddo ailgylchu, ardal parcio cerbydau a pharcio i staff, cyfleuster ailgylchu a gwastraff gweddilliol, a chyfleuster gwastraff ac ailgylchu hygyrch i'r cyhoedd.

6.19 Mae'r datblygiad arfaethedig yn hanfodol i sicrhau y gall y Cyngor barhau i ddarparu'r gwasanaethau statudol sy'n ymwneud â Chasgliadau Gwastraff ac Ailgylchu ledled Sir Benfro. Bydd y cyfleuster yn galluogi deunyddiau a gesglir ledled Sir Benfro i gael eu pentyrru, eu didoli a'u storio cyn eu trosglwyddo i gyfleusterau prosesu a gwaredu ledled Cymru a'r DU. Bydd y safle arfaethedig nid yn unig yn diogelu'r cyfleuster gwastraff at y dyfodol ond bydd yn y pen draw yn caniatáu i'r trefniadau dros dro yn lard Longau Penfro i gael eu cwblhau a chyfleuster ailgylchu Winsel i gael ei gau.

CYNGOR SIR CEREDIGION

Rhaglen Gaffael Gyfredol ac Arfaethedig:

Gwastraff Bwyd

6.20 Cesglir gwastraff bwyd ar wahân bob wythnos a chynigir y gwasanaeth hwn hefyd ar draws y sir. Caiff y gwastraff bwyd ei drin gan Dreuliad Anaerobig o dan gontract gyda Severn Trent Green Power Ltd (a gaffaelir yn rhanbarthol gan Bartneriaeth Gwastraff Canolbarth Cymru). Dechreuodd y contract yn 2012, am dymor o 15 mlynedd. Mae'r deunydd yn mynd i gyfleuster Treuliwr Anaerobig STGP yn Stormy Down, Pen-y-bont ar Ogwr.

Gwastraff gweddilliol

6.21 Mae hwn yn cael ei gasglu bob 3 wythnos ar hyn o bryd. Mae'r gwastraff hwn yn cael ei drin ar hyn o bryd drwy Droï Gwastraff yn Ynni.

Cynlluniau ymyl y ffordd a safleoedd dod â gwastraff

6.22 Mae ailgylchu ymyl y ffordd yn cael ei gynnig i 100% o gartrefi a chwsmeriaid masnachol. Cesglir ailgylchu sych (papur, cerdyn, caniau a phlastig) yn wythnosol wedi'i gymysgu mewn sachau a'i ddioli mewn MRF. Cesglir poteli a jariau gwydr ar ymyl y ffordd bob 3 wythnos.

6.23 Cesglir gwastraff gardd ar gais (bob pythefnos ar y mwyaf) a chodir tâl am y gwasanaeth hwn.

6.24 Mae pedwar Safle Gwastraff Cartref yn cynnig cyfleusterau ailgylchu ar gyfer ystod eang o fathau o ddeunyddiau.

Darpariaeth yn y Dyfodol

6.25 Gellir datblygu cyfleusterau troi gwastraff yn ynni a threulio anaerobig preifat, ond byddant fel arfer ar raddfa fach – e.e. yn gwasanaethu ffatrioedd neu ffermydd unigol. Mae CDLI Ceredigion yn nodi safle ar gyfer cyfleuster gwastraff rhanbarthol yng Nglan-yr-Afon, Aberystwyth. Nid oes angen y safle hwn bellach i wasanaethu fel safle posibl ar gyfer lleoliad cyfleuster gwastraff rhanbarthol, fodd bynnag mae'n bosibl y bydd yn dal yn ofynnol iddo fodloni unrhyw ofyniad lleol y gallai fod ar gyfer cyfleusterau adfer adnoddau a rheoli gwastraff.

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Proffil Gwasanaeth Gwastraff

6.26 Mae'r Adain Wastraff wedi'i lleoli yng Nghaerfyrddin ac yn cael ei harwain gan y Pennaeth Gwastraff a Gwasanaethau Amgylcheddol ac mae'n cynnwys pedair adain, Strategaeth a Pholisi Gwastraff, Gwastraff Gweithredol, Glanhau a Chynnal a Chadw Tiroedd a Gorfodi Materion Gwastraff.

6.27 Mae Sir Gaerfyrddin yn darparu casgliad wythnosol ymyl y ffordd o wastraff bwyd a deunydd ailgylchu sych cymysg gyda chasgliad bob tair wythnos o wastraff gweddilliol bag du o ymyl y ffordd a gwydr yn cael ei gynnwys mewn bocs wrth ymyl y ffordd. Mae'r cerbydau yn y fflyd yn casglu ffrydiau deuol ar gyfer deunydd ailgylchu sych a chasglu bwyd o ymyl y ffordd gyda'r bwyd mewn podiau wedi'u gwahanu wrth y bagiau ailgylchu. Mae cerbydau pwrpasol ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol a deunydd ailgylchu ar wahân.

6.28 Mae Cerbydau Casglu Gwastraff y Cyngor yn gadael gwastraff a gesglir yn eu rowndiau dyddiol yn y depo/mannau pentyrru a ganlyn:

Caerfyrddin – cyfleuster Nant-y-caws

Llanelli – cyfleuster Trostre

Rhydaman – cyfleuster Wern-ddu

Llain 15 (Gwydr yn unig) – Ystad Ddiwydiannol Trostre

6.29 Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o contract rhanbarthol ar gyfer ailgylchu tecstilau a'r cyfryngau drwy Wilcox a Goldstone Books a WEEE a batris cartref drwy ERP.

Ailgylchu o Ymyl y Ffordd a Chasgliadau Gweddilliol

6.30 Mae'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth ailgylchu bagiau glas cymysg, a gesglir bob wythnos gyda gwastraff bwyd, a sachau du gweddilliol a jariau a photeli gwydr a gesglir bob tair wythnos. Mae lwfans o dri bag du fesul casgliad. Ar gyfer y rhai sydd angen eithriadau h.y. teuluoedd o chwech neu fwy ac amgylchiadau arbennig, rhaid i breswylwyr wneud cais trwy ffurflen ar-lein a chyflwyno cais sydd wedi'i brosesu a'i awdurdodi, sy'n caniatáu defnyddio hyd at un bag du ychwanegol a rhaid cael sticer eithrio i nodi'r bag ychwanegol. Mae hawl gan breswylwyr sydd â gwastraff lludw i gael faint fynnon o fagiau gweddilliol du, ond mae'n rhaid taw dim ond lludw sydd yn y rhain ac mae'n rhaid bod sticer ar bob un. Mae CWM Environmental Ltd yn gwmni Teckal ac yn eiddo i Gyngor Sir Gaerfyrddin. Maent yn byrnu deunyddiau i'w hailbroseu, gyda gwastraff gweddilliol y Sir yn cael ei anfon i gyfleusterau troi gwastraff yn ynni (EFW) yn Ewrop a'r DU ac ychydig bach yn cael ei dirlenwi mewn mwy o safleoedd tirlenwi lleol. Ar hyn o bryd mae'r deunyddiau ailgylchu bagiau glas yn cael eu trosglwyddo i gyfleusterau didoli yn Iwerddon a'u gwerthu i weithfeydd ailbroseu yn y DU, gwledydd Ewropeaidd a gwledydd nad ydynt yn Ewropeaidd.

6.31 Yn ogystal â chasglu deunydd ailgylchu sych, bwyd, gwydr a gwastraff gweddilliol o ymyl y ffordd, mae'r awdurdod hefyd yn casglu nwyddau hylendid amsugol a gwastraff cewynnau, a hynny bob pythefnos mewn bagiau porffor. Mae hwn yn wasanaeth rhad ac am ddim a gall preswylwyr roi'r bagiau hyn allan i'w casglu ar ddiwrnodau penodol. Hefyd mae'r awdurdod yn casglu gwastraff gwyrdd o whilfiniau 240 litr, ond codir tâl blynyddol am y gwasanaeth hwn.

6.32 Yn ystod yr hydref a'r gaeaf, bydd pob cartref yn Sir Gaerfyrddin yn derbyn tri rholyn o fagiau ailgylchu glas. Mae hyn yn cyfateb i 156 o fagiau, sef cyfartaledd o chwe bag fesul wythnos gasglu. Gan fod nifer y bagiau glas y gellir eu cyflwyno yn ddiderfyn, gall trigolion ymweld â mannau casglu dynodedig i gael mwy o fagiau glas. Mae'r dosbarthiad blynyddol yn darparu gwasanaeth mwy hygrych, gyda bagiau'n cael eu dosbarthu i gartrefi yn hytrach na bod preswylwyr yn gorfod eu casglu. Mae hyn yn galluogi'r preswilydd i ailgylchu mwy a lleihau'r gwastraff bagiau du gweddilliol. Mae gan y Cyngor 17 o siopau sy'n cadw bagiau glas

ac sydd wedi'u rhestru ar wefan yr awdurdod. Mae lleoli'r bagiau mewn lleoliadau fel siopau yn caniatáu i drigolion gael mwy os oes angen wrth wneud eu siop groser ac yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Darperir darpariaethau ychwanegol hefyd gan y gwasanaeth dosbarthu i gynorthwyo'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ neu'n cysgodi.

Casgliad gwastraff bwyd cartref

6.33 Mae preswylwyr yn cael cadi cegin brown 5 litr am ddim a bin gwyrdd ymyl y ffordd 23 litr ar gyfer y casgliad wythnosol o fwyd. Darperir cynwysyddion newydd am ddim ar gais. Mewn lleoliadau penodol, darperir leinin 'goroesi' compostiadwy ar gyfer y bin ymyl y ffordd gwyrdd 23-litr yn rhad ac am ddim i ganiatáu ar gyfer casgliad cymysg ar gerbyd cawell 3.5t. Mae cartrefi sy'n cael eu gwasanaethu gan y cerbyd cawell 3.5t hefyd yn derbyn cyflenwad blwyddyn o leininau compostiadwy 30 litr mwy a 7 litr llai ynghyd â bagiau glas. Mae'r bagiau 7 litr yn cael eu dosbarthu fel y bagiau ailgylchu mewn pecyn o dri rholyn sy'n cynnwys 156 o fagiau, gyda darpariaeth o tua thri yr wythnos ar gyfartaledd. Mae deiliaid tai sydd hefyd yn derbyn y bagiau 30 litr yn derbyn dau rolyn sy'n cynnwys 52 bag. Gellir cael leinin ychwanegol mewn mannau gwerthu a thrwy ein gwasanaeth dosbarthu sy'n dosbarthu i gartrefi unigol pan fo angen.

6.34 Cludir gwastraff bwyd naill ai i Wernddu, Trostre a Nant-y-caws. Mae Wern-ddu a Throstre yn gyfleusterau pentyrru ac yna caiff y bwyd ei gludo i CWM Environmental yn safle Nant-y-caws, lle caiff ei drosglwyddo oddi ar y safle i weithfeydd Treulio Anaerobig Severn Trent Green Power ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Wallingford a Cassington.

Casgliad gwastraff gardd y cartref

6.35 Mae'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth bin gwastraff gardd bob pythefnos, y codir tâl amdano. Gwelwyd cynnydd yn nifer y cwsmeriaid gwastraff gardd yn nhymor 2021 oherwydd y cyfyngiadau gyda phandemig Covid-19. Fodd bynnag lliniarwyd ar hyn i ryw raddau trwy agor y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig a chael gwared ar wastraff gwyrdd yn y cyfleusterau hyn. Mae'r cwstwm o ran gwastraff gardd wedi aros yn eithaf cyson ers diwedd y pandemig. Mae cwsmeriaid gwastraff gardd wedi tanysgrifio i brynu un neu fwy o finiau gwastraff gardd 240 litr ar gyfer y tymor.

6.36 Mae cartrefi'n parhau i gael eu hannog i gompostio gartref trwy brynu bin compost am £13 (o Ebrill 1) neu fynd â'r gwastraff gardd i'w HWRC lleol lle bo modd. Mae'r gwastraff gardd yn cael ei brosesu yn Nant-y-caws trwy res gompostio CWM Environmental a'i roi mewn bag i gompost Hud Myrddin neu gyflyrydd pridd.

Casglu Gwastraff Hylendid a Chlinigol

6.37 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff hylendid o ymyl y ffordd (Categori E) i tua 1,800 o drigolion ledled y Sir. Mae'n rhaid i drigolion danysgrifio i'r gwasanaeth rhad ac am ddim hwn, sy'n cael ei drin yn y cyfleuster Nappicycle yng Nghapel Hendre. Hefyd mae darpariaeth ar gyfer casglu a thrin y deunydd hwn o gartrefi gofal y Cyngor, ei ganolfannau dydd a'i sefydliadau addysg sy'n darparu ar gyfer anghenion arbennig. Cyflawnir cyfradd ailgylchu o dros 50% yn bennaf trwy ffibrau a hylifau cellwlos wedi'u hadfer. Mae'r gweddill yn cael ei anfon fel tanwydd o sbwriel i weithfeydd troi gwastraff yn ynni yn Ewrop.

6.38 Darperir casgliadau gwastraff clinigol (Categoriâu A-D) gan y gwasanaeth GIG lleol, sydd wedi'i contractio i Natural UK, sydd wedi'i leoli yn yr un safle â Nappicycle

Casgliad gwastraff swmpus o gartrefi

6.39 Mae ein staff casglu gwastraff swmpus o gartrefi yn casglu hyd at dair eitem o ddodrefn neu WEEE o gartrefi trigolion am ffi. Gall preswylwyr drefnu casgliad trwy gysylltu â Galw Sir Gâr, Tîm y Ganolfan Gyswilt i drafod eu gofynion neu drwy'r wefan. Ar ôl derbyn taliad, rhoddir dyddiad casglu i breswylwyr trwy'r system archebu electronig.

6.40 Fel opsiwn cyntaf mae Galw Sir Gâr yn hysbysu trigolion o sefydliadau elusennol sy'n gallu darparu gwasanaeth casglu am ddim neu ffi lai er mwyn gallu ailddefnyddio eitemau yn unol â'r hierarchaeth wastraff. Mae sefydliadau ailddefnyddio hefyd wedi'u rhestru ar yr adran gwastraff swmpus ar y tudalennau gwe gwastraff/ailgylchu.

6.41 Maent hefyd yn gwasanaethu'r 13 banc WEEE bach sydd wedi'u lleoli mewn cyfran o safleoedd dod â gwastraff y Sir lle mae'r peiriannau domestig bach (SDA) unwaith y cânt eu casglu yn cael eu hanfon i'w prosesu fel rhan o contract WEEE rhanbarthol trwy ERP. Goruchwylir y contract gan Grŵp Rhanbarthol CLAIRE Cymru.

Casglu gwastraff masnach

6.42 Mae CWM Environmental Ltd yn casglu gwastraff masnach a hefyd yn trefnu'r gweinyddu. Nid yw'r Cyngor bellach yn darparu gwasanaeth gwastraff masnachol yn fewnol ond bydd yn cynorthwyo unrhyw eiddo masnachol ar gyngor a chymorth ar gyfer gwaredu gwastraff masnachol i gael cytundebau yn unol â chanllawiau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC)

6.43 Mae Cwm Environmental Ltd, ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin, yn gweithredu 4 HWRC yn y Sir.

6.44 Ar hyn o bryd mae'r pedwar safle yn gweithredu ar berfformiad ailgylchu cyfunol o 75%. Mae pob safle'n cynnig y gyfres nodweddiadol o ddarpariaeth ailgylchu ar wahân sy'n gyffredin i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, gyda mân wahaniaethau rhwng safleoedd. Mae asbestos wedi'i fondio â sment a bwrdd plastr hefyd yn cael eu derbyn ond mewn symiau cyfyngedig

6.45 Codir tâl am boteli nwy, diffoddyddion tân a theiars – nid yw Wernddu yn derbyn diffoddyddion tân na photeli nwy.

6.46 Mae meintiau mwy o fwrdd plastr ac asbestos bond sment yn cael eu derbyn dros y bont bwyso yn Nant-y-caws a chodir ffi waredu briodol ar y preswilydd.

6.47 Mae newidiadau o bwys wedi bod i'r modd mae'r safleoedd yn cael eu gweithredu oherwydd pandemig Covid-19. Cafodd y safleoedd eu cau ar ddechrau 2020 oherwydd y cyfnod clo ac i gydymffurfio â chanllawiau LIC ar iechyd y cyhoedd a chadw pellter

cymdeithasol. Cafodd system apwyntiadau ar sail TG ei chyflwyno pan ddaeth y cyfnod clo cyntaf i ben ar 26 Mai 2020. Fodd bynnag, mae'r drefn hon wedi gorffen bellach ac mae'r gwiriadau preswyllo a'r didoli bagiau du wedi ailgychwyn.

6.48 Mae'r rhain, ynghyd â thrwyddedau ar gyfer rhai cerbydau wedi bod yn fenter gadarnhaol a roddwyd ar waith ar ddechrau 2019 (er bod bwch wedi bod yn ystod y pandemig) i annog rhagor o ailgylchu gwastraff domestig a defnydd sirol o'r safleoedd HWRC.

Safleoedd Dod ag Ailgylchu Cymunedol

6.49 Ar hyn o bryd mae Sir Gaerfyrddin yn gweithredu 121 o safleoedd ailgylchu cymunedol ledled y Sir. Arweiniodd adolygiad o'r safleoedd dod â gwastraff yn 2020/21 at symud banciau papur a chaniau o'r safleoedd ailgylchu cymunedol gan y gallai'r rhain gael eu rhoi yn y bagiau ailgylchu glas ymyl y ffordd bob pythefnos. Gall safleoedd amrywio o ran y ffrydiau ailgylchu y maent yn eu cynnig megis gwydr, WEEE, cyfryngau a thecstilau. Ychwanegwyd at y ddarpariaeth banc gwydr ar safleoedd sy'n casglu llawer iawn o dunelli o'r safle bob wythnos er mwyn bodloni gofynion y cymunedau lleol. Cesglir y gwydr gan dimau casglu mewnol y Cyngor h.y. cerbydau casglu pwrpasol ar gyfer y casgliadau o ymyl y ffordd 2 x cerbyd 3 adran, 1 x lori bachyn codi a banciau dod â WEEE yn cael eu casglu gan ein Tîmau Casglu Gwastraff Swmpus. Dosbarthir deunyddiau i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig Trostre/Wernddu a Gorsafoedd Trosglwyddo gyda gwydr yn Llain 15 yn Ystâd Ddiwydiannol Trostre ac yn Nant-y-caws. Cesglir y gwydr gan gludwyr ar ran Recresco ac eir ag ef i'w cyfleuster yng Nghwmbrân. Cesglir canran lai o'r gwydr gan ein lori 'hooklift' ein hunain ar adegau.

Addysg ac Ymwybyddiaeth

6.50 O fewn yr Adain Wastraff mae'r Tîm Addysg ac Ymwybyddiaeth yn cynnig cefnogaeth a chynghor i'r cyhoedd ar y cynllun ailgylchu a gwastraff bwyd cyfun.

6.51 Mae Ymgynghorwyr Ailgylchu Cymunedol yn gweithio yn y gymuned i gynorthwyo trigolion i gael mynediad at yr adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gyfrannu'n llawn at y cynllun ailgylchu ymyl y ffordd a chefnogi unrhyw bryderon ailgylchu pellach sydd ganddynt. Defnyddir technegau newid ymddygiad i annog cymdogion i gymryd rhan fel y rhai ar yr un stryd/yn y gymuned i ailgylchu cymaint o'u gwastraff â phosibl. Mae gwaith adnabod hefyd yn cael ei wneud trwy fonitro a dadansoddi dyddiad tunelledd i adnabod meysydd sydd angen gwybodaeth ychwanegol a chymorth i ddefnyddio'r cynllun ailgylchu ymyl y ffordd. Defnyddir unrhyw themâu cyffredin o arolygon ac ati i ffurfio rhan o'r prosesau wrth symud ymlaen i sicrhau bod ailgylchu mor hawdd â phosibl i bawb gyfrannu.

6.52 Defnyddir cyfryngau cymdeithasol ochr yn ochr â gwefan yr Awdurdod Lleol i hysbysu trigolion am newidiadau i gasgliadau yn ystod y Nadolig a Gŵyl y Banc, oedi oherwydd tywydd gwael ac i hyrwyddo digwyddiadau ailgylchu a datganiadau i'r wasg. Mae ein gwefan yn hyrwyddo'r holl wasanaethau a gynigir gan yr Adain Casglu Gwastraff a gellir gofyn am lawer o wasanaethau, rhoi gwybod amdanynt neu dalu amdanynt ymlaen llaw ar-lein. Mae A-Y cynhwysfawr o swyddogaeth ailgylchu a lleihau gwastraff ychwanegol 'Ewch yr ail filltir' wedi'i ddatblygu i annog trigolion i ailgylchu popeth o fewn eu gallu ac annog lleihau gwastraff yn y lle cyntaf. Dyma oedd un o brif arfau'r Cyngor i gyfathrebu â thrigolion ynghylch y newidiadau newydd i wastraff, ynghyd â theclynnau ar-lein a pheccynnau gwybodaeth copi caled i bob un.

Datblygiadau'r Dyfodol

6.53 Mae'r Awdurdod yn dal i weithio'n agos gyda WRAP Cymru ar y Rhaglen Newid gydweithredol i ddeall agweddau gweithredu/gwaredu casgliadau a thriniaeth y newid yn y dyfodol i wasanaethau Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth anghenion seilwaith a cherbydau, addewid Carbon Sero Net yn ogystal ag ymdrechu tuag at strategaeth LIC Mwy nag Ailgylchu a'r Economi Gylchol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a bydd yn arwain at ganiatáu i'r Awdurdod gynllunio'n rhannol ar gyfer y newid gwasanaeth yn 2024 pan fydd rhywfaint o'r fflyd o gerbydau sbwriel/ailgylchu yn cyrraedd diwedd y gwasanaeth. Bu i gasgliadau wythnosol o fagiau glas a bwyd, ynghyd â chasgliadau bob tair wythnos o wydr o ymyl y ffordd a bagiau duon ddechrau ar 23 Ionawr 2023. Yn 2024/25 bydd glasbrint LIC o ddidoli ymyl y ffordd yn dechrau gyda chasgliad wythnosol ar wahân o'r holl nwyddau y gellir eu hailgylchu. Ar y pwynt hwn bydd casgliadau gwydr hefyd yn dychwelyd i gasgliadau wythnosol.

6.54 Yn dilyn rownd ariannu cyfalaf Llywodraeth Cymru 2019/2020, daethpwyd â'r casgliad gwastraff hylendid, a gontractiwyd allan yn wreiddiol, yn fewnol yn 2021 gyda'r bwriad o ychwanegu'r casgliad gwastraff cewynnau ymyl y ffordd yng ngwanwyn 2022. Roedd y grant wedi caniatáu prynu pedwar cerbyd AHP a gwaith i sefydlu gwasanaethau cymwysiaid TG a chytundebau triniaeth newydd er mwyn ymgymryd â'r casgliadau yn fewnol. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi trigolion â phlant bach i waredu gwastraff cewynnau o'u bagiau duon, gan ddisodli'r broses sticeri eithrio. Mae bagiau porffor yn cael eu dosbarthu ar gyfer y gwasanaeth a'r casgliadau'n cael eu gwneud bob pythefnos. Mae'r cynnyrch gwastraff yn cael ei gasglu gan yr Awdurdod a'i gludo i NappiCycle yng Nghapel Hendre i'w brosesu a lle gellir ailgylchu canran o'r cynnyrch yn hytrach na phrosesu trwy broses troi gwastraff yn ynni. Mae sefydliadau eraill o fewn yr Awdurdod megis gofal cymdeithasol ac addysg hefyd yn gallu elwa ar y contract hwn gyda Natural UK, a chânt gasgliad wythnosol a thriniaeth o wastraff hylendid gan ddefnyddio bagiau a gaiff eu rhoi mewn whilfiniau.

6.55 Mae trosolwg wedi'i gynnal ar ôl pedwaredd flwyddyn y gwasanaeth gwastraff gardd ac mae pedwerydd cerbyd ychwanegol wedi'i roi ar waith ar gyfer dechrau tymor 2021/2022. Bydd hyn yn caniatáu ehangu'r gwasanaeth ymhellach gan ganiatáu i fwy o gwsmeriaid danysgrifio ac ymuno â'r gwasanaeth taladwy. Yn arwain at ddargyfeirio ychwanegol o wastraff Trefol Bioddiraddadwy o safleoedd tirlenwi i gwrdd â thargedau a gwella cyfraniad deunydd compostadwy i'r targedau canrannol ailgylchadwy.

6.56 Mae grant Economi Gylchol diweddar gan Lywodraeth Cymru a chynigion llwyddiannus wedi galluogi Sir Gaerfyrddin i ddechrau ar ein taith atgyweirio ac ailddefnyddio. Bwriad y cam hwn yw sicrhau y bydd pob cynnyrch y gellir ei ailgylchu yn cael cyfle i ailddefnyddio, gan leihau tunelli gwastraff drwy atgyweirio ac ailddefnyddio. Mae gan y ganolfan yn Nant-y-caws hefyd ganolfan addysg a chynhelir gweithdai i hyrwyddo atgyweirio ac ailddefnyddio o fewn y gymuned fel y dull dewisol cyn ailgylchu a gwaredu yn unol â'r hierarchaeth gwastraff. Mae'r Cyngor hefyd wedi agor siop ailddefnyddio yng nghanol tref Llanelli ym mis Chwefror 2022 sy'n galluogi pobl i brynu eitemau am bris fforddiadwy wrth ailddefnyddio eitem a fyddai wedi cael ei thafu yn y gorffennol.

6.57 Hefyd mae cyfleuster ailgylchu gwastraff masnachol wedi'i ddatblygu yn Nant-y-caws, a agorodd cyn Nadolig 2022. Mae hwn yn canolbwyntio ar ddarparu allfa i sector busnes Sir Gaerfyrddin ar gyfer ailgylchu ac ailddefnyddio eu gwastraff drwy ddidoli a gwahanu gwastraff i'r marchnadoedd adfer ailgylchu priodol i'w ddefnyddio i greu cynhyrchion cynaliadwy gan

weithio tuag at uchelgeisiau economi gylchol Llywodraeth Cymru. Felly, cynyddu faint o ailgylchu sy'n cael ei gasglu o'r sector busnes yn sylweddol a galluogi busnesau yn y gymuned i gymryd camau ar y cyd. Wrth ddarparu'r cyfleuster hwn, mae'r Cyngor yn ceisio creu'r amodau i fusnesau achub ar y cyfleoedd i ailgylchu ac ailddefnyddio mwy o'u gwastraff i leihau eu hól troed carbon a dod yn fwy effeithlon o ran adnoddau. Bydd hyn yn galluogi busnesau lleol i arbed arian ar gostau gwaredu er mwyn dod yn fwy gwydn a chyflawni canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Bydd hefyd yn gyfleuster ar gyfer busnesau pan fydd yn ofynnol iddynt yn ôl y gyfraith i wahanu eu deunydd ailgylchu yn unol â'r sector domestig. Disgwylir i'r ddeddfwriaeth hon ddod yn gyfraith yn Hydref 2023.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT (CBSCPT)

Rhaglen Gaffael Gyfredol ac Arfaethedig:

Cynlluniau Presennol

6.58 Mae strategaeth gwastraff dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn cyd-fynd â Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru cyn belled ag y bo'n diwallu anghenion lleol, a'i nod yw cyflawni targedau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu a chompostio. Bydd y strategaeth yn cael ei chyflawni'n bennaf drwy: ailgylchu ymyl y ffordd; canolfannau ailgylchu a gwastraff y cartref; a thrin gwastraff gweddilliol.

6.59 Mae'r Cyngor yn mynychu cyfarfodydd aelodau cabinet rhanbarthol cyfnodol ar gyfer gwastraff.

Gwastraff Gweddilliol

6.60 Fel rhan o drefniant is-ranbarthol hirsefydlog, mae CNPT a CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn dosbarthu eu gwastraff gweddilliol i gyfleuster gwastraff CNPT yn Nhwyni Crymlyn. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn rhan o Bwyllgor Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru sydd wedi'i ddisodli gan gyfarfod mwy cyffredinol o aelodau cabinet rhanbarthol dros wastraff.

6.61 Mae gwastraff gweddilliol y Cyngor a gesglir wrth ymyl y ffordd yn cael ei gludo i'w gyfleuster yn Nhwyni Crymlyn lle caiff ei drosglwyddo oddi ar y safle i'w drin a'i waredu. Mae'r cyfleuster bellach yn cael ei redeg yn fewnol ac mae'r Cyngor yn defnyddio'r trefniadau tymor byr blaenorol ar gyfer gwaredu i Ynni o Wastraff (EfW) a thirlenwi, cyn cwblhau ei gaffaeliad ei hun.

6.62 Nid oes gan y Cyngor unrhyw gcontractau tirlenwi uniongyrchol, fodd bynnag mae angen tirlenwi o ran gwastraff gweddilliol o ran cyfleusterau wrth gefn (cyfleusterau EfW ar gau ar gyfer cynnal a chadw/atgyweirio ac ati) a rhai elfennau o wastraff dinesig.

Ailgylchu Ymyl y Ffordd

6.63 Mae'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth ailgylchu didoli ymyl y ffordd lle bynnag y bo modd ledled y Fwrdeistref Sirol. Cesglir deunyddiau ailgylchadwy mewn sachau a blychau y gellir eu hailddefnyddio.

6.64 Mae'r Cyngor yn gweithredu casgliad gwastraff gweddilliol bob pythefnos; yn darparu biniau 140 litr i bob cartref ar gasgliadau bin ar olwynion (mae tua 12% o'r Fwrdeistref yn casglu bagiau); ac yn cyfyngu ar wastraff ochr.

6.65 Mae casgliadau gwastraff masnachol, lle mae'r Cyngor yn ymgymryd â nhw, yn cynnwys ailgylchu gorfodol ac yn cynnig casgliadau o'r un deunyddiau ailgylchadwy â'r gwasanaeth domestig.

6.66 Mae deunyddiau ailgylchadwy a gesglir wrth ymyl y ffordd yn cael eu danfon i gyfleuster y Cyngor yn Nhwyni Crymlyn.

6.67 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gwneud trefniadau tymor byr ar gyfer prosesu deunyddiau ailgylchadwy ymlaen yn ôl yr angen er mwyn cynyddu incwm, gan ddefnyddio cyfleusterau trin ac ailbroseu o fewn a thu hwnt i Ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.

Canolfannau Ailgylchu a Gwastraff y Cartref (HWRC)

6.68 Ar hyn o bryd mae dau HWRC yn y Fwrdeistref Sirol a reolir o dan gontractau gan ddarparwr gwasanaeth sector preifat. Mae'r gwaith o broseu neu waredu'r holl ddeunyddiau a gludir i'r canolfannau hyn ymlaen yn cael eu rhoi ar waith gan y contractwr, gan ddefnyddio cyfleusterau trin ac ailbroseu ar hyn o bryd o fewn a thu hwnt i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae'r Cyngor hefyd yn rhannu cyfleuster yng Nghwmtwrch Isaf gyda Chyngor Sir Powys fel rhan o gydweithio.

6.69 Gellir didoli gwastraff cartrefi nad yw'n cael ei gasglu fel rhan o'r gwasanaeth ailgylchu ymyl y ffordd a mynd ag ef i un o'r HWRCau. Er mwyn defnyddio'r cyfleusterau hyn, rhaid i chi fod yn breswlydd yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn ailgylchu neu'n cael gwared ar eich gwastraff cartref eich hun.

6.70 Mae'r Awdurdod yn defnyddio ardaloedd cyflwyno gwastraff ar bob un o'i safleoedd. Cyngorior trigolion i sicrhau nad oes unrhyw ddeunyddiau ailgylchadwy yn eu bagiau du cyn cael gwared arnynt yn y sgipiau gwastraff yn y canolfannau ailgylchu.

Gwastraff Bwyd

6.71 Mae gwastraff bwyd a gesglir wrth ymyl y ffordd yn cael ei gludo i gyfleuster y Cyngor yn Nhwyni Crymlyn lle caiff ei drosglwyddo i'w broseu oddi ar y safle drwy Dreulio Anaerobig, sydd ar hyn o bryd mewn cyfleusterau Biogen amrywiol y tu hwnt i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, gan gynnwys y cyfleuster ym Mryn Pica, mewn awdurdod lleol cyfagos, sef Rhondda Cynon Taf.

Darpariaeth yn y Dyfodol

6.72 Mae CBSCNPT wedi dod â'r cyfleuster gwastraff yn Nhwyni Crymlyn yn fewnol ac mae ar hyn o bryd yn y broses o ailfodelu'r gwaith ac ehangu gweithrediadau ailgylchu:-

- Gwastraff Gweddilliol: O dan y trefniadau newydd bydd y cyfleuster yn gweithredu fel gorsaf drosglwyddo ar gyfer gwastraff gweddilliol yn unig. Mae angen seilwaith oddi ar y safle ar gyfer y driniaeth derfynol neu waredu. Bydd angen i ddarpariaeth seilwaith ystyried anghenion wrth gefn, er enghraifft er mwyn darparu ar gyfer amser segur/glanhau/atgyweirio cyfleusterau EfW.
- Ailgylchu: O dan y trefniadau newydd bydd y cyfleuster yn parhau i weithredu fel gorsaf drosglwyddo ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy ond gyda mwy o gapasiti a chapasiti gwell ar gyfer adfer / mireinio deunyddiau ailgylchadwy a gesglir o ymyl y ffordd. Bydd angen o hyd am seilwaith oddi ar y safle i gyflawni ailgylchu dolen gaeedig o dan yr economi gylchol.

6.73 Un o'r wyth prif gam gweithredu yn nogfen strategaeth economi gylchol Llywodraeth Cymru *Mwy nag Ailgylchu*, yw lleihau effaith amgylcheddol y gwaith casglu gwastraff. Ar ôl ymgynghori â'r gweithlu a chael cymeradwyaeth yr Aelodau, mae CBSCNPT ar hyn o bryd yn llunio dyluniadau i gyd-leoli'r gwaith casglu ar safle Twyni Crymlyn lle bydd yr hen gysylltiad grid Gwastraff i Ynni (WtE) yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwefru HGV eV.

6.74 Mae strategaeth wastraff gyffredinol y Cyngor yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, a disgwylir penderfyniad gan yr Aelodau yn Ebrill 2023

DINAS A SIR ABERTAWE

Rhaglen Gaffael Gyfredol ac Arfaethedig:

Cynlluniau Presennol

6.75 Cesglir deunyddiau ailgylchadwy o ymyl y ffordd bob wythnos. Mae gwastraff bwyd hefyd yn cael ei gasglu bob wythnos. Cesglir deunydd ailgylchu cymysg sych ar wythnosau amgen, h.y. bagiau gwyrdd (caniau, gwydr, papur ar wahân a cherdyn) un wythnos gyda bagiau pinc (plastig) yr wythnos ganlynol. Cesglir gwastraff gardd mewn sachau amlbro ar yr un wythnos â'r bagiau gwyrdd. Cesglir gwastraff gweddilliol mewn bagiau du ar yr un wythnos â'r bagiau pinc. Mae casglu o ymyl y ffordd yn ymestyn i 100% o gartrefi'r Sir.

Gwastraff gweddilliol

6.76 Mae gwastraff gweddilliol (bag du) yn cael ei gludo i ddau contractwr Ynni i Wastraff. Mae un contractwr yn Abaty Nedd a'r ail yn defnyddio safle yn Swydd Bedford yn bennaf. Yn flaenorol roedd y Cyngor yn defnyddio safle tirlenwi Tir John i waredu gwastraff bagiau du. Ar hyn o bryd mae'r safle'n cael ei gapio a'i adfer.

6.77 Mae'r Awdurdod yn parhau i weithredu polisi "Cadw i 3" sy'n gosod terfyn ar wastraff gweddilliol mewn bagiau du fesul cartref. Mae'r Awdurdod yn parhau i weithredu polisi "Ei

Gadw Allan” lle mae bagiau du ar ymyl y ffordd yn cael eu gwirio i sicrhau nad ydynt yn cynnwys unrhyw eitemau y gellir eu hailgylchu. Os ydynt, bydd swyddogion yn ymgysylltu â thrigolion i roi gwybod bod yn rhaid iddynt ailgylchu neu'n wynebu risg o hysbysiadau cosb benodedig posibl.

Ailgylchu

6.78 Eir â deunyddiau ailgylchadwy i Orsaf Drosglwyddo'r Gwaith Byrnu i'w didoli/pentyrru ymhellach cyn eu cludo i'w trin ac ati.

Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC)

6.79 Mae pum HWRC sy'n cynnig cyfleusterau ailgylchu helaeth. Dim ond dwy o'r HWRC sy'n derbyn gwastraff na ellir ei ailgylchu (bagiau du).

Gwastraff Bwyd

6.80 Dechreuodd contract triniaeth rhanbarthol 15 (+10) mlynedd (gyda Phen-y-bont ar Ogwr) ym mis Awst 2017. Mae gwastraff Abertawe yn cael ei drin yng nghyfleuster treulio anaerobig Severn Trent yn Stormy Down, Pen-y-bont ar Ogwr.

Cynlluniau'r Dyfodol

6.81 Mae'r Awdurdod eisoes yn cydymffurfio â tharged ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru am 2024/25, ac ar hyn o bryd yn gwneud gwaith modelu i ystyried ei strategaeth gwastraff ar gyfer y dyfodol.

CYNGOR SIR POWYS

Rhaglen Gaffael Gyfredol ac Arfaethedig

Casgliadau Ymyl y Ffordd

Ailgylchu

6.82 Mae Powys yn parhau i weithredu glasbrint Llywodraeth Cymru o gasgliadau ailgylchu wythnosol ar gyfer gwastraff bwyd wedi'u gwahanu yn y tarddle; poteli a jariau gwydr; papur cymysg a chardbord; a chaniau a photeli plastig, tybiau, hambyrddau a chartonau (math *tetra pak*). Mae casgliadau'n cael eu cynnig i 100% o gartrefi Powys, ac mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddefnyddio gan nifer o gwsmeriaid masnachol sy'n talu, y mae eu hallbynnau gwastraff yn rhy fach i gyfiawnhau cyfres lawn o gynwysyddion ailgylchu Masnachol, neu sy'n anymarferol cael mynediad iddynt gan ddefnyddio'r fflyd ailgylchu Masnachol (tua 350 o gwsmeriaid ar adeg ysgrifennu).

6.83 Mae tri lleoliad strategol ar gyfer pentyrru deunydd ymyl y ffordd a gesglir wrth ymyl y ffordd, er nad ydynt i gyd yn cael eu defnyddio eto ac mae angen eu datblygu i gyd er mwyn bodloni gofynion y dyfodol am ddeunyddiau ychwanegol ac i gydymffurfio â gofynion trwyddedu CNC. Mae'r tri safle fel a ganlyn:

Aberhonddu – cyfleuster presennol sydd angen datblygiad ychwanegol

Rhaeadr – cyfleuster presennol sydd angen datblygiad ychwanegol

Aber-miwl – aros am drwydded CNC cyn dod yn weithredol. Ar hyn o bryd yn defnyddio safle sy'n eiddo i CSP yn y Drenwydd a gorsaf drosglwyddo trydydd parti yn y Trallwng.

6.84 Mae Powys yn gweithredu trefn fewnol o ddidoli'r ffrwd caniau a phlastigau cymysg yn ei gorsaf drosglwyddo yn Aberhonddu, er mwyn gwahanu: caniau alwminiwm; caniau dur; a phlastigau cymysg. Mae opsiynau didoli pellach hefyd yn cael eu harchwilio ar gyfer AHPs, batris a ffilm blastig.

6.85 Mae deunyddiau ailgylchu yn cael eu tendro'n flynyddol (ac eithrio gwastraff bwyd) i'w hailgylchu trwy contractau gwaith gyda chontractwyr ailgylchu cenedlaethol mawr er mwyn sicrhau'r incwm mwyaf posibl o ddeunyddiau. Rhestrir yr holl broseswyr terfynol ar wefan gyhoeddus CSP.

Gwastraff Bwyd

6.86 Ymdrinnir â hwn o dan y contract partneriaeth ar y cyd rhwng Powys, Sir Benfro a Cheredigion (awdurdod arweiniol), a chaiff ei brosesu gan dreuliad anaerobig yn un o dri chyfleuster Severn Trent Green Power Ltd (Parc Stormy, Pen-y-bont ar Ogwr; Cassington, Swydd Rydychen a Roundhill, Stourbridge).

Gwastraff Gweddilliol

6.87 Mae Powys wedi casglu gwastraff gweddilliol bob tair wythnos ers mis Tachwedd 2015. O fis Tachwedd 2021 ymlaen, mae contract newydd wedi sicrhau bod yr holl ddeunydd bellach yn mynd i EfW drwy Potters Waste Management, yn bennaf i ffatri Hooton Bio Power Ltd yng Nglannau Mersi a Pharc Adfer yng Nglannau Dyfrdwy. Nid oes gwastraff ymyl ffordd, masnachol, glanhau stryd (gan gynnwys deunydd tipio anghyfreithlon), na swmpus yn mynd i safleoedd tirlenwi bellach, ac eithrio mewn sefyllfa o argyfwng.

Gwastraff Cartref Swmpus

6.88 Mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth casglu gwastraff swmpus i bob cartref am ffi sefydlog am hyd at dair eitem ac yna ffi ychwanegol wedi hynny. Er bod y deunydd hwn yn cael ei anfon i EfW (drwy gyfleuster rhwygo), mae'r cyhoedd yn cael eu cyfeirio at sefydliadau ailddefnyddio a fydd yn casglu eitemau am ddim os yn addas.

Casgliadau Ailgylchu Gwastraff Masnachol

6.89 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gweddilliol ac ailgylchu i fusnesau a sefydliadau ac mae'n ofynnol iddo gystadlu â'r sector preifat am y gwaith hwn. Mae'r holl ddeunydd a gesglir yn cael ei brosesu trwy'r un sianeli â'r gwasanaeth casglu cartrefi.

Gwastraff Gardd

6.90 Dechreuodd Powys wasanaeth casglu gwastraff gardd tymhorol o ymyl y ffordd yn 2019, gan gynnal casgliadau o fis Mawrth tan fis Tachwedd o leiaf (20 casgliad fesul cartref

bob tymor). Mae'r gwasanaeth wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda 8,000 o gwsmeriaid yn ei dymor cyntaf, gan godi i dros 14,300 yn nhymor 2021 (tua 21% o gartrefi). Mae'r gwastraff gardd yn cael ei gompostio ar hyn o bryd drwy dull open windrow yn SED Services yn Wigan, a'i droi'n gompost manyleb PAS100. Mae opsiynau'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd ar gyfer prosesu gwastraff gardd yn y dyfodol, gan gynnwys y posibilrwydd o ymuno â threfniadau prosesu awdurdodau eraill.

Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (Safleoedd Amwynder Dinesig)

6.91 Ar hyn o bryd mae gan Bowys bum HWRC: Cwmtwrch Isaf (Ystradgynlais), Aberhonddu, Llandrindod, y Drenewydd, a'r Trallwng.

6.92 Mae pob safle yn eiddo i Gyngor Sir Powys, ac eithrio'r Trallwng sy'n eiddo i Potters Waste Management sy'n rhedeg pob un o'r pum safle o dan y contract presennol.

6.93 Mae'r contract hwn mewn cyfnod estynedig ar ôl i gyfnod y prif contract ddod i ben ym mis Mehefin 2020, ac mae profion meddal ar y farchnad wedi'u cynnal i ganfod y diddordeb yn y farchnad. Mae opsiynau'n cael eu hystyried yn awr, gan ystyried y sefyllfa bresennol gyda'r cyfleuster yn y Trallwng sy'n eiddo i'r contractwr presennol a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar unrhyw broses dendro.

6.94 Mae pob safle'n cynnig y gyfres nodweddiadol o ddarpariaeth ailgylchu ar wahân sy'n gyffredin i HWRCau, gyda mân wahaniaethau rhwng safleoedd, megis bwrdd plastr a dderbynnir mewn dau o'r pum safle yn unig (Aberhonddu a'r Trallwng).

6.95 Mae gan dri o'r pum safle siopau aildddefnyddio pwrpasol ar y safle, neu bartneriaethau â sefydliadau allanol i achub deunydd i'w aildddefnyddio drwy eu cyfleusterau eu hunain.

6.96 Mae pob safle ar agor 5 diwrnod yr wythnos, gyda diwrnodau caeedig bob yn ail ar draws y sir o fewn dyddiau'r wythnos i sicrhau darpariaeth gyflawn ar benwythnosau, a bod o leiaf un safle bob amser ar agor yn ystod yr wythnos rhwng Gogledd a De'r Sir.

Safleoedd (Dod â Gwastraff) Ailgylchu Cymunedol

6.97 Ar hyn o bryd mae Powys yn gweithredu 29 o safleoedd dod â gwastraff ailgylchu ledled y Sir, pob un â lefelau amrywiol o ddarpariaeth o: gardbord swmpus; tecstilau; a nifer fach o safleoedd gyda banciau offer trydanol bach.

6.98 Cafodd gwastraff gardd ei symud o'r safleoedd hyn ym mis Ebrill 2019 pan gyflwynwyd y cynllun ymyl y ffordd.

Gwastraff Gyli a Sbwriel Dail

6.99 Mae Powys yn casglu gwastraff gyli a sbwriel dail trwy waith cynnal a chadw'r tîm Prifffyrdd, ac yn cael ei ollwng i gilfachau dad-ddyfrio mewnol yn un o dri depo Prifffyrdd sy'n gwasanaethu De, Canolbarth a Gogledd Powys (Aberhonddu, Pen-y-bont a'r Drenewydd, yn y drefn honno). Ar hyn o bryd mae'n cael ei gludo i Neal Soil Supplies yng Nghaerdydd, lle mae'n cael ei brosesu i adfer agregau tywod (tua 15% yn ôl pwysau) a graean (tua 60% yn ôl pwysau), a phridd (tua 15% yn ôl pwysau), a metelau (tua 4% yn ôl pwysau) sy'n cael eu

hailgylchu, gyda'r gwastraff sy'n weddill (gan gynnwys sbwriel wedi'i sugno trwy wagio gyli/ysgubo mecanyddol) yn cael ei losgi. Hefyd caiff y lludw o hyn ei ailgylchu fel *cement clinker*.

Effaith pandemig Covid-19 ar wasanaethau gwastraff awdurdodau lleol

6.100 Effeithiodd y pandemig ar y modd roedd y gwasanaethau gwastraff yn cael eu rhedeg o ddydd i ddydd gyda chau (neu ddefnydd cyfyngedig) o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar adegau penodol o'r flwyddyn gan arwain at fwy o wastraff mewn gwasanaethau casglu ymyl y ffordd a chynnydd yn y galw am wasanaethau. Fodd bynnag, dangosodd yr awdurdodau lleol wytnwch yn y cyfnod anodd hwn a pharhau â'u gwasanaethau casglu gwastraff gweddilliol a deunyddiau i'w hailgylchu gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosibl drwy gydol y cyfnod, a rhoi gwybod i drigolion a busnesau am unrhyw newidiadau i wasanaethau.

6.101 Gyda'i ysbeidiau o gyfyngiadau cymdeithasol o fewn cymunedau, gwelodd y pandemig gynnydd mawr yn y gwastraff a gesglir, yn enwedig gwastraff gardd, gan arwain at ofynion cerbydau ychwanegol a newid llwybrau i ddarparu ar gyfer mwy o gartrefi i gael eu gwasanaethu'n effeithlon o fewn eu rowndiau dyddiol a neilltuwyd.

6.102 Gohiriwyd didoli gwastraff bagiau du gan sawl awdurdod oherwydd mesurau diogelwch iechyd y cyhoedd a oedd yn ystyried y pandemig, ond mae llawer o hynny wedi aildechrau bellach yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

6.103 Manteisiodd llawer o awdurdodau lleol ar y cyfle i annog mwy o ailgylchu a chompostio yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, anogwyd cartrefi i gompostio gartref trwy brynu bin compost am ffi nominal. Wrth ail-agor Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, adroddwyd hefyd am gynnydd yn y dillad a thecstilau a oedd yn cael eu gadael, o ganlyniad i gyfyngiadau clo, pan benderfynodd pobl achub ar y cyfle i glirio hen eitemau o'u cypyrddau dillad a'u cartrefi.

6.104 Wrth siarad ym *mhrif seminar Fforwm Polisi Cymru* ar 24 Medi 2020¹⁶, pwysleisiodd Brian Mayne, Cadeirydd CIWM Cymru yr ymatebion cadarnhaol i bandemig Covid-19 o ran dyfeisgarwch y diwydiant gwastraff ac adnoddau, sydd wedi arwain newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr ar adeg dyngedfennol pan fo Llywodraeth Cymru yn ymgorffori egwyddorion economi gylchol yn ei pholisïau.

¹⁶ Prif seminar Fforwm Polisi Cymru:

Symud tuag at economi gylchol yng Nghymru – strategaeth y Llywodraeth, ymgysylltu â diwydiant a chymunedau, a'r camau nesaf ar gyfer cyrraedd targedau diwastraff.

7.0 CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL (CDLI)

Cyflwyniad

7.1 Mae *Polisi Cynllunio Cymru (PPW)* a *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff* yn darparu cyngor ar sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir yng Nghymru gyfrannu at reoli gwastraff cynaliadwy ac effeithlonrwydd adnoddau, gan adlewyrchu'r ysgogwyr rheoli gwastraff ar lefel yr Undeb Ewropeaidd.

7.2 Ar lefel awdurdod lleol, cyflawnir polisi cynllunio trwy'r System Cynllunio Datblygiad - Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI). Dylai CDLIau gynnwys polisiau sy'n mynd i'r afael â'r angen i sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer cyfleusterau adfer adnoddau a rheoli gwastraff i alluogi bodloni'r holl rwymedigaethau Cenedlaethol a Rhyngwladol sy'n ymwneud â gwastraff, ac sy'n mynd i'r afael â'r angen i annog pob datblygiad i leihau a rheoli gwastraff.

7.3 Mae pob un o'r chwe awdurdod yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru (yn ogystal â'r 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol o fewn eu ffiniau) wedi mabwysiadu CDLIau. Yr Adroddiad Monitro Blyneddol (AMR) yw'r prif fecanwaith ar gyfer adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLI a nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol.

7.4 Dylai'r AMR asesu i ba raddau y mae strategaethau, polisiau a safleoedd allweddol y CDLI yn cael eu cyflawni. Dylai'r adroddiad cyntaf sefydlu data ar yr ystod o ddangosyddion fframwaith monitro y bwriedir monitro polisiau arnynt. Dylai'r rhain gynnwys dangosyddion sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, yn ogystal â dangosyddion allweddol sy'n berthnasol i bob Cynllun (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3, Tabl 29). Yn bwysig ddigon, nid yw gwastraff, fel dangosydd craidd a nodwyd yn wreiddiol yn Argraffiad Cyntaf y Llawlyfr, yn ffurfio un o'r dangosyddion allweddol y mae angen eu monitro. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) ddiffinio dangosyddion lleol penodol a chyd-destunol ar gyfer eu CDLI. Mater i'r awdurdodau unigol yw penderfynu a ddylid dosbarthu gwastraff fel dangosydd o fewn y categori hwn.

7.5 Mae'r Llawlyfr yn pwysleisio nad yw'n realistig nac yn angenrheidiol i bob polisi gael ei fonitro – byddai hyn yn arwain at ddogfen ddiangen o fawr a chymhleth.

7.6 Mae'r adran ganlynol yn crynhoi, ar gyfer pob ACLI, y cam a gyflawnwyd yn y broses o baratoi eu Cynllun, crynodeb o'u polisiau gwastraff, a'r sefyllfa bresennol o ran monitro CDLI.

7.7 **Adolygu CDLI** – mae sawl awdurdod yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi dechrau, neu ar fin dechrau, adolygu eu CDLIau. Dylai Adolygiad ddefnyddio AMR cyhoeddedig, tystiolaeth a gasglwyd trwy arolygon wedi'u diweddarau a dangosyddion cyd-destunol perthnasol, gan gynnwys newidiadau perthnasol i bolisi cenedlaethol. Gyda'i gilydd, dylai hyn alluogi cyhoeddi Adroddiad Adolygu, o fewn chwe mis i ddechrau'r broses adolygu. Dylai Adroddiad yr Adolygiad nodi'n glir yr hyn sydd wedi'i ystyried, pa randdeiliaid allweddol yr ymgysylltwyd â hwy a, lle mae angen newidiadau, beth sydd angen ei newid a pham - yn seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys materion, amcanion, strategaeth, polisiau ac Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI. Bydd y broses adolygu yn y pen draw yn arwain at CDLI diwygiedig / newydd.

Rôl y CDLI o ran hwyluso rheoli gwastraff cynaliadwy

7.8 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli gwastraff wedi'i chynnwys yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff (TZW)* a chynlluniau sector cysylltiedig. Dylai awdurdodau cynllunio, mewn egwyddor, fod yn gefnogol i gyfleusterau sy'n cyd-fynd â dyheadau'r dogfennau hyn a thrwy wneud hynny adlewyrchu trefn flaenoriaeth yr hierarchaeth wastraff cyn belled ag y bo modd.

7.9 Mae CIMSP (2012) yn disgrifio'r fframwaith rheoli gwastraff i ddarparu'r atebion gorau i ddiwallu anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd hyd at 2050. Mae'n dynodi symudiad tuag at leihau'r opsiynau gwaredu ac adfer ar gyfer trin gwastraff o blaid casglu cyfaint uchel wedi'i wahanu yn y tarddle ac yna ailbroesu (yn ogystal â pharatoi ar gyfer aildddefnyddio ac atal). Drwy'r symudiad tuag at gofleidio'r economi gylchol, mae'n debygol y bydd newid sylweddol yn natur a'r math o seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r newid tuag at gylchedd. Bydd angen i gyfleusterau gefnogi aildddefnyddio ac ailgylchu effeithlonrwydd uchel ac o ansawdd uchel, er enghraifft bydd angen canolfannau casglu i gefnogi dychwelyd deunyddiau i'r man gweithgynhyrchu, yn ogystal â chyfleusterau i fireinio/didoli/gwella ansawdd y deunyddiau a gesglir wrth ymyl y ffordd. Yn yr un modd, bydd angen lleol am gyfleusterau trosglwyddo ailgylchu sy'n gysylltiedig â chyfleusterau rhanbarthol megis treulio anaerobig, compostio ac ailgylchu/ailbroesu.

7.10 Mae gan broses y CDLI rôl hollbwysig i'w chwarae. Ar gyfer pob math o wastraff, dylid nodi lleoliadau addas ar gyfer datblygiadau rheoli gwastraff cynaliadwy mewn CDLlau yn ogystal â meini prawf ar gyfer penderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau o'r fath.

7.11 Bydd angen i CDLlau ddangos sut y mae polisi gwastraff cenedlaethol, ac yn arbennig y CIMSP, ynghyd ag unrhyw safbwynt wedi'i ddiweddarau a bennwyd yn yr WPMRs, ac unrhyw fath arall o flaenoriaethau rheoli gwastraff sy'n berthnasol i'w hardal leol, wedi'u hystyried. Bydd hyn yn cynnwys nodi tir ar gyfer cyfleusterau o ansawdd uchel i ymdrin ag ailbroesu gwastraff. Yn hyn o beth, bydd yn bwysig bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gweithio ar y cyd â phartneriaid ym maes casglu gwastraff a datblygu economaidd – yn lleol ac yn rhanbarthol – i nodi safleoedd posibl a allai wasanaethu anghenion awdurdodau unigol a lluosog o bosibl.

7.12 Gall CDLlau hefyd gyfrannu at gyflawni rhwymedigaethau Erthygl 16 Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE (Cyfarwyddeb 2008/98/EC)¹⁷ fel a ganlyn:

Erthygl 16

Egwyddorion hunangynhaliath ac agosrwydd

1. Rhaid i Aelod-wladwriaethau gymryd mesurau priodol, mewn cydweithrediad ag Aelod-wladwriaethau eraill pan fo hynny'n angenrheidiol neu'n ddoeth, i sefydlu rhwydwaith integredig a digonol o osodiadau gwaredu gwastraff a gosodiadau ar gyfer adfer gwastraff dinesig cymysg a gesglir o gartrefi preifat, gan gynnwys pan fo casglu o'r fath hefyd yn cwmpasu gwastraff o'r fath gan gynhyrchwyr eraill, gan ystyried y technegau gorau sydd ar gael.

¹⁷ Mae deddfwriaeth yr UE a oedd yn gymwys yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r DU cyn 11.00pm ar 31 Rhagfyr 2020 wedi'i chadw yng nghyfraith y DU fel math o ddeddfwriaeth ddomestig a elwir yn 'ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir'.

2. Rhaid i'r rhwydwaith gael ei ddylunio i alluogi'r Gymuned gyfan i ddod yn hunangynhaliol o ran gwaredu gwastraff yn ogystal ag adfer gwastraff y cyfeirir ato ym mharagraff 1, ac i alluogi Aelod-wladwriaethau i symud tuag at y nod hwnnw'n unigol, gan gymryd i ystyriaeth amgylchiadau daearyddol neu'r angen am osodiadau arbenigol ar gyfer rhai mathau o wastraff.

3. Rhaid i'r rhwydwaith alluogi i wastraff gael ei waredu neu i wastraff y cyfeirir ato ym mharagraff 1 gael ei adfer yn un o'r gosodiadau priodol agosaf, drwy ddefnyddio'r dulliau a'r technolegau mwyaf priodol, er mwyn sicrhau lefel uchel o amddiffyniad i'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd.

4. Ni fydd egwyddorion agosrwydd a hunangynhaliaeth yn golygu bod yn rhaid i bob Aelod-wladwriaeth feddu ar yr ystod lawn o gyfleusterau adfer terfynol o fewn yr Aelod-wladwriaeth honno.

7.13 Mae paragraff 4 yn bwysig gan nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, nac yn wir i Gymru fel cenedl, fod ag ystod lawn o gyfleusterau adfer terfynol ar waith.

Effaith pandemig Covid-19

7.14 Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at lawer iawn o darfu o ran ei effeithiau ar weithrediad awdurdodau cynllunio lleol yn 2020 a 2021. Cyhoeddodd LIC ganllawiau gweinidogol ar ffurf llythyr at Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol ym mis Gorffennaf 2020. Roedd y llythyr yn cynghori ACLlau i fyfrio ar effaith y pandemig ar eu hardaloedd ac ystyried y canlyniadau i CDLlau sy'n cael eu hadolygu neu eu gweithredu. Daw'r wybodaeth ym mharagraffau 7.15 – 7.17 isod o'r llythyr.

7.15 Mae CDLlau yn ddogfennau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. O ganlyniad i'r pandemig a'r dirywiad yn yr economi o ganlyniad, mae llawer o'r dystiolaeth y seilir CDLlau arni yn debygol o fod yn hen. Dylai CDLlau sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd, nad ydynt wedi'u cyflwyno eto i'r Arolygiaeth Gynllunio i'w harchwilio, gynnal asesiad o'r sylfaen dystiolaeth, y strategaeth a'r polisïau o ran sensitifrwydd i ganlyniadau'r pandemig. Dylid dod i gasgliadau cadarn ar yr angen am dystiolaeth newydd ac unrhyw newidiadau canlyniadol i strategaeth a pholisi cyn bwrw ymlaen â'r gwaith o baratoi'r cynllun. Dylid cyflwyno'r asesiad i LIC gyda cheisiadau i ymestyn Cytundebau Cyflawni (CC). Cydnabyddir y bydd hyn yn oedi ychydig ar y broses o baratoi'r cynllun yn y tymor byr.

7.16 Os yw cynllun hanner ffordd drwy ymgynghoriad cyhoeddus (strategaeth neu gynllun adneuo a ffefrir) dylai'r ymgynghoriad ddod i ben a dechrau o'r newydd unwaith y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau a bod Datganiad newydd wedi'i gymeradwyo.

7.17 Er mwyn helpu i baratoi CDLlau, nid oedd yn ofynnol mwyach i gyflwyno Adroddiadau Monitro Blyneddol (AMR) ym mis Hydref 2020. Fodd bynnag, anogwyd ACLlau yn gryf i barhau i gasglu data, gan y byddai hyn yn helpu i ffurfio a llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a chynlluniau. Er gallai ACLlau gyhoeddi AMR yn 2020, pe baent yn dymuno, y dyddiad cyflwyno AMR ffurfiol nesaf, a nodwyd yn y llythyr gweinidogol, oedd ym mis Hydref 2021.

7.18 Gyda llawer o CDLlau yn agosáu at ddiwedd cyfnod eu cynllun, yn enwedig o 2021 ymlaen, ofnwyd y canfyddiad na fyddai CDLlau yn bodoli mwyach ar ôl iddynt gyrraedd diwedd cyfnod eu cynllun. Eglurodd llythyr gweinidogol pellach gan LIC y sefyllfa ym mis Medi 2020 – a nodir ym mharagraffau 7.19 – 7.20 isod.

7.19 Dechreuwyd ar y darpariaethau yn Neddf Cynllunio Cymru (DCC) 2015 ynghylch y cyfnod y mae cynllun yn cael effaith arno ar 4 Ionawr 2016. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cael effaith ôl-weithredol. Mae hyn yn golygu nad yw'r darpariaethau'n berthnasol i CDLlau a fabwysiadwyd cyn y dyddiad hwn. Bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 yn parhau i fod yn CDLI ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio hyd nes y bydd CDLI pellach yn cymryd ei le. Ar gyfer y CDLlau hynny a fabwysiadwyd ar ôl 4 Ionawr 2016, bydd y cynllun yn peidio â bod yn CDLI pan ddaw'r cyfnod a bennir yn y cynllun i ben.

7.20 Bydd y CDLI cyntaf i ddod i ben o dan y dyddiad gorffen ar 1 Ionawr 2026. Mae'r cyfnod hyd at 2026 yn rhoi cyfle i archwilio'r sefyllfa ymhellach ac ystyried a oes angen deddfwriaeth bellach.

Lefelau ffosffad o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol (ACA)

7.21 Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddata monitro mewn perthynas â lefelau ffosffad o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol, ynghyd â chanllawiau interim (canllawiau wedi'u diweddarau Gorffennaf 2022).

7.22 Cafodd y targedau ffosffad eu tynhau'n sylweddol yn 2016 gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a mabwysiadwyd y rhain gan CNC. Mae asesiad CNC yn erbyn y targedau hyn wedi dangos methiant i gyrraedd targedau mewn nifer o afonydd Cymru. Yn gyffredinol, o'r 106 o gyrff dŵr a aseswyd, pasiodd 42 (39%) eu targedau ffosffad ACA a methodd 65 (61%).

7.23 Gallai'r methiannau hyn arwain at ganlyniadau sylweddol posibl i'r Awdurdodau, yn enwedig o ran eu rôl fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI). Drwy ystyried "achos yr Iseldiroedd" Llys Cyfiawnder Ewrop (ECJ), mae'n bosibl y bydd unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer datblygiadau newydd mewn ACA y dangoswyd eu bod yn methu eu targedau ffosffad, ond yn gallu cwblhau unrhyw effaith andwyol sylweddol os gall datblygiad ddangos niwtraliaeth ffosffad neu wellhad yn ei ddyluniad a/neu ei gyfraniad i'r corff dŵr.

7.24 Ochr yn ochr â'r datganiad sefyllfa cynllunio a'r adroddiad tystiolaeth, mae CNC yn darparu rhywfaint o ganllawiau interim cyfyngedig i gefnogi'r gwaith o ystyried cynigion a phrosiectau datblygu. Maent hefyd yn darparu safbwynt CNC o ran caniatáu. Mae CNC yn cydnabod y bydd angen datblygu canllawiau i gefnogi'r broses gynllunio ymhellach ac maent yn awyddus i weithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu hyn.

7.25 Manylir ymhellach ar effaith y mater hwn o dan yr awdurdodau lleol unigol dan sylw, isod.

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

CDLI

7.26 Mabwysiadwyd CDLI Sir Gaerfyrddin yn ffurfiol ar 10 Rhagfyr 2014. Mae'r Cynllun yn cynnwys tri pholisi gwastraff, un polisi strategol a dau bolisi pwnc-benodol. I grynhoi:

Polisi SP12-Rheoli Gwastraff – polisi strategol, yn seiliedig ar feini prawf yn rhannol/penodol i'r safle yn rhannol, yn seiliedig ar yr hierarchaeth wastraff ac yn ffafrio lleoli mathau penodol o gyfleusterau gwastraff ar safleoedd cyflogaeth B2 a ddyrannwyd

Polisi WPP1-Cyfleuster Rheoli Gwastraff Nant-y-caws – polisi pwnc-benodol sy'n ffafrio parhau i ddefnyddio safle hirsefydlog ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau rheoli gwastraff

Polisi WPP2-Cyfleusterau Rheoli Gwastraff y Tu Hwnt i Derfynau Datblygu – polisi pwnc-benodol sy'n darparu ar gyfer lleoli cyfleusterau posibl mewn ardaloedd nad ydynt yn dod o dan bolisiau SP12 a WPP1

Monitro CDLI

7.27 Cyhoeddodd yr Awdurdod ei chweched Adroddiad Monitro Blynnyddol ym mis Hydref 2022 (yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2022).

7.28 Ar ôl cael gwared ar wastraff fel dangosydd craidd ar y lefel genedlaethol, dim ond un targed monitro sydd gan y CDLI ar gyfer gwastraff (yn ymwneud â chynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG ar Gyfleuster Gwastraff Nant-y-caws). Fodd bynnag, mae'r AMR yn pwysleisio bod yr angen am yr SPG hwn wedi'i ddisodli gan dystiolaeth yn Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff Rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru (WPMR). Bydd monitro ar lefel y CDLI yn y dyfodol yn unol â pholisi cenedlaethol sef Polisi Cynllunio Cymru a TAN 21, ynghyd â thystiolaeth ac argymhellion yn y dyfodol yn y WPMRs dilynol. Caiff manylion y defnydd o dir ar safleoedd cyflogaeth B2 eu monitro'n fisol ac fe'u nodir mewn Adolygiad Tir Cyflogaeth blynnyddol a gyhoeddir bob mis Hydref ochr yn ochr â'r AMR. Caiff manylion ceisiadau/caniatadau newydd ar gyfer cyfleusterau gwastraff (p'un a ydynt ar safleoedd B2 ai peidio) eu monitro fel rhan o'r broses barhaus hon.

Adolygiad CDLI

7.29 Ar 10 Ionawr 2018, penderfynodd y Cyngor Sir baratoi CDLI diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Dechreuodd gwahoddiad ar gyfer safleoedd ymgeisio ym mis Chwefror 2018 a daeth i ben ar 29 Awst 2018, a daeth yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddrafft a Ffefrir i ben ar 8 Chwefror 2019.

CDLI Diwygiedig Adneuo

7.30 Roedd paratoi'r Cynllun Diwygiedig yn cynnwys adolygiad cyflawn o'r polisiau gwastraff presennol, yn ogystal ag asesiad o'r dyraniadau cyflogaeth yn y Sir a oedd yn cynnwys asesu addasrwydd safleoedd cyflogaeth B2 ar gyfer cyfleusterau gwastraff mewnol.

7.31 I ddechrau, cyhoeddodd yr Awdurdod ei GDLI Adneuo Diwygiedig at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd yn 2020. Fodd bynnag, arweiniodd cyfyngiadau ac effaith pandemig Covid-19 at oedi o ran paratoi amserlen y CDLI Diwygiedig fel y pennwyd yn y Cytundeb Cyflawni. Cafwyd oedi pellach yn dilyn cyhoeddi canllawiau gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol (gweler paragraffau 7.21 – 7.24 uchod). O ganlyniad, cafodd gwaith ar y CDLI Diwygiedig ei atal am y tro tra bo'r Cyngor yn gweithio ar ddod o hyd i atebion i'r broblem ffosffad.

7.32 Cafodd adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y *CDLI Diwygiedig – Camau Nesaf a Chytundeb Cyflawni Diwygiedig*, gyda'r bwriad o ailgychwyn y broses baratoi, ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir ym mis Mawrth 2022. Yn dilyn hyn, lluniodd yr Awdurdod Gytundeb Cyflawni diwygiedig, a nodai amserlen ddiwygiedig, y cytunwyd arni gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022.

7.33 Oherwydd natur y problemau sydd wedi codi ers cyhoeddi'r CDLI Adneuo Diwygiedig Cyntaf yn 2020, mae'r Awdurdod wedi llunio Ail GDLI Adneuo Diwygiedig, y mae ymgynghori'n digwydd yn ei gylch ar hyn o bryd (ar yr adeg ysgrifennu - Mawrth 2013). Mae'r ymgynghoriad i ddod i ben ar 14 Ebrill 2023.

7.34 Mae'r Ail GDLI Diwygiedig adneuo yn cynnwys 4 polisi sy'n ymwneud â gwastraff, gan ystyried y canllawiau polisi cenedlaethol diweddaraf a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW), yn enwedig mewn perthynas â hyrwyddo'r economi gylchol a sicrhau bod egwyddorion creu lleoedd yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun. I grynhoi:

Polisi Strategol - SP 19: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy – polisi strategol, rhan-feini prawf / rhan-safle penodol, yn canolbwyntio ar yr hierarchaeth wastraff ac egwyddorion agosrwydd a hunangynhaliol, ac yn ffafrio lleoli mathau penodol o gyfleusterau gwastraff ar safleoedd cyflogaeth B2 a ddyrannwyd.

WM1 Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy a Datblygiad Newydd – mae'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu newydd wneud darpariaeth ar gyfer lleihau ac ailgylchu gwastraff o fewn eu dyluniad.

WM2: Cynigion Tirlenwi – yn cydnabod y bydd angen tirlenwi o hyd ar lefel ranbarthol ac y dylai awdurdodau unigol wneud darpariaeth yn eu CDLIau i ddarparu ar ei gyfer pe bai angen.

WM3: Tir Amaethyddol - Gwaredu Gwastraff Anadweithiol – yn galluogi adneuo deunyddiau gwastraff anadweithiol i wella tir amaethyddol, ar yr amod bod y gwaith yn bodloni meini prawf penodol, gan gynnwys cael ei gategoreiddio fel 'gweithrediad adfer'.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG (APCBB)

CDLI

7.35 Mabwysiadwyd CDLI APCBB yn ffurfiol ar 17 Rhagfyr 2013. Mae'r Cynllun yn cynnwys pedwar polisi ar wastraff, un polisi strategol a thri polisi pwnc-benodol:

SP7 – Gwastraff – polisi strategol yn nodi y bydd y parc cenedlaethol yn ystyried datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff lleol lle nodir bod angen, ond na fydd yn dyrannu tir ar gyfer cyfleuster rhanbarthol.

Polisi 62 – Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol – polisi pwnc-benodol, yn cynnwys meini prawf sy'n gwarchod mwynder lleol a maen prawf safle penodol sy'n ffafrio lleoli cyfleusterau rheoli gwastraff ac ailgylchu ar safleoedd rheoli gwastraff presennol neu unedau diwydiannol B2.

Polisi 63 – Cynlluniau Datblygu Troi Gwastraff yn Ynni – polisi pwnc-benodol sy'n galluogi cynigion o'r fath ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y polisi

Polisi 64 – Compostio – polisi pwnc-benodol sy'n caniatáu compostio gwastraff organig ar yr amod nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol (mae nifer o feini prawf wedi'u nodi)

Monitro CDLI

7.36 Cyhoeddwyd yr Adroddiad Monitro Blyneddol diweddaraf (sy'n cwmpasu'r wythfed cyfnod monitro) ym mis Hydref 2022 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2022. Mae'n cynnwys y dangosyddion polisi canlynol ar gyfer gwastraff sy'n ofynnol gan fframwaith y cynllun datblygu:

Nifer yr unedau gwag o fewn y safleoedd Dosbarth B a nodwyd sy'n addas ar gyfer cyfleuster gwastraff lleol

Yn yr un modd â chanfyddiadau'r AMR cynharach, mae'r AMR diweddaraf wedi dangos bod gofyniad y dangosydd yn parhau i gael ei fodloni, fodd bynnag mae'r argymhellion yn yr AMR yn ystyried hwn yn ddangosydd pwysig ac felly bydd yn parhau i gael ei fonitro.

Nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff trwyddedig newydd a ganiateir

Ni roddwyd caniatâd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff o fewn y cyfnod ac ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau yn y Parc Cenedlaethol. O ganlyniad, yr argymhelliad a nodir yn yr AMR yw y bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro ac y bydd yr angen am safleoedd/capasiti ychwanegol o fewn safleoedd cyflogaeth yn cael sylw trwy ddyraniad/polisi priodol yn ôl yr angen yn CDLI2.

Adolygiad CDLI

7.37 Ar 17 Rhagfyr 2017, dechreuodd yr Awdurdod Adolygu ei CDLI. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer ymgynghoriad rhwng 5 Gorffennaf a 30 Awst 2018, a chyhoeddwyd y Safleoedd Posib a'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer ymgynghoriad rhwng 4 Gorffennaf a 29 Awst 2019.

Paratoi CDLI 2

7.38 Oherwydd pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi gorfod oedi cyn cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol 2. Mae'r Cytundeb Cyflawni wedi'i ddiwygio ac ymgynghorir arno cyn cytuno â Llywodraeth Cymru.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO (APCAP)

CDLI2 (Amnewid) – dyddiad gorffen 2031

7.39 Yn flaenorol, mabwysiadodd APCAP ei CDLI2 (Amnewid) ym mis Medi 2020. Mae'r Cynllun yn cynnwys dau bolisi ar wastraff:

Polisi 27 – Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol – polisi pwnc-benodol yn caniatáu “Cyfleusterau rheoli gwastraff lleol ac ailgylchu sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn bennaf”, yn cynnwys meini prawf sy'n gwarchod amwynder lleol a gofyniad am Asesiad Cynllunio Gwastraff i gyd-fynd â cheisiadau am gyfleuster rheoli gwastraff a ddosberthir fel gwaredu, adfer neu ailgylchu.

Polisi 28 – Compostio - polisi pwnc-benodol sy'n caniatáu compostio gwastraff organig ar yr amod nad oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol (mae nifer o feini prawf wedi'u nodi), a maen prawf sy'n mynnu bod gan y cynnyrch werth ychwanegol.

7.40 Mae'r Awdurdod yn gweithio ar nifer o ganllawiau cynllunio atodol i gefnogi CDLI2.

Monitro CDLI

7.41 Ar ôl mabwysiadu'r CDLI cyntaf yn 2010, mae 8 Adroddiad Monitro Blynyddol wedi'u cyhoeddi, yn cwmpasu'r cyfnod ers mabwysiadu'r CDLI hyd at 31 Mawrth 2018. Cafodd y canfyddiadau eu hystyried gan yr ACLI ac maent wedi bwydo i mewn i'r gwaith o baratoi CDLI 2 Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

7.42 Daeth yr wythfed AMR i'r casgliad:

“Oherwydd y newidiadau mewn polisi cenedlaethol, nid oes bellach angen monitro'r ddarpariaeth o gapasiti rheoli gwastraff yn seiliedig ar gymryd tir (gweler paragraffau 2.13 – 2.19 o Adroddiad Monitro Blynyddol 2014). Mae angen diweddariadau i Bolisiâu Cynllun Datblygu Lleol 27 'Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol' a 28 'Compostio' i adlewyrchu'r cydestun polisi cenedlaethol newydd.

Monitro CDLI 2

7.43 Mae dangosydd newydd i fonitro perfformiad y polisiâu 27 a 28 wedi'u diweddaru wedi'i gynnwys yn CDLI2 (gweler isod), a bydd yn cael ei fonitro yn yr AMRau ar gyfer y Cynllun Amnewid. Mae'r ymgynghoriad ar GDLI2 cyntaf wedi cychwyn.

Maes Polisi	Dangosydd 10	Targed
Polisi 27, Polisi 28	Cymeradwyaeth Cyfleusterau Rheoli Gwastraff, yn groes i egwyddor cyfleusterau rheoli gwastraff lleol sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn bennaf.	0 wedi'i gymeradwyo
Sbardun: 2 neu ragor o ddatblygiadau yn groes i'r argymhelliad. Rheswm: Sicrhau cysondeb o ran ymagwedd gyda chanllawiau cynllunio cenedlaethol drwy wrthsefyll cyfleusterau rheoli gwastraff amhriodol neu anaddas yn y Parc Cenedlaethol.		

CYNGOR SIR PENFRO (CSP)

CDLI

7.44 Mabwysiadodd CSP ei CDLI yn flaenorol ar 28 Chwefror 2013. Mae'r Cynllun yn cynnwys pedwar polisi ar wastraff, un polisi strategol a thri polisi pwnc-benodol.

Polisi SP11 –Gwastraff – mae'r polisi hwn yn sefydlu dull strategol yr Awdurdod o gynllunio ar gyfer rheoli gwastraff cynaliadwy, integredig.

Polisi GN.40 – Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Newydd – mae'r polisi hwn yn dynodi safleoedd penodol ar gyfer darparu cyfleusterau rheoli gwastraff.

Polisi GN.41 – Lleihau, Ailddefnyddio, Adfer, Compostio a Thrin Gwastraff – polisi yn seiliedig ar feini prawf ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd.

Polisi GN.42 – Gwaredu Gwastraff ar Dir – mae'r polisi hwn yn sicrhau bod digon o dir priodol ar gael ar gyfer gwastraff na ellir ymdrin ag ef mewn unrhyw fodd arall.

Monitro CDLI

7.45 Cyhoeddwyd nawfed AMR y CDLI, sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2021 i Fawrth 31 2022 ym mis Hydref 2022. Mae'n nodi nad oes angen i'r dangosydd craidd, sy'n ymwneud â faint o gapasiti rheoli gwastraff a ganiateir, fod â tharged na sbardun mwyach. Fodd bynnag, mae'r AMR yn darparu manylion yn ymwneud â thir ychwanegol sydd wedi cael caniatâd ar gyfer cyfleusterau gwastraff yn ystod y nawfed cyfnod monitro AMR – roedd hyn yn gyfystyr â 3.6 ha ar bedwar safle.

7.46 O ran y dangosyddion eraill sy'n gysylltiedig â gwastraff, mae'r ddau yn ymwneud â chynnydd o ran darparu safleoedd. Ym mhob achos, mae'r cyfleusterau a ragwelir bellach wedi'u darparu ac felly mae gofynion y dangosyddion wedi'u bodloni.

Adolygiad CDLI

7.47 Dechreuodd yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar 5 Mai 2017, a chychwynnodd y gwaith paratoi ar gyfer yr ymgynghoriad ffurfiol ar y Cynllun Adneuo rhwng 15 Ionawr a 18 Mawrth 2020.

7.48 Mae cyfyngiadau ac effeithiau pandemig Covid-19 wedi arwain at lithriad i amserlen baratoi'r CDLI Amnewid.

7.49 Mae oedi o ran amserlenni wedi'i waethygu ymhellach gan gyhoeddiad canllawiau newydd ar **Lefelau ffosffad o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol (ACA)** gan CNC ym mis Ionawr 2021 (diweddariad canllawiau Gorffennaf 2022) - gweler paragraffau 7.21 - 7.24, uchod.

7.50 Yn ogystal ag unrhyw newidiadau sy'n ofynnol o ganlyniad i fater y ffosffadau, mae'r Awdurdod yn debygol o ddymuno gwneud ystod o newidiadau eraill i Gynllun Adneuo 2020 mewn ymateb i adborth o'r ymgynghori ac o ganlyniad i'r dystiolaeth ddiweddaraf / newidiadau i bolisi a chyd-destun cenedlaethol, gan gynnwys y rheiny sydd eu hangen o ganlyniad i Covid-19.

7.51 Felly mae CSP wedi cytuno i nodi'r oedi i'r amserlen CDLI2 ac wedi cymeradwyo argymhelliad i alluogi Cytundeb Cyflawni addasedig i gael ei baratoi sy'n cynnwys dychweliad i'r cam Cynllun Adneuo. Mae hyn yn golygu y bydd ail Gynllun Adneuo yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus yn y dyfodol. Mae'r amserlen dal yn ansicr gan ei bod yn dibynnu ar gyhoeddi gwybodaeth a chanlyniad yr ymchwil. Felly mae dyddiadau penodol ar gyfer hyn heb gael eu clustnodi eto. Bydd Cytundeb Cyflawni newydd a pharatoi Ail Gynllun Adneuo yn galluogi casglu tystiolaeth a data hanfodol a llunio opsiynau lliniaru. Yn y cyfamser, mae CSP yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol cyfagos a sefydliadau eraill megis Fforwm Arfordirol Sir Benfro i ganfod atebion cenedlaethol a lleol i'r mater.

CYNGOR SIR CEREDIGION

CDLI

7.52 Yn flaenorol, mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion ei Gynllun Datblygu Lleol ar 25 Ebrill 2013. Mae'r Cynllun yn cynnwys dau bolisi pwnc-benodol ar wastraff:

Polisi LU31 – Cyfleusterau Adfer Adnoddau a Rheoli Gwastraff – mae'r polisi hwn yn sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer defnydd gwastraff drwy osod y gwahanol leoliadau a fyddai'n briodol.

Polisi LU32 – Datblygiad a'r Hierarchaeth Wastraff – bydd yn ofynnol i gynigion datblygiad ddangos sut y bydd gwastraff yn cael ei leihau a'i reoli yn unol â'r hierarchaeth wastraff (lle bo'n berthnasol)

Monitro CDLI

7.53 Cyhoeddwyd nawfed AMR y CDLI ym mis Hydref 2022 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022. Mae gwastraff yn cael ei ddosbarthu fel dangosydd lleol fel a ganlyn:

“Swm y capasiti rheoli gwastraff a ganiateir wedi'i fynegi fel % o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y'i nodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol” gyda'r targed i “sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu ar gyfer unrhyw ofynion heb eu bodloni ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff rhanbarthol i wasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol.”

7.54 Mae'r dadansoddiad sy'n cyd-fynd, fodd bynnag, yn cydnabod cydnabyddiaeth TAN 21 bod y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol (CGRh) (sy'n pennu'r gofynion capasiti a gwmpesir gan y dangosydd hwn) wedi dyddio ac y dylid eu diddymu nawr.

7.55 Cyfeirir at yr Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff blynyddol (WPMRs) ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru. Daw'r AMR i'r casgliad y bydd y dystiolaeth a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiadau hyn, ynghyd â gwaith cynllunio a monitro gwastraff cydweithredol, yn cael eu defnyddio i hysbysu Adolygu / Diwygio'r Cynllun. Cyfeirir at y canfyddiadau yn WPMR sy'n cadarnhau bod gan ranbarth De-orllewin Cymru ddigon o wagle tirlenwi i fodloni'r gofynion a nodir yn TAN 21 a bod darpariaeth ddigonol ar gyfer rheoli gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd ar hyn o bryd. .

7.56 Bydd yr ACLI yn defnyddio gwaith cynllunio a monitro gwastraff cydweithredol i hysbysu'r Adolygu / Diwygio'r Cynllun.

7.57 O ganlyniad i'r data a'r canllawiau gan CNC a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 (diweddariad canllawiau Gorffennaf 2022) mewn perthynas â **Lefelau ffosffad o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol (ACA)** (gweler paragraffau 7.21 - 7.24, uchod) cytunodd y Cyngor ym mis Tachwedd 2021 i seibiant dros dro, ond hyd amhenodol, ar gyfer y CDLI newydd er mwyn caniatáu i dystiolaeth a data hanfodol gael eu casglu a dyfeisio opsiynau lliniaru.

Statws CDLI1

7.58 Er bod cyfnod y cynllun CDLI presennol wedi dod i ben yn 2022, bydd yn parhau i fod yn Gynllun Datblygu ar gyfer Ceredigion hyd nes y caiff Cynllun Amnewid ei fabwysiadu.

CDLI Newydd (CDLI2)

7.59 Pan fydd gwaith yn ailddechrau ar y CDLI Newydd, bydd angen i'r Awdurdod gyflwyno Cytundeb Cyflawni diwygiedig ac amserlen i LIC.

CYNGOR SIR POWYS

CDLI

7.60 Mabwysiadwyd CDLI Powys yn ffurfiol ar 17 Ebrill 2018 ac mae'n nodi polisiau'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir ym Mhowys. Mae'n berthnasol i Bowys gyfan ac eithrio'r ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

7.61 Mae'r cynllun yn cynnwys y polisiau canlynol sy'n ymwneud â gwastraff:

Polisi W1 Lleoliad Datblygiadau Gwastraff – polisi seiliedig ar bynciau yn seiliedig ar yr hierarchaeth wastraff, cefnogi cynigion ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisiau E1 ac E4, a, lle nad yw'r safleoedd hyn yn addas, caniatáu cynigion o fewn ffiniau datblygu Trefi a Phentrefi Mawr. Rheoli cyfleusterau rheoli gwastraff newydd yn llym yng nghefn gwlad agored yn amodol ar feini prawf penodol.

Polisi W2 Cynigion Rheoli Gwastraff – polisi pwnc sy'n caniatáu cynigion rheoli gwastraff lle cefnogir gan Asesiad Cynllunio Gwastraff ac yn amodol ar feini prawf penodol.

Polisi E1 Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Cyflogaeth Dynodedig – yn nodi rhai dyraniadau cyflogaeth a fyddai'n addas ar gyfer defnyddiau gwastraff trwy Bolisi W1.

Polisi E4 Safleoedd Cyflogaeth a Ddiogelir – yn nodi rhai safleoedd cyflogaeth presennol a ddiogelir sy'n addas ar gyfer defnyddiau gwastraff trwy Bolisi W1.

Polisi DM13 Dylunio ac Adnoddau (maen prawf 13 iv.) – polisi rheoli datblygiad sy'n seiliedig ar feini prawf sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau ddangos defnydd cynaliadwy ac effeithlon o adnoddau drwy gynnwys mesurau i leihau gwastraff.

Polisi DM15 Gwastraff o fewn Datblygiadau – polisi rheoli datblygiad yn cynnwys dau faen prawf - y cyntaf yn ymwneud â lleihau cynhyrchu gwastraff a rheoli deunyddiau gwastraff mewn modd cynaliadwy, yn unol â'r hierarchaeth gwastraff, a'r ail yn ymwneud â gwneud darpariaeth ar gyfer storio, casglu ac ailgylchu deunyddiau gwastraff.

Monitro CDLI

7.62 Cyhoeddodd yr Awdurdod ei AMR statudol cyntaf ym mis Hydref 2021, gan gwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2021. Ar yr un pryd, penderfynodd yr Awdurdod hefyd gyhoeddi papurau cefndir yn dangos canlyniadau'r blynyddoedd monitro blaenorol ers mabwysiadu'r CDLI - Adroddiad Monitro 2018-2019 ac AMR 2020. Cafodd yr ail AMR ei gyhoeddi ym mis Hydref 2022, gan gwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill tan 31 Mawrth 2022.

7.63 Mae'r AMR yn cynnwys un dangosydd sy'n ymwneud â gwastraff (AMR25) sy'n monitro nifer y datblygiadau gwastraff a ganiateir ar a) dyraniadau cyflogaeth a restrir o dan Bolisi E1; b) o fewn ffiniau datblygu; c) mewn cefn gwlad agored. Cynlluniwyd y dangosydd i brofi gweithrediad Polisi W1 y CDLI ac, yn benodol, effeithiolrwydd y pum maen prawf wrth warchod cefn gwlad agored rhag datblygiadau amhriodol.

7.64 Mae canlyniadau dangosydd AMR25 yn nodi'r ceisiadau cynllunio canlynol a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau gwastraff ers mabwysiadu'r CDLI:

P/2018/0587 ar gyfer cyfleuster pentyrru ailgylchu a ganiateir ar ddyraniad cyflogaeth yn Aber-miwl.

P/2018/0067 ar gyfer HWRC ar ystad ddiwydiannol sydd wedi'i lleoli o fewn ffin ddatblygu'r Drenwydd.

19/0361/FUL ar gyfer ailddatblygu safle trosglwyddo gwastraff presennol yn Llan-y-wern, Aberhonddu, o fewn cefn gwlad agored, fodd bynnag roedd yn cyd-fynd â pholisi W1 sy'n cyfeirio cyfleusterau rheoli gwastraff newydd i safleoedd presennol.

Yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer yr ail AMR, nid oedd dim ceisiadau ar gyfer cynlluniau datblygu gwastraff wedi'u caniatáu yn ardal y Cynllun.

Adolygiad CDLI

7.65 Ym mis Medi 2021, penderfynodd y Cabinet gymeradwyo AMR 2021 i'w gyflwyno i LIC, ac, ar yr un pryd, cymeradwyo dechrau'r adolygiad o'r CDLI, yn unol ag argymhelliad yr AMR.

7.66 Lluniodd yr ACLI Adroddiad Adolygu, sy'n nodi canfyddiadau allweddol a chasgliadau adolygiad yr ACLI. Roedd canfyddiadau drafft yr adolygiad o ran polisiau gwastraff fel a ganlyn:

Mae'r fframwaith polisi gwastraff yn cynnwys polisiau sy'n ymwneud ag ymdrin â gwastraff mewn datblygiadau newydd (DM15), lleoliad datblygiad gwastraff (W1) a chynigion rheoli gwastraff (W2).

Mae'r fframwaith polisi yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol oherwydd y polisiau sy'n cael eu drafftio ar ôl cyhoeddi Strategaeth Llywodraeth Cymru "Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Strategaeth Wastraff Cymru" (2010) ac mae'n ystyried yr 'hierarchaeth wastraff'. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti" ac yna "Asesiad Strategol o'r angen yn y dyfodol am gapasiti ynni o wastraff yn nhri rhanbarth economaidd Cymru". Bydd y polisiau gwastraff yn cael eu hailystyried i adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar leihau gwastraff a'r economi gylchol, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11), blaenoriaethau a strategaethau lleol a rhanbarthol ac unrhyw dystiolaeth wedi'i diweddarau.

Nodwyd nad yw Polisi DM15 CDLI, sy'n ymwneud â rheoli gwastraff o fewn datblygiadau, wedi'i weithredu mor eang ag y bwriadwyd, bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Rheoli Datblygu wrth adolygu'r polisi hwn i fynd i'r afael â'r mater.

7.67 Roedd Atodiad 2 i'r Adroddiad Adolygu yn crynhoi'r adolygiad o bob polisi.

7.68 Daeth Adroddiad yr Adolygiad i'r casgliad bod angen Adolygiad Llawn o CDLI mabwysiedig Powys, drwy CDLI Newydd ar gyfer y cyfnod (2022-2037).

7.69 Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus o Adroddiad yr Adolygiad i ben ar 1 Chwefror 2022.

CDLI Newydd

7.70 Cafodd y Cytundeb Cyflawni (DA) ar gyfer CDLI Amnewid Powys ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir ar 3 Mawrth 2022 a chytunodd Llywodraeth Cymru arno ar 13 Mehefin 2022.

7.75 Mae'r Awdurdod wedi ymgynghori ag ymgynghoreion statudol ynghylch adroddiad cwmpasu ISA, ac agorodd yr alwad am Safleoedd Ymgeisio am chwe wythnos o 1 Tachwedd tan 13 Rhagfyr 2022. Adeg ysgrifennu (Mawrth 2023), mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnal asesiad cychwynnol o'r Safleoedd Ymgeisio i benderfynu a ydynt yn addas, neu beidio, i'w cynnwys yn y CDLI Amnewid.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

CDLI

7.72 Mabwysiadwyd y CDLI ar 27 Ionawr 2016. Mae'r Cynllun yn cynnwys pedwar polisi ar wastraff, un polisi strategol a thri polisi pwnc-benodol:

Polisi SP19 – Rheoli Gwastraff – mae hwn yn bolisi strategol lle gwneir darpariaeth ar gyfer darparu rhwydwaith digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff trwy fesurau safle-benodol

Polisi W1 – Cyfleusterau Trin Gwastraff Mewnol – darpariaeth ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff newydd mewnol trwy nodi tri safle a ffeirir

Polisi W2 – Gwaredu Gwastraff Anadweithiol ar Dir Amaethyddol – polisi sy'n seiliedig ar feini prawf sy'n ceisio archwilio'r opsiynau ar gyfer ailgylchu neu ailddefnyddio deunydd anadweithiol yn y lle cyntaf

Polisi W3 – Rheoli Gwastraff mewn Datblygiadau Newydd - gofyniad i ddatblygiadau adeiladu newydd gynnwys darpariaeth rheoli gwastraff

Monitro CDLI

7.73 Cyhoeddwyd y chweched AMR ym mis Hydref 2022. Mae'r AMR yn cynnwys 4 dangosydd monitro mewn perthynas â gwastraff. Mae'r rhain yn ymwneud ag Amcan 2C yr Arfarniad o Gynaliadwyedd - Lleihau gwastraff a lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae gwerthusiad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod SP19 yn cael ei weithredu fel y bwriadwyd (gweler isod). Bydd y polisi yn parhau i gael ei fonitro:

Dangosydd 77 - *Nifer y ceisiadau a ganiateir ynghyd â chynlluniau rheoli gwastraff safle*

Dadansoddiad: – Dros y cyfnod monitro roedd 8 cais a gyrhaeddodd y trothwy ar gyfer gofyn am Gynllun Rheoli Gwastraff Safle (SWMP). Roedd SWMP ynghlwm wrth saith o'r ceisiadau hyn neu roedd amod iddynt gyflwyno SWMP. Cafodd un cais ei gymeradwyo heb y gofyniad hwn (P2021/0226). Mae un cais felly wedi cael ei ganiatáu yn groes i'r fframwaith polisi.

Cam Gweithredu: – Gallai fod angen hyfforddiant Swyddogion a/neu Aelodau o ran y dangosydd hwn.

Dangosydd 78 – *Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth*

Dadansoddiad: ni dderbyniwyd / penderfynwyd ar unrhyw geisiadau yn ymwneud â gwastraff yn ystod y cyfnod a fonitwyd sy'n ymwneud â thir cyflogaeth a neilltuwyd a/neu a ddiogelir. Felly nid oes unrhyw geisiadau sbardun ar gyfer y dangosydd hwn.

Cam Gweithredu: – Dim angen camau gweithredu pellach. Monitro i barhau.

Dangosydd 79 – *Faint o dir a chyfleusterau ar gyfer gwastraff yn CNPT*

Dadansoddiad: Y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn yw capasiti tirlenwi ar gyfer y rhanbarth am o leiaf saith mlynedd. Mae Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMR) 2021/22 ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru yn nodi mai'r capasiti tirlenwi a ragwelir ar gyfer y rhanbarth ar hyn o bryd yw 7.5 mlynedd. Felly mae hyn yn uwch na'r terfyn trothwy o saith mlynedd ac nid yw'n gyfystyr â throthwy ar gyfer y dangosydd hwn.

O ran cyfleusterau trin gwastraff mewn adeiladau, caiff y tir cyflogaeth a ddefnyddir ei fonitro'n benodol gan Ddangosyddion 50, 51, 52 a 56. Ar sail canlyniadau'r monitro hyd yn hyn, a'r cyfleusterau rhwydwaith presennol sy'n weithredol ar hyn o bryd, bernir bod tir a chyfleusterau digonol ar draws y Cyngor Bwrdeistref i ddellio â sgil-gynhyrchion gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Cam Gweithredu: Dim angen camau gweithredu pellach. Monitro i barhau.

Dangosydd SA6 (mewn perthynas ag Amcan AC 2C) – % LACW a ailddefnyddiwyd/ailgylchwyd/compostiwyd

Dadansoddiad: O ran amcan SA 2C, er nad oes gan y CDLI effaith uniongyrchol ar faterion gwastraff, mae'r dangosyddion uchod ar y cyfan yn awgrymu bod y polisïau cynllun perthnasol yn cael effaith bositif yn gyffredinol.

Mae'r ffigurau LACW sydd ar gael yn dangos bod cynnydd graddol wedi bod yng nghanran y LACW a ailddefnyddir/ailgylchir/compostir (65.4% yn 2020-21 o gymharu â 61.7% yn AMR 2021 ar gyfer 2019-2020).

Cam Gweithredu: Dim angen camau gweithredu pellach. Monitro i barhau.

Adolygiad CDLI

7.74 Dechreuodd adolygiad llawn o CDLI presennol Castell-nedd Port Talbot (2011-2026) ym mis Ionawr 2020 a chyhoeddwyd Adroddiad yr Adolygiad ym mis Gorffennaf 2020.

7.75 Bu cyfnod o ansicrwydd oherwydd effeithiau pandemig Covid 19 a effeithiodd ar amserlen paratoi'r Cynllun.

7.76 Cytunwyd yn ffurfiol ar y Cytundeb Cyflawni (DA) gyda Llywodraeth Cymru ar 11 Ionawr 2022.

7.77 Caeodd y "Galwad am Safleoedd Ymgeisio" ac ar hyn o bryd mae safleoedd a gyflwynwyd yn cael eu hasesu. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ymgynghori ynghylch strategaeth a ffefrir yn digwydd yn hydref 2023.

DINAS A SIR ABERTAWE

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

7.78 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025 ar 28 Chwefror 2019. Daeth y Cynllun yn weithredol ar y dyddiad hwnnw ac mae bellach yn ffurfio'r cynllun datblygu ar gyfer Abertawe. Mae'r CDLI yn cynnwys pedwar polisi sy'n ymwneud â gwastraff:

RP 8 – Rheoli Gwastraff Cynaliadwy – yn rhannol safle-benodol/yn rhannol seiliedig ar feini prawf, mae'r polisi hwn yn caniatáu cyfleusterau rheoli gwastraff newydd mewnol ar ardaloedd dewisol (a nodir ar y mapiau cynigion) ac ardaloedd sydd â budd defnydd cyfreithlon B2, ar yr amod bod y cynigion yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y polisi.

RP 9 – Safleoedd Tirlenwi – yn rhannol safle-benodol/yn rhannol seiliedig ar feini prawf, mae'r polisi hwn yn pwysleisio defnydd parhaus ar safle Tirlenwi Tir John ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol hyd nes y bydd cyfleusterau eraill ar gael. Mae'r polisi yn amlinellu'r meini prawf y byddai'n rhaid i gynigion newydd ar gyfer safleoedd tirlenwi (neu estyniadau i rai presennol) eu bodloni er mwyn cael caniatâd cynllunio.

RP 10 – Rheoli Gwastraff Cynaliadwy ar gyfer Datblygiad Newydd – polisi sy'n seiliedig ar feini prawf sy'n mynnu bod darpariaeth effeithiol ar gyfer rheoli gwastraff cynaliadwy yn cael ei ymgorffori mewn datblygiadau newydd.

RP 11 – Tir Amaethyddol – Gwaredu Gwastraff Anadweithiol – yn nodi'r meini prawf ar gyfer dyddodi deunyddiau gwastraff anadweithiol a fewnforiwyd ar gyfer gwella tir amaethyddol gradd isel.

Y

Monitro CDLI

7.79 Cyhoeddwyd yr ail AMR y CDLI, sy'n cwmpasu'r cyfnod 2021-22 ym mis Hydref 2022. Mae'n cynnwys 1 dangosydd monitro mewn perthynas â gwastraff:

Dangosydd Lleol 111: Cynnal digon o dir a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer capasiti gwastraff y Sir. Defnyddir y dangosydd hwn hefyd i fonitro ***Amcan AC 19: Hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o wastraff mewn modd integredig, gan anelu at ddim gwastraff erbyn 2050***, o dan ***Thema AC Ffactorau Hinsawdd/Asedau Perthnasol***.

Dadansoddiad: Y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael gan y WPMR ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru yw adroddiad 2021-22, sy'n nodi gwagle safleoedd tirlenwi rhanbarthol a ragwelir o 7.5 mlynedd. Mae'r ffigwr hwn yn dibynnu ar sawl rhagdybiaeth, gan gynnwys amgylchiadau unigol y safleoedd tirlenwi sy'n weithredol ar hyn o bryd (e.e. contractau posibl sy'n dod i ben), safleoedd tirlenwi newydd neu weithfeydd triniaeth gweddilliol amgen yn dod yn weithredol, y gostyngiad ym maint gwirioneddol y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir, a chynnydd yn y gwastraff a ailgylchir, a ailddefnyddir neu a gompostir. Bu i unig safle tirlenwi y sir, Tir John, gau fel safle tirlenwi yn 2022, ac mae gwastraff gweddilliol yn cael ei gludo o'r sir i'w waredu mewn cyfleusterau Ynni o Wastraff. Bydd sut bydd hyn yn effeithio ar gapasiti tirlenwi rhanbarthol yn cael ei fonitro'n ofalus. Mae'r adroddiad yn barnu fod darpariaeth briodol ar y pryd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ac nad oes angen capasiti newydd. Serch hynny, mae polisi CDLI yn galluogi datblygu gwaith trin gwastraff newydd os oes angen rhagor

o gaspasiti. Pan gaiff y CDLI ei adolygu, dylid adolygu'r polisïau gwastraff o fewn y CDLI i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r WPMR diweddaraf a'r sefyllfa yn y sir

O ran cyfleusterau trin gwastraff mewnol, caiff y defnydd o dir cyflogaeth ei fonitro'n benodol gan Ddangosydd 11. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r monitro hyd yma, ynghyd â'r rhwydwaith presennol o gyfleusterau sy'n weithredol ar hyn o bryd, ystyrir bod digon o dir a chyfleusterau ar draws y Sir i ymdrin â sgil-gynhyrchion gwastraff. Ar y sail hon, ystyrir bod gofynion y dangosydd hwn wedi'u bodloni.

Cam Gweithredu: Dim angen gweithredu pellach, heblaw am barhau i fonitro.

Adolygu ac Amnewid y Cynllun Datblygu Lleol

7.80 Mae deddfwriaeth cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'u CDLI mabwysiedig, a hynny heb fod yn hwy na 4 blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu, ac o'r herwydd mae gofyn yn awr i Gyngor Abertawe gychwyn adolygiad o'r fath o GDLI Abertawe.

7.81 Mae'r Awdurdod Cynllunio wedi llunio **Adroddiad Adolygiad CDLI Abertawe drafft**, sy'n nodi canfyddiadau adolygiad cynhwysfawr o'r Cynllun presennol. Mae'r Adroddiad am yr Adolygiad yn nodi y llwybr gweithredol priodol ar gyfer llunio CDLI Amnewid Abertawe, ac yn clustnodi'r materon allweddol i'w hystyried wrth symud y broses yn ei blaen.

7.82 Un o argymhellion allweddol Adroddiad Adolygiad CDLI Abertawe drafft yw dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol lunio **Cytundeb Cyflawni CDLI Amnewid**. Mae'r Awdurdod Cynllunio felly wedi llunio Cytundeb Cyflawni drafft sy'n cynnwys dwy brif ran: Amserlen a Chynllun Cynnwys Cymunedol. Bwriad yr Amserlen yw helpu rheoli prosiectau y CDLI Amnewid, gan sicrhau ei bod yn cael ei pharatoi o fewn y terfyn amser a nodwyd. Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedol yn nodi sut a phryd fydd y gymuned a'r gwahanol randdeiliaid yn cyfrannu at baratoi'r cynllun.

7.83 Ar 2 Mawrth 2023 cymeradwyodd Aelodau'r Cyngor fersiynau drafft Adroddiad yr Adolygiad a'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r dogfennau'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd tan 20 Ebrill. Bydd y dogfennau terfynol yn cael eu hadrodd i gyfarfod y dyfodol o'r Cyngor, a ddisgwylir ym Mehefin/Gorffennaf cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

7.84 Yn dilyn cael Llywodraeth Cymru i gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni, bydd y CDLI Amnewid yn cychwyn yn ffurfiol. Yn unol â'r Cytundeb Cyflawni Drafft, disgwylir bydd y CDLI Amnewid yn cael ei fabwysiadu ym mis Medi 2026.

Casgliadau ar Gynlluniau Datblygu Lleol

7.85 Mae pob un o'r ACLlau yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi mabwysiadu CDLIau sydd ar waith gyda pholisïau a fydd yn cyfrannu at hwyluso'r seilwaith gwastraff angenrheidiol ar gyfer y rhanbarth.

7.86 O ran monitro CDLI, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi nodi'r newidiadau mewn polisi cenedlaethol nad ydynt bellach yn gofyn am fonitro gwastraff fel dangosydd 'craidd'. Fodd

bynnag, mae pob awdurdod wedi cyhoeddi o leiaf un o'u AMR ers eu mabwysiadu, ac wedi parhau i nodi gwastraff fel dangosydd, er ar raddfa fwy lleol, ac yn parhau i fonitro'r pwnc hwn ar lefel eu hawdurdod.

7.87 Yn bwysig, mae'r holl awdurdodau cyfansoddol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn gwbl gyfarwydd â'r sefyllfa yn genedlaethol, o ran newidiadau ym Mholisi Cynllunio Cymru a TAN 21, ac yn cysylltu'n rheolaidd drwy gyfarfodydd chwe-misol Grŵp Pwnc Mwynau a Gwastraff Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW). Mae pob awdurdod cyfansoddol bellach yn gwneud defnydd llawn o'r dystiolaeth a'r argymhellion yn yr WPMRs blynyddol wrth baratoi eu AMR ac Adolygiadau CDLI.

7.88 Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar baratoi CDLIau dros y tair blynedd diwethaf. Mae pob awdurdod wedi adrodd am oedi gyda'u hamserlenni paratoi, gyda rhai awdurdodau yn adolygu eu Cytundeb Cyflawni i ddarparu ar gyfer y llithriad. Helpodd cyngor LIC ar ffurf llythyr gweinidogol i leddfu'r pwysau yn y llwyth gwaith drwy ddileu'r gofyniad i gyflwyno AMR ym mis Hydref 2020. Roedd llythyr gweinidogol arall yn lleddfu ofnau ynghylch dyddiadau diwedd oes ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd, drwy egluro'r sefyllfa.

7.89 Yn fwy diweddar mae'r sefyllfa o ran data a chanllawiau sydd newydd eu cyhoeddi gan CNC mewn perthynas â lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol wedi dod i'r amlwg ac mae'n broblem i sawl awdurdod lleol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Ochr yn ochr â'r datganiad sefyllfa cynllunio a'r adroddiad tystiolaeth, mae CNC yn darparu rhywfaint o ganllawiau interim cyfyngedig i gefnogi'r gwaith o ystyried cynigion a phrosiectau datblygu. Mae CNC yn awyddus i weithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r canllawiau hyn ymhellach. Yn ogystal, mae'r awdurdodau unigol dan sylw yn cydgysylltu â'i gilydd, yn ogystal ag edrych i weld beth sy'n cael ei wneud mewn awdurdodau yn Lloegr sydd mewn sefyllfa debyg, er mwyn cyflawni ffordd ymlaen. Mae Byrddau Rheoli Maetholion (NMBs) wedi'u sefydlu'n ddiweddar ar gyfer afonydd Tywi, Teifi a Chleddau. Bydd y Byrddau'n adnabod ac yn cyflawni camau gweithredu sy'n cyrraedd targedau cadwraeth ffosfforws ar hyd afonydd yr ACA trwy gyflawni Cynlluniau Rheoli Maetholion. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn arwain y ffordd yn ei chyhoeddiad diweddar o gyfrifiannell cyllideb faetholion i ddatblygwyr gyfrifo lefel y ffosffadau y bydd eu datblygiad yn ei gynhyrchu; mae hwn yn gam cyntaf pwysig er mwyn caniatáu i ddatblygiad maethol niwtral fynd rhagddo.

8 CYFEIRIAD POLISI A NEWIDIADAU YN Y DYFODOL

8.1 Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yw'r ddogfen bolisi cynllunio defnydd tir genedlaethol ar gyfer Cymru. Mae'n nodi polisiau defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Fe'i defnyddir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau) i hysbysu polisiau a dyraniadau defnydd tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) ac mae'n ystyriaeth berthnasol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol.

8.2 Er bod datblygu cynaliadwy wedi bod wrth wraidd PPW ers iddo gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2002, ychydig iawn oedd wedi newid i fformat y ddogfen ers hynny. Pan oedd *Deddf Cynllunio (Cymru)*, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (DLICD)* a *Deddf yr Amgylchedd (Cymru)* yn cael eu datblygu, ymrwymwyd i ailstrwythuro PPW fel bod tystiolaeth gliriach o ofynion deddfwriaethol y darnau hyn o ddeddfwriaeth.

8.3 Mae'r system gynllunio yn un o'r prif arfau sydd ar gael i greu lleoedd cynaliadwy a gall wneud cyfraniad mawr i weithrediad llwyddiannus Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. O ganlyniad, ar gyfer Argraffiad 10 (a gyhoeddwyd yn 2018), cafodd Polisi Cynllunio Cymru ei ailstrwythuro i adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol newydd, a ddarperir gan y Deddfau newydd, tra'n parhau i ddarparu cyd-destun priodol ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau ar gynigion datblygu.

8.4 Wrth ailstrwythuro PPW, mae rhai gofynion polisi newydd wedi'u cyflwyno mewn nifer o'r penodau. O ran gwastraff, mae hybu'r economi gylchol wedi'i gyflwyno i annog a hyrwyddo gweithredu cadarnhaol ac ystyriaeth gynnar o ddewisiadau deunyddiau a'r defnydd o adnoddau yn y broses gynllunio ac i ddarparu mwy o sbardun ar gyfer gweithredu ymhellach i fyny'r hierarchaeth wastraff. Gall gwneud y defnydd gorau o adnoddau arwain at ddewisiadau gwell o ran lleoliad, trin safle a dylunio. Ar lefel strategol mae angen cynnal y seilwaith angenrheidiol i symud tuag at economi gylchol.

8.5 Economi gylchol yw un sy'n ceisio cadw deunyddiau, cynhyrchion a chydannau mewn defnydd cyhyd â phosibl. Mae manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd o ddefnyddio dull o'r fath, yn fwyaf nodedig y cynnydd mewn gwerth a chynhyrchiant deunyddiau, arbedion ariannol i'r sector adeiladu ac atal gwastraff i'r gymdeithas gyfan.

8.6 Mae gan awdurdodau lleol ran bwysig i'w chwarae wrth hwyluso symudiad tuag at wreiddio cylchredeg yn y llif deunyddiau. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r dewis gorau o ddeunyddiau ac effeithlonrwydd defnydd. Bydd atal gwastraff a defnyddio llai o adnoddau yn y lle cyntaf yn helpu i osgoi creu gwastraff na ellir ei aildefnyddio'n effeithiol. Yn y pen draw, mae hyn yn lleihau'r deunyddiau sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi ac yn gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau cyfyngedig. Efallai y bydd gostyngiadau sylweddol mewn costau, mewn costau deunyddiau, gostyngiad mewn costau gwaredu a gostyngiad sylweddol mewn symudiadau cerbydau sy'n gysylltiedig â symudiadau deunyddiau, sy'n gysylltiedig â chynllunio cyn-weithredol gofalus o'r math hwn.

8.7 Gall awdurdodau cynllunio hefyd hyrwyddo ailgylchu deunyddiau gwastraff drwy ddyrannu tir ar gyfer gweithgareddau o'r fath, drwy annog yr arfer o ailgylchu ar y safle mewn safleoedd mwynau, ac annog ailgylchu gwastraff adeiladu a dymchwel ar y cyd â defnyddiau addas eraill, megis fel ierdydd masnachwyr adeiladwyr. Dylid hefyd ymgorffori cyfleusterau a lle

digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff yng nghynllun unrhyw ddatblygiad yn ogystal ag ymdrechion atal gwastraff yn ystod y cam dylunio adeiladu a dymchwel.

8.8 Cyhoeddwyd rhifyn diweddaraf PPW - rhif 11 ym mis Mawrth 2021 i gyd-fynd â chyhoeddi *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040* (yn flaenorol y *Fframwaith Datblygu Cenedlaethol FfDC*). *Cymru'r Dyfodol* yw'r cynllun datblygu ar gyfer Cymru. Bydd yn dylanwadu ar bob lefel o'r system gynllunio yng Nghymru ac yn rhoi cyfeiriad i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ac yn cefnogi strategaethau economaidd, trafnidiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau y gellir eu cyflawni drwy'r system gynllunio. Eistedd Polisi Cynllunio Cymru 11 ochr yn ochr â *Chymru'r Dyfodol* ac mae wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r gwahanol fesurau a nodir yn y cynllun cenedlaethol, yn ogystal â chyfeirio at bandemig Covid-19.

8.9 Mae gan Gymru gyfle i adeiladu ar y ffaith bod ganddi un o'r cyfraddau ailgylchu gwastraff uchaf yn y byd ar hyn o bryd, a chydag arloesedd a buddsoddiad gallai o bosibl ddod yn arweinydd Ewropeaidd ym maes rheoli gwastraff technoleg uchel, gan ddefnyddio technegau datgarboneiddio gwastraff a gan baratoi'r ffordd ar gyfer defnyddio Gwres a Phŵer Cyfun (CHP) yn y DU.

8.10 Cyflwynwyd a thrafodwyd arwyddion calonogol ar gyfer y dyfodol o ran cynnydd tuag at yr economi gylchol ym *Mhrif Seminarau Fforwm Polisi Cymru* ar Wastraff dros y blynyddoedd diwethaf. Gydag amrywiaeth o brif siaradwyr o'r diwydiant gwastraff ac adnoddau, yn ogystal â chynrychiolwyr o lywodraeth leol a chanolog, mae'r seminarau'n amlygu'r cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud o ran ailgylchu gwastraff, ailddefnyddio a chroesawu'r economi gylchol.

8.11 Yn dilyn pandemig covid-19, cynhaliwyd y ddau seminar diwethaf ar-lein ac maent wedi canolbwyntio ar weithredu'r strategaeth *Mwy nag Ailgylchu* a hyrwyddo'r economi gylchol yng Nghymru.

8.12 Wrth siarad yn y seminar ym mis Medi 2020, tynnodd David Warren, Pennaeth Datblygu'r Economi Gylchol LIC, sylw at y ffaith bod ailgylchu wedi dod yn rhan o ddiwylliant Cymru dros yr 20 mlynedd diwethaf a gall y genedl fod yn falch gan fod ganddi bellach y drydedd gyfradd ailgylchu uchaf yn y byd. Nododd fod 40 o ddigwyddiadau wedi'u trefnu ledled Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad ar gyfer *Mwy nag Ailgylchu* a chafwyd tua 1,000 o ymatebion gan ddinasyddion a rhanddeiliaid ar sut y dylem bontio tuag at economi ddiwastraff / gylchol. Tynnodd sylw hefyd at rai newidiadau diddorol a ddeilliodd o'r pandemig, megis cymunedau'n dod at ei gilydd i gymryd camau wedi'u targedu, a busnesau'n addasu i oroesi a ffynnu. Ychwanegodd, trwy'r pandemig, fod y wlad nid yn unig wedi dangos ei gwydnwch, ond hefyd bu ymwybyddiaeth gynyddol o ba mor bwysig yw adnoddau a pha mor brin y gallant fod.

8.13 Amlygodd y seminar nifer o enghreifftiau o arfer da o ran sut yr oedd yr economi gylchol eisoes yn cael ei rhoi ar waith mewn prosiectau a gwaith bob dydd. Er enghraifft, mae Dr Gavin Bunting wedi sefydlu Grŵp Ymchwil ac Arloesi'r Economi Gylchol (CERIG) gyda'r nod o gysylltu arbenigedd cyflenwol (academyddion a diwydiant) i hwyluso arloesedd ac ymchwil economi gylchol yng Nghymru i helpu i lywio polisi'r llywodraeth. Tynnodd Dr Bunting sylw at enghraifft y cwmni Riversimple sydd, wrth ddatblygu car tanwydd hydrogen, wedi gwreiddio cylchredeg yn eu model busnes.

8.14 Yn y seminar mwy diweddar ym Mai 2022, roedd y ffocws ar yr heriau o weithredu *Mwy nag Ailgylchu*, ac roedd nifer o siaradwyr o fyd diwydiant a'r byd academiaidd yno i roi eu sylwadau a'u hatebion. Er bod cyfraddau ailgylchu uchel Cymru yn cael eu cydnabod, cafodd y cwestiwn sut gallwn wneud rhagor ei drafod ac roedd hyn yn cynnwys atebion a amrywiai o'r angen am newid sylfaenol i ymddygiad i'r angen i symud ein sylw i ddeunyddiau anodd eu hailgylchu. Roedd lleihau gwastraff gweddilliol trwy aildefnyddio hefyd yn allweddol i'r drafodaeth a rhoddwyd enghreifftiau o'r llwyddiannau hyd yn hyn i'r perwyl hwn.

8.15 Roedd seminar Mai 2022 hefyd yn canolbwyntio ar sgiliau datblygu i ddiwallu anghenion yr economi werdd, gan ddefnyddio egwyddorion yr economi gylchol. Unwaith eto, fel yn achos seminarau cynt, roedd pobl broffesiynol o'r byd busnes ac academiaidd yn bresennol – ar y cyd yn aml - i ddisgrifio atebion, profiadau a llwyddiannau.

8.16 Mae enghreifftiau fel y rhain yn dangos bod cofleidio'r economi gylchol nid yn unig yn gynaliadwy ac yn dda i'r amgylchedd, ond gall hefyd fod yn broffidiol i gwmnïau. Y gobaith yw y bydd y straeon llwyddiant hyn yn annog cwmnïau eraill i dreialu a defnyddio dulliau tebyg, a gallai hyn yn y pen draw fod yn gymhelliant i newid ffordd o feddwl pobl tuag at wireddu manteision yr economi gylchol.

Cysylltiadau â Strategaethau ac Astudiaethau eraill

8.17 Mae cyfleoedd i edrych ar y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gyda PPW 11 a'u cysylltu/integreiddio â blaenoriaethau/amcanion eraill LIC, a nodir mewn dogfennau a strategaethau megis *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23: Datblygiad Economaidd, ac Arloesi Cymru*.

8.18 Mae gan y diwydiant Gwastraff gyfraniad pwysig i'w wneud at ddatblygiad economaidd y wlad, ac felly mae'r amcanion a nodir yn TAN 23 yn arbennig o berthnasol. Tra'n cydnabod bod yn rhaid parhau i gynllunio ar gyfer dosbarthiadau defnydd tir traddodiadol B1-B8 mewn modd cynaliadwy, mae TAN 23 yn cydnabod mai dim ond rhan o'r gweithgaredd yn yr economi yw'r rhain a bod angen i gynllunio ar gyfer datblygiad economaidd ddarparu ar gyfer unrhyw ddefnydd economaidd ar dir lle mae gweithgareddau yn cynhyrchu cyfoeth, swyddi ac incwm. Mae cydnabyddiaeth y TAN o'r angen am ymlyniad cynllunio mwy na lleol yn fater pwysig. Fel y gwelsom o'r Adroddiad hwn, a WPMRs blaenorol, mae gwastraff yn ddiwydiant sy'n addas iawn ar gyfer gweithio trawsffiniol, ac felly mae'r anogaeth i weithio'n rhanbarthol a bennwyd yn TAN 23 yn arbennig o berthnasol i'r maes hwn.

8.19 Mae tystiolaeth, ar y Cyfandir yn ogystal ag yn y DU, wedi dangos bod y diwydiant gwastraff yn addas iawn ar gyfer arloesi. Mae technegau a phrosesau ym maes rheoli gwastraff yn esblygu'n gyson, a gall yr adeiladau sy'n eu cynnwys fod yn bensaernïol arloesol ac yn gallu edrych gartref o fewn parciau technegol a gwyddoniaeth modern. Fel yr amlygwyd uchod, bydd y newidiadau sydd eu hangen i symud tuag at yr economi gylchol yn gofyn am gyfleusterau newydd ac arloesol ar gyfer ymdrin â'n gwastraff – ar lefel genedlaethol, strategol a lleol.

8.20 Arloesedd yw un o brif yrwyr allweddol LIC ar gyfer twf economaidd a chreu swyddi. Cyhoeddodd LIC *Arloesi Cymru* yn 2014. Mae'r ddogfen yn ceisio cydnabod a deall rôl arloesi yn economi Cymru ac mae'n ategu ac yn adeiladu ar strategaethau a dulliau polisi presennol yng Nghymru. Arloesedd yw manteisio i'r eithaf ar syniadau newydd yn llwyddiannus a gall

gynnwys datblygu cynhyrchion newydd neu well, prosesau gwahanol neu well ar gyfer cynhyrchu nwyddau neu wasanaethau, neu gyflwyno gwasanaethau cwbl newydd.

8.21 Mae'r diwydiant gwastraff eisoes wedi dechrau elwa ar arloesi, nid yn unig drwy ddylunio technolegau newydd ond hefyd drwy leihau'r swm a'r math o ddeunydd a ddefnyddir wrth gynhyrchu, a thrwy fynd i'r afael â materion cylch oes gyfan megis ailddefnyddio ac ail-gynhyrchu. Bydd newidiadau o'r fath yn cyfrannu at gadernid busnes a thwf economaidd.

9 CASGLIADAU

9.1 Mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff hwn wedi:

- coladu ac asesu'r data sydd ar gael ar yr holl sgil-gynhyrchion gwastraff yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru er mwyn monitro tueddiadau o ran sgil-gynhyrchion gorffennol ac yn y pen draw monitro perfformiad yn erbyn y targedau a nodir yn TZW a'r CIMSP;
- coladu ac asesu'r data sydd ar gael ar wagleoedd tirlenwi ac wedi gwneud rhagfynegiad o ran capasiti tirlenwi sy'n weddill yn y rhanbarth;
- coladu ac asesu'r data sydd ar gael ar sgil-gynhyrchion a rheolaeth gwastraff gweddilliol (gan gynnwys gwastraff bwyd) a rhoi sylwadau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd targedau o ran dewisiadau amgen i dirlenwi;
- coladu gwybodaeth am gynlluniau rheoli gwastraff / adfer adnoddau presennol awdurdodau lleol a chaffael yn y dyfodol;
- casglu ac asesu gwybodaeth am gwmpas materion gwastraff mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, gan gynnwys AMR ac Adolygiadau CDLI, i fonitro gweithrediad darpariaethau TAN 21: Gwastraff.

9.2 Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn dangos er bod nifer o dargedau wedi'u cyrraedd, mae nifer o heriau sylweddol o'n blaenau.

9.3 Dyma'r ail Adroddiad Monitro sy'n cwmpasu Canolbarth a De-orllewin Cymru, yn dilyn y newid mewn grwpiau rhanbarthol i gyd-fynd â thair rhanbarth economaidd Cymru. Er nad yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol â WPMRs blaenorol (sef rhai rhanbarth De-orllewin Cymru), mae'r newid bach yn aelodaeth awdurdodau lleol (h.y. Powys yn ymuno â'r rhanbarth, ond mae Pen-y-bont ar Ogwr yn symud i ranbarth De-ddwyrain Cymru) yn golygu bod y data ar y 5 awdurdod arall yn dal yn berthnasol. Lle bo'n bosibl, mae data sy'n mynd yn ôl sawl blwyddyn ar gyfer yr holl awdurdodau wedi'i osod i alluogi cymariaethau ar lefel awdurdodau unigol yn ogystal ag ar gyfer y rhanbarth gyfan.

Cynnydd o ran cyrraedd targedau *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* (TZW)

Gostyngiad yn y Gwastraff a Gesglir gan Awdurdodau Lleol (LACW)

9.4 Roedd cyfanswm sgil-gynhyrchion LACW, yn gyffredinol, wedi bod yn gostwng dros y cyfnod 2006/07 i 2012/13 ym mhob un o chwe awdurdod Canolbarth a De-orllewin Cymru. Ar gyfer y rhanbarth cyfan, roedd targed TZW o leihau LACW gan 1.5% bob blwyddyn ers gwaelodlin 2006/07 yn gyffredinol yn cael ei gyrraedd hyd at 2013/14, pan ddaeth y newid yn y diffiniad o Wastraff Dinesig Soled (GDS) o fis Ebrill 2012 i gynnwys mwy o fathau o wastraff ac felly wedi arwain at gynnydd mewn ffigurau tunelli gwastraff. O hynny ymlaen, cynyddodd cyfanswm sgil-gynhyrchion LACW i bwynt uchel yn 2015/16, ond mae'r symiau wedi gostwng dros y pum mlynedd adrodd dilynol. Er nad yw'r gostyngiadau wedi gostwng yn gyson gan 1.5% flwyddyn ar ôl blwyddyn yn unol â tharged TZW, y ffigur adrodd ar gyfer 2020/21 oedd yr isaf am y degawd diwethaf. Er bod yr arwyddion hyn yn addawol, mae'r cynnydd bach yn y

ffigur adrodd diwethaf (2021/22) yn golygu bydd angen ymdrech barhaus i sicrhau bod targed Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn cael ei gyrraedd yn y dyfodol.

Ailgylchu a Chompostio LACW

9.5 Bu cynnydd cyson mewn cyfraddau ailgylchu a chompostio dros y blynyddoedd, gyda thri o'r chwe awdurdod yn cwrdd â tharged 2012/13 o 52%, a *phob un* o'r awdurdodau yn cwrdd â tharged 2015/16 o 58% o leiaf. Mae rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi perfformio'n gyson well na Chymru gyfan am y rhan fwyaf o'r naw mlynedd diwethaf, a chyflawnwyd targed TZW o gyflawni o leiaf 64% o ailgylchu erbyn 2019/20 ar lefel ranbarthol a Chymreig. Er bod gostyngiad bach ar lefel ranbarthol yn y cyfnod adrodd mwyaf diweddar (2021/22), mae targed 2024/25 o 70% (y mae Sir Benfro wedi ei gyrraedd eisoes am y drydedd flwyddyn yn olynol) yn edrych yn gyraeddadwy. Mae hyn yn gadarnhaol iawn, ac yn amserol, gyda chyhoeddiad strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru, *Mwy nag Ailgylchu*.

Tirlenwi Gwastraff a Gesglir gan yr Awdurdod Lleol (LACW)

9.6 Roedd cynnydd nodedig yn nifer y LACW a oedd yn mynd i safleoedd tirlenwi a adroddwyd yn 2017/18 a 2018/19. Mae'n debyg roedd hyn oherwydd y newidiadau mewn contractau gwastraff unigol mewn rhai awdurdodau lleol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae'r gostyngiad diweddar yn y defnydd o safleoedd tirlenwi gan awdurdodau lleol (gyda rhai awdurdodau bellach wedi ymrwymo i gontractau hirdymor ar gyfer defnyddiau amgen) yn galonogol. O ganlyniad, gostyngodd y symiau a adroddwyd o LACW sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yn y cyfnod 2019/20 ac maent wedi parhau i wneud hynny yn y ddau gyfnod adrodd diweddaraf.

9.7 Fodd bynnag, er bod hyn yn fwy cadarnhaol, mae'r potensial ar gyfer cynnydd anwadal yn y defnydd o safleoedd tirlenwi yn peri pryder, yn enwedig gan fod ansicrwydd ynghylch y lleoedd gwag sy'n weddill yn y rhanbarth o ran safleoedd tirlenwi.

9.8 Serch hynny, yr hyn sy'n glir yw bod y ffigurau gwirioneddol ar gyfer safleoedd tirlenwi LACW gryn dipyn yn llai (65% yn llai) yn 2021/22 nag a ragwelwyd yn CIMSP (2012) ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru ar gyfer yr un flwyddyn. Er bod hyn yn gadarnhaol iawn, mae angen monitro'r sefyllfa ymhellach dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, o gofio bod targed TZW (mor agos at sero gwastraff â phosibl yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi erbyn 2025) yn agosáu'n gyflym.

Tirlenwi Gwastraff Trefol Biogddiraddadwy (BMW)

9.9 Dengys y canlyniadau fod yr awdurdodau yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru (ar wahân i un eithriad) wedi cyrraedd eu targedau lwfans tirlenwi rhwng 2006 a 2020. Bu rhai amrywiadau dros y blynyddoedd, ond yn gyffredinol hyd at 2016 roedd y rhanbarth wedi perfformio'n well drwy ddefnyddio llai o'u lwfansau tirlenwi na Chymru gyfan. Ar ôl dwy flynedd o berfformiad gwaeth (gydag un awdurdod yn rhagori ar ei lwfans yn 17/18), yn 2019/20 defnyddiodd 4 o'r 6 awdurdod lai na 50% o'u lwfansau ac arhosodd pob un o'r 6 o fewn eu lwfansau.

9.10 2019-20 oedd y flwyddyn olaf y dyrannwyd lwfansau tirlenwi i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi lleihau faint o BMW a anfonir i safleoedd tirlenwi gan 91 y cant (778,195 tunnell) ers blwyddyn lawn gyntaf y cynllun yn 2005/06.

Gwastraff Diwydiannol a Masnachol (I&C)

9.11 Nid oes ffynhonnell barhaus o ddata blynyddol yn cael ei chadw ar gyfer gwastraff I&C. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf yn 2020, gan ddefnyddio data o flwyddyn galendr 2018. Roedd hyn yn gyffredinol yn debyg i'r ddau adroddiad blaenorol, un a gynhyrchwyd yn 2009 a'r llall yn 2012, (o leiaf ar lefel Cymru gyfan). Ar gyfer grwpiau rhanbarthol, nid yw cymariaethau uniongyrchol yn bosibl oherwydd mae adroddiad 2020 yn defnyddio grwpiau rhanbarthol gwahanol i adroddiad 2012. Dangosodd Adroddiad 2020 y bu cynnydd tuag at gyrraedd y targedau lleihau gwastraff ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol, er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol ar gyfer gwastraff masnachol. O ran paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio, dangosodd adroddiad 2020 ar gyfer gwastraff diwydiannol bod hyn wedi cyrraedd 69%, ond dim ond 64% a gyflawnodd masnachol. Targed TZW oedd 67% erbyn 2019/20, felly bu bron i hyn gael ei gyrraedd gan I&C gyda'i gilydd.

9.12 Dangosodd adroddiad 2020, er bod tirlenwi wedi parhau i fod yr ail lwybr rheoli uchaf ar gyfer gwastraff I&C yn 2018, bu gostyngiadau sylweddol ers 2012, gyda'r ffigwr ar gyfer gwastraff diwydiannol (9%) yn cyrraedd targed TZW o uchafswm o 10% yn cael ei dirlenwi. Dim ond ychydig bach y mae'r ffigwr gwastraff masnachol (12%) yn uwch na'r targed o 10%, ac felly ynghyd â gwastraff diwydiannol, mae'n parhau i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd targed 2024/25 sef uchafswm o 5% yn cael ei dirlenwi.

Gwastraff Adeiladu a Dymchwel (C&D)

9.13 Fel yn achos gwastraff I&C, ni chedwir ffynhonnell barhaus o ddata blynyddol ar gyfer gwastraff C&D. Cafodd yr astudiaeth ddiweddaraf ei chyhoeddi gan CNC yn 2022 ac roedd yn defnyddio canlyniadau arolwg 2019. Roedd y dull a ddefnyddiwyd yn arolwg 2019 yn gymharol yn bennaf â'r astudiaeth flaenorol (2012). Fodd bynnag, mae'r defnydd o ranbarthau economaidd Cymru sef Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru yn grŵp rhanbarthol ychydig yn wahanol o ardaloedd awdurdod lleol nag astudiaeth 2012, ac felly nid yw cymariaethau uniongyrchol rhwng y ddau adroddiad ar lefel ranbarthol yn bosibl.

9.14 O ran cyrraedd y targedau cenedlaethol a nodwyd yn TZW, dangosodd adroddiad 2022 bod y sector C&D yng Nghymru wedi llwyddo i gyrraedd y targedau atal a thirlenwi yn 2019, o'u mesur yn erbyn y tunellau amcangyfrifedig. Tybiwyd bod targed ailgylchu gwastraff C&D wedi'i gyrraedd yn 2019 ar sail cyfradd ailgylchu o 93%.

9.15 Mae adroddiad C&D 2022 [fel yn achos adroddiad I&C 2020 uchod] yn dangos dull data a chyflawni arolwg pendant y gellir ei ddefnyddio ar gyfer arolygon y dyfodol. Mae canlyniadau'r ddwy astudiaeth yn rhoi i ni'r set fwyaf dibynadwy a chyflawn o ddata cenedlaethol ar C&D [ac I&C] a gasglwyd hyd yn hyn yng Nghymru. Trwy arolygon o'r fath, mae gan Lywodraeth Cymru y fantais o gael cyfres o ddata creu gwastraff pendant sy'n galluogi cymariaethau rhwng gwahanol flynyddoedd ar gyfer metrigau allweddol, ac adeiladu darlun o dueddiadau a datblygiadau dros amser.

9.16 Yn bwysig ddigon, yn achos monitro a chynllunio gwastraff, gall awdurdodau cynllunio ddefnyddio'r data o'r arolygon ar lefel genedlaethol a rhanbarthol i lywio cynllunio gwastraff,

Gwastraff Peryglus

9.17 Mae symiau'r gwastraff peryglus sy'n codi yng Nghymru, yn ogystal â'r rhai a ddyddodir yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, wedi amrywio o 2007 ymlaen gan arwain at bwynt uchel mewn sgil-gynhyrchion yn 2017 ar gyfer Cymru (2016 ar gyfer y rhanbarth), pan am y tro cyntaf ers cyhoeddi'r CIMSP yn 2012, cynhyrwyd mwy o wastraff peryglus yng Nghymru nag a gafodd ei ddodi, gan wneud y Wlad yn allforiwr net o'r gwastraff hwn. Parhaodd hyn am ail flwyddyn ar lefel Cymru, cyn dychwelyd i'r wlad fel mewnforiwr net yn 2019, 2020 a 2022. Ar lefel Canolbarth a De-orllewin Cymru, mae'r rhanbarth wedi parhau i fod yn allforiwr net o wastraff peryglus ym mhob un o'r blynyddoedd rhwng 2016 a 2021.

9.18 O ran faint yn union o wastraff peryglus a gynhyrchir, mae wedi amrywio dros y chwe blynedd rhwng 2015-21, gan gyrraedd uchafbwynt o dros 460,000 tonnall yn 2017, i ymhell o dan 260,000 tonnall yn 2019. Ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru, roedd sgil-gynhyrchion gwastraff wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn o uchafbwynt o dros 110,000 tonnall yn 2016 i tua 77,000 tonnall yn 2020. Fodd bynnag, adroddwyd cynnydd bach ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol am y cyfnod adrodd terfynol yn 2021.

9.19 Fodd bynnag, o ran tirlenwi gwastraff peryglus (yn Lloegr), mae hyn wedi bod yn gostwng yn raddol ers 2013, wrth i brosesau trin eraill mwy cynaliadwy eu disodli (er y bu amrywiadau bach yn 2018, 2020 a 2021). Er nad oes gan Gymru unrhyw safleoedd tirlenwi gwastraff peryglus penodedig, gellir darparu ar gyfer y tunelli bach o wastraff nad yw'n cael ei brosesu mewn gweithfeydd trin cemegol, ffisegol a ffisigocemegol yng Nghymru mewn safleoedd tirlenwi gwastraff peryglus yn Lloegr sy'n hawdd eu cyrchu. Felly nid oes llawer o gymhelliant yn y farchnad i ddatblygu gwagleoedd tirlenwi gwastraff peryglus ychwanegol yng Nghymru.

Capasiti Tirlenwi sy'n Weddill

9.20 Credir bod y capasiti tirlenwi sy'n weddill a ragwelir ar gyfer rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn 5.5 mlynedd. Mae hyn yn fwy ffafriol na'r rhagfynegiad achos gwaethaf a nodir yn y CIMSP lle byddai'r oes tirlenwi sy'n weddill amcangyfrifedig yn dod i ben yn rhanbarth De-orllewin Cymru erbyn 2020/21 os na chaiff capasiti amgen ei ddatblygu a dim ond targedau ailgylchu LACW sy'n cael eu bodloni.

9.21 Fodd bynnag, mae'r ffigur capasiti tirlenwi sy'n weddill yn dibynnu ar nifer o ragdybiaethau, megis amrywiadau yn faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn, amgylchiadau unigol y safleoedd tirlenwi sy'n gweithredu ar hyn o bryd (e.e. contractau posibl yn dod i ben), cau safleoedd tirlenwi presennol, safleoedd tirlenwi newydd neu weithfeydd trin gweddilliol eraill yn dod yn weithredol, y gostyngiad mewn symiau gwirioneddol gwastraff gweddilliol a gynhyrchir, a chynnydd yn swm y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu, ei aildefnyddio neu ei gompostio.

9.22 Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod rhai o'r amrywiannau hyn wedi cael effaith a gellir gweld hyn yn y gostyngiad mewn lle gwag ers adroddiad y llynedd (7.5 mlynedd) i ffigur eleni o 5.5 mlynedd. Er nad yw'r ffigwr wedi gostwng yn is na'r sbardunau **5 mlynedd** a nodir

yn *TAN 21: Gwastraff* – y trothwyon a adnabuwyd ar gyfer cymryd unrhyw gamau a all fod yn angenrheidiol i hwyluso darpariaeth tirlenwi yn y dyfodol – byddai'r sefyllfa'n awgrymu dylai'r rhanddeiliaid perthnasol ystyried trafodaethau rhagarweiniol o ran cymryd camau, a byddent yn cynnwys Llywodraeth Cymru, CNC, awdurdodau lleol (Tîmau Cynllunio a Gwastraff) yn ogystal â'r Diwydiant Gwastraff.

Gwastraff Gweddilliol

9.23 Mae'n galonogol nodi fod yr union symiau o LACW gweddilliol yng Nghymru yn ei chyfanrwydd ac yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi bod yn gostwng dros y cyfnod rhwng 2016/17 a 2019/20. Er bod cynnydd bach wedi bod yn y ffigurau yn y ddau gyfnod adrodd diwethaf o ran rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, mae'r swm dal o fewn sgil-gynhyrchion rhagweladwy CIMSP ar gyfer 2024-25 (ar gyfer De-orllewin Cymru). Er bod hyn yn gadarnhaol, roedd 35% o'r gwastraff gweddilliol hwn yn dal i gael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn 2021/22. Gan gyfeirio at Gymru gyfan, dywedodd y CIMSP (2012) ei bod yn amlwg nad oes digon o gapasiti ar hyn o bryd mewn cyfleusterau "adfer arall" os ydym am gyrraedd nod 2025 o fod mor agos at ddim tirlenwi â phosibl. Mae'r datganiad hwn yn dal yn wir wrth ystyried rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Fodd bynnag, fel gyda chapasiti tirlenwi yn y dyfodol, nid yw'r mater gwastraff gweddilliol yn gwbl glir ac mae'n dibynnu ar nifer o newidynnau.

9.24 Nid oes dim cyfleusterau ar gyfer trin gwastraff gweddilliol wedi'u gweithredu yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn y blynyddoedd diwethaf, heblaw am un sy'n delio'n benodol â gwastraff pren. Gwrthodwyd caniatâd cynllunio i un prosiect gwastraff gweddilliol arall o fewn y rhanbarth, yn rhannol ar y sail nad oedd digon o wastraff yn y rhanbarth i'w wneud yn ymarferol. Yn fwy diweddar, gwrthodwyd cais cynllunio ar gyfer cyfleuster troi gwastraff yn ynni bach yn y rhanbarth.

9.25 Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig a oes unrhyw angen gwirioneddol am gyfleusterau trin gweddilliol newydd yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, gan gofio bod awdurdodau yn y rhanbarth eisoes wedi cymryd rhan mewn contractau, gyda rhai ohonynt yn ymwneud â chludo eu gwastraff gweddilliol y tu allan i'r DU i'w drin. Yn gyffredinol, mae llawer o gapasiti prosesu gwastraff yn Ewrop ac o ganlyniad mae'r awdurdodau hynny sy'n anfon eu gwastraff gweddilliol i Ewrop wedi canfod ei bod yn fwy cost effeithiol gwneud hynny na'i anfon i gyfleusterau yng Nghymru neu Loegr. Felly mae'r achos economaidd dros greu rhagor o gapasiti yn y rhanbarth yn cael ei wanhau ymhellach. Fodd bynnag, bydd effaith bosibl ymadawiad y DU â'r UE yn rhywbeth y bydd angen ei ystyried, yn enwedig sut y bydd hyn yn effeithio ar y defnydd o gyfleusterau gwastraff yn Ewrop.

9.26 Er bod Dinas a Sir Abertawe wedi cymryd rôl yr awdurdod arweiniol ar gyfer caffael contract hirdymor ar gyfer trin gwastraff gweddilliol yn thermol yn y rhanbarth yn y blynyddoedd diwethaf, ni chafodd hyn ei gefnogi yn y pen draw gan Lywodraeth Cymru. Yn fuan wedi hynny, cafodd safbwynt Llywodraeth Cymru ar ynni o gyfleusterau gwastraff ei bennu yn *Mwy nag Ailgylchu*. Cyflwynodd y strategaeth newydd hon ohiriad yn syth ar gyfleusterau ynni i wastraff yng Nghymru, a theimlir ei heffaith eisoes, gan fod dau gyfleuster o'r fath wedi'u gwrthod, un ger y Trallwng a'r llall yng Nghaerdydd.

9.27 Mae'r sefyllfa o ran trin gwastraff gweddilliol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru (fel gyda'r capasiti tirlenwi sy'n weddill a amlygwyd uchod) yn rhywbeth y bydd angen ei fonitro'n agos dros yr ychydig flynyddoedd nesaf mewn adroddiadau monitro cynllunio gwastraff dilynol. Serch hynny, mae'n glir, o leiaf am y tro, fod darpariaeth ddigonol o ran y gofynion ar gyfer delio â gwastraff gweddilliol gan awdurdodau Canolbarth a De-orllewin Cymru, gan fwyaf y tu allan i'r rhanbarth.

Gwastraff Bwyd

9.28 O ran cyfleusterau, bu nifer o geisiadau newydd am weithfeydd treulio anaerobig o wahanol alluoedd, o gynigion fferm sengl i gynigion mwy megis cyfleuster treulio anaerobig Severn Trent Green Power (cyfleuster STGP ger Pen-y-bont ar Ogwr a ddaeth yn weithredol yn 2016). Er na chafodd yr ymarfer caffael rhanbarthol gwreiddiol ar gyfer gwastraff bwyd ei gwblhau erioed, mae cyfleuster STGP bellach yn cymryd y gwastraff bwyd o bedwar o'r chwe awdurdod lleol [ar gontractau hirdymor] yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae gan Sir Gaerfyrddin hefyd gontract gyda STGP ac mae'n defnyddio tri chyfleuster AD a weithredir gan y cwmni, gan gynnwys y ffatri ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ar hyn o bryd mae'r gwastraff bwyd o Gastell-nedd Port Talbot yn cael ei brosesu gan AD mewn amrywiol gyfleusterau y tu allan i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae'n werth nodi bod cyfleuster treulio anaerobig STGP ger Pen-y-bont ar Ogwr bellach yn rhan o ranbarth De-ddwyrain Cymru yn dilyn adlinio awdurdodau lleol â thair rhanbarth economaidd Cymru.

9.29 Gyda llawer o'r awdurdodau lleol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn ymwneud â chontractau hirdymor mewn perthynas â'u gwastraff bwyd, byddai'r sefyllfa'n awgrymu nad oes digon o angen yn y rhanbarth am gyfleuster treulio anaerobig newydd ar raddfa fawr. Yn wir, nid oedd yr ymarfer caffael cychwynnol ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru, tra'n cyflwyno un neu ddau o safleoedd a ffefrid (Nant-y-caws yn Sir Gaerfyrddin a Felindre yn Abertawe) nid oedd unrhyw gyfleuster gweithredol wedi'i ddatblygu yn y pen draw. Mae nifer o weithfeydd treulio anaerobig ar raddfa lai wedi cael caniatâd cynllunio yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac maent yn darparu ar gyfer gwastraff fferm, ond mae'n bosibl y gellid eu defnyddio ar gyfer gwastraff gan fusnesau masnachol lleol.

Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI)

9.30 Mae TAN 21 yn rhoi pwyslais arbennig ar y gofyniad i Gynlluniau Datblygu gynnwys polisïau ynghylch lleoliadau addas ar gyfer gweithrediadau rheoli gwastraff.

9.31 Bellach mae CDLlau mabwysiedig yn cwmpasu'r rhanbarth cyfan. Bellach mae gan bob un o'r wyth awdurdod cynllunio yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru (gan gynnwys y 2 Barc Cenedlaethol) Gynlluniau Datblygu Lleol ar waith, gydag amrywiaeth o bolisïau sy'n ymdrin â gwastraff.

9.32 Mae'n gadarnhaol gweld polisïau'r CDLI yn defnyddio cymysgedd o feini prawf a pholisïau sy'n seiliedig ar safleoedd penodol mewn perthynas â nodi tir ar gyfer anghenion seilwaith rheoli gwastraff yn y dyfodol. Mae'r defnydd o safleoedd cyflogaeth B2 at ddibenion gwastraff bellach wedi'i fabwysiadu fel prif ffrwd ac mae llawer o'r awdurdodau wedi adnabod digon o le ar eu dyraniadau cyflogaeth i ddarparu ar gyfer cyfleusterau gwastraff mewnol ychwanegol.

9.33 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau eisoes wedi cyhoeddi o leiaf un o'u hadroddiadau monitro blynyddol (AMR) CDLI ers mabwysiadu eu Cynlluniau. Er bod y rhan fwyaf wedi cydnabod y ffaith nad oes angen monitro gwastraff bellach fel 'dangosydd craidd', maent serch hynny wedi parhau i fonitro faint o dir a/neu gyfleusterau sydd wedi'u neilltuo neu sydd ar gael at ddibenion gwastraff yn eu siroedd, gan gynnwys gwybodaeth am geisiadau cynllunio newydd a chaniatadau. Cydnabyddir hefyd y ffaith bod yr WPMRs blynyddol ar gyfer y rhanbarth ar gael i'w defnyddio fel tystiolaeth mewn AMR ac Adolygiadau CDLI.

9.34 Mae rhai awdurdodau eisoes wedi dechrau ar yr Adolygiad o'u Cynlluniau Datblygu Lleol. Daw hyn ar adeg amserol gan y bydd adolygiadau o'r fath yn gallu ymgorffori'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno trwy ddiwygiadau i *Bolisi Cynllunio Cymru*, a chyflwyno *Cymru'r Dyfodol a Mwy nag Ailgylchu*.

9.35 Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar rediad Adrannau Cynllunio yn y rhanbarth, yn ogystal ag arwain at effeithiau canlyniadol ar amserlenni paratoi CDLlau diwygiedig.

9.36 Yn fwy diweddar mae mesurau newydd yn ymwneud â lefelau ffosffad mewn afonydd sydd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) wedi effeithio ar nifer o awdurdodau ledled Cymru, gan gynnwys rhai yn rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin. Mae'n bosibl y bydd hyn yn effeithio ar strategaethau CDLlau diwygiedig yn ogystal ag arwain at oedi pellach wrth baratoi'r cynllun a fydd yn golygu bod angen diwygio Cytundebau Cyflawni.

Cynlluniau rheoli gwastraff / adfer adnoddau presennol awdurdodau lleol a chaffael yn y dyfodol

9.37 Mae'n galonogol nodi bod pob awdurdod lleol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi rhoi cynlluniau arloesol ar waith, neu fod ganddynt gynlluniau ar gyfer y dyfodol, i gynyddu cyfraddau ymyl y ffordd a dod ag ailgylchu i helpu i gyrraedd y targedau a nodir yn TZW. Mae pob awdurdod yn rhoi cymorth i drigolion lleol ynghylch sut y gallant gynyddu ailgylchu eu gwastraff, ac mae rhai awdurdodau wedi cyflwyno mesurau fel hollti bagiau du yn eu canolfannau ailgylchu gwastraff cartref i sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau ailgylchadwy yn cael eu tynnu allan. Hefyd mae mesurau newydd yn cael eu gweithredu megis newid ymddygiad i annog cymdogion i gymryd rhan fel y rhai ar yr un stryd/yn y gymuned i ailgylchu cymaint o'u gwastraff â phosibl.

9.38 Cyngor Sir Penfro yw'r awdurdod cyntaf yng Nghymru i symud draw i System Rheoli Data Gwastraff Opensky. Ateb digidol i hwyluso olrhain gwastraff o'i gasglu i'w waredu, gyda chanlyniadau olrhain manwl gywir at ddibenion adrodd, cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae hon yn system unigryw a phwrpasol wedi'i seilio ar gwmwl sy'n caniatáu casglu, trawsnewid, rheoli ac adrodd data sy'n ymwneud â symud data o'i gasglu i'w waredu ar un plattfform digidol.

9.39 O ran caffael yn y dyfodol, yn enwedig y canolfannau rhanbarthol ar gyfer trin gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol, mae'r rhain yn faterion y bydd angen eu monitro'n agos dros y flwyddyn/blynyddoedd i ddod fel rhan o'r broses WPMR. Er bod contractau ar gyfer trin gwastraff bwyd i'w gweld yn gliriach, gyda mwyafrif yr awdurdodau'n defnyddio un neu fwy o gyfleusterau treulio anaerobig Severn Trent Green Power, mae'r sefyllfa o ran gwastraff gweddilliol yn fwy cymhleth gyda defnydd parhaus o safleoedd tirlenwi, yn ogystal â chyfleusterau troi gwastraff yn ynni y tu allan i'r rhanbarth.

9.40 Gyda'r sefyllfa ansicr ynglŷn â chapasiti tirlenwi yn y dyfodol yn y rhanbarth, a'r goblygiadau posibl y gallai Brexit eu cael ar y defnydd o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni ar y cyfandir, bydd contractau yn y dyfodol ar gyfer LACW gweddilliol yn bwnc pwysig y mae angen sefydlu eglurder yn ei gylch yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

9.41 Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar redeg Is-adrannau Gwastraff y Cyngor yn y rhanbarth a Chymru gyfan. Er bod awdurdodau lleol wedi cadw cynlluniau casglu ymyl y ffordd i fynd fel arfer, roedd mesurau cyfnod clo wedi arwain at gau ac amharu ar ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref (HWRC), a chynnydd yn y galw am gasgliadau ymyl y ffordd.

9.42 Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu defnyddio'n effeithiol gan Gynghorau i gyfathrebu â thrigolion y newidiadau sy'n deillio o'r pandemig. Mae gwefannau hefyd wedi bod yn arfau effeithiol ar gyfer hyrwyddo ailgylchu a lleihau gwastraff yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Bylchau Data:

9.43 Mae diffyg data blynyddol cyson ar gael ar gyfer rhai mathau o wastraff i alluogi monitro blynyddol rheolaidd. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gwastraff I&C, gwastraff C&D, gwastraff bwyd (o sectorau penodol) a gwastraff amaethyddol. Ar hyn o bryd, mae adroddiadau monitro ar wastraff I&C a C&D yn cael eu cynhyrchu bob pum mlynedd yn fras, er bod 10 mlynedd wedi mynd rhwng adroddiad 2012 ar wastraff C&D a'r diweddaraf yn 2022. Byddai cynhyrchu adroddiadau yn amlach yn galluogi mwy o gysondeb a chymaroldeb data.

9.44 Er bod adroddiad newydd ar wastraff I&C wedi'i gyhoeddi yn 2020, ar lefel ranbarthol (Canolbarth a De-orllewin Cymru) ni ellid cymharu hwn â'r adroddiad blaenorol (2012) gan nad oedd y cyntaf yn seiliedig ar dair rhanbarth economaidd Cymru.

9.45 Mae arolwg gwastraff I&C 2020 ei hun yn sefydlu er bod y wybodaeth am reoli gwastraff yn yr adroddiad yn ddibynadwy ar y cyfan, mae cywirdeb yn gyfyngedig oherwydd cymhlethdodau llwybrau rheoli gwastraff ac anawsterau o ran cysylltu tynged terfynol yn ôl i'r tarddle. Mae'n ychwanegu bod angen gwelliannau wrth olrhain gwastraff yn electronig o'r crud i'r bedd er mwyn gwella dibynadwyedd ystadegau gwastraff y sector Diwydiannol a Masnachol yn y dyfodol, a byddai'n darparu mwy o ddata amser real a rheolaidd heb yr oedi a'r gwall cynhenid o arolwg wedi'i samplu.

9.46 Yn yr un modd â gwastraff C&D, er bod yr arolwg diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2022 yn gymaradwy'n fras â'r ddwy astudiaeth gynharach ar lefel Cymru, mae ailstrwythuro'r rhanbarthau wedi golygu nad yw cymariaethau uniongyrchol ag astudiaethau cynharach yn bosibl. Hefyd, er bod y wybodaeth yn adroddiad 2022 yn ddibynadwy'n gyffredinol, nodir bod cywirdeb y canlyniadau yn gyfyngedig i'r wybodaeth sydd ar gael i gynhyrchwyr gwastraff a holwyd am gyrchfannau terfynol eu gwastraff. Mae'r adroddiad yn nodi bod angen gwella'r modd y caiff gwastraff ei olrhain yn electronig, o'r pwynt lle caiff ei greu i'w warediad terfynol, a hynny er mwyn gwella cynaliadwyedd ystadegau rheoli gwastraff y sector Adeiladu a Dymchwel yn y dyfodol.

9.47 Mae diffyg eglurder hefyd ynghylch maint a natur y gwastraff amaethyddol a gynhyrchir, yn ogystal â dulliau rheoli'r math hwn o wastraff penodol.

9.48 O ran gwastraff bwyd, er bod data blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar faint o wastraff bwyd awdurdodau lleol, nid yw'r symiau a gynhyrchir gan y sectorau eraill yn cael eu nodi'n gyson bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae adroddiadau a gynhyrchir gan gyrff fel WRAP bob ychydig flynyddoedd yn ffynonellau gwybodaeth defnyddiol iawn, ac yn amlygu i ba raddau y mae gwledydd y DU yn symud ymlaen tuag at gyrraedd targedau lleihau gwastraff bwyd.

9.49 Mae 11 mlynedd bellach ers cyhoeddi Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith, a Marchnad (CIMSP, 2012), a oedd yn cwmpasu casglu a rheoli pob gwastraff yng Nghymru a ddeilliai o bob sector (cyhoeddus a phreifat). Cafodd y data diweddaraf ar sgil-gynhyrchion gwastraff a rheoli ei ddefnyddio ar y pryd i lywio'r Cynllun. Ers ei gyhoeddi, mae diweddariadau wedi dibynnu ar ddata blynyddol ar rai ffrydiau, ond dim ond astudiaethau ysbeidiol ar ffrydiau eraill, megis gwastraff I&C a C&D. Felly gallai fod yn amserol llunio diweddariad i'r CIMSP dros y blynyddoedd nesaf er mwyn creu darlun manylach o'r sefyllfa gyfredol, yn enwedig yng ngoleuni'r targedau TZW oedd i ddod.

Argymhellion / materion i'w codi:

9.50 Mae dau grŵp penodol, sef Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW) a Grŵp Cynllunio Gwastraff De-orllewin Cymru (SWWWPG) yn cyfarfod yn gyffredinol ddwywaith y flwyddyn ac maent yn rhoi cyfle i drafod a datblygu pynciau a syniadau. Gyda'r newid yn y strwythur rhanbarthol i gyd-fynd â thri rhanbarth economaidd Cymru, mae Grŵp De-orllewin Cymru wedi cael ei ailstrwythuro'n ddiweddar i greu Grŵp Canolbarth a De-orllewin Cymru a chael cynrychiolwyr o Bowys i gymryd rhan mewn trafodaethau yn y dyfodol.

Contractau gwastraff

9.51 Pwnc sydd wedi'i godi yng nghyfarfodydd y ddau grŵp uchod yw'r angen am dabl o gontractau gwastraff ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru. Byddai hyn yn helpu gyda gwerthuso ceisiadau cynllunio gwastraff. Cytunwyd y byddai pob awdurdod yn casglu gwybodaeth ar gyfer eu hardaloedd ar gontractau, dyddiadau a chyrchfannau gwastraff. Byddai data o'r fath yn ddefnyddiol wrth gynhyrchu WPMR yn y dyfodol. Hyd yma, bu rhywfaint o gynydd, gyda gwahanol lefelau o wybodaeth yn cael ei darparu gan awdurdodau sydd wedi'i chynnwys yn adran caffael yr WPMR hwn (a chynt). Mae angen i'r broses fod yn fwy amserol a chyson er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael wrth gynhyrchu WPMR.

Rhyngwyneb rhwng cynllunio gwastraff a chaniatáu gwastraff

9.52 Awgrymwyd dogfen ganllaw gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW) lle roedd pwyllgor llywio wedi'i sefydlu a oedd yn cynnwys aelodau o Grŵp Mwynau a Gwastraff POSW a chynrychiolwyr o CNC a LIC. Roedd oedi wedi bod o ran gwneud cynnydd ar y ddogfen oherwydd pandemig Covid-19, pryd roedd cyfarfodydd POSW wedi cael eu gohirio. Fodd bynnag, roedd trafodaethau wedi ailgychwyn yn ddiweddar ynghylch ei lunio. Mae cyswllt agos eisoes yn bodoli rhwng awdurdodau cynllunio lleol a CNC drwy ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a CDLLau, yn ogystal â WPMR. Yn y dyfodol bydd hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys cyswllt ar brosiectau eraill, megis Datganiadau Ardal CNC.

Rhyngwyneb rhwng cynllunio gwastraff a rheoli gwastraff

9.53 Dylid cynnal cysylltiad agos rhwng awdurdodau cynllunio lleol ac awdurdodau gwastraff lleol. Mae hyn yn fuddiol o ran creu dull mwy cydgysylltiedig o reoli gwastraff. Cyfrifoldeb yr ACLI yw sicrhau bod safleoedd ar gyfer cyfleusterau gwastraff posibl yn cael eu nodi yn eu CDLlau. Mae camau penodol yn y gwaith o baratoi CDLI, er enghraifft y cam safleoedd ymgeisio, yn cynnig cyfleoedd i awdurdodau gwastraff lleol gyflwyno safleoedd i'w cynnwys mewn CDLI. Gall yr ACLI gynorthwyo drwy amlygu cyfleoedd o'r fath i'w cydweithwyr gwastraff. Byddai cyswllt o'r fath yn arbennig o berthnasol os yw'n cyd-fynd â phroses gaffael awdurdod gwastraff.

Caffael Gwastraff Gweddilliol a'r defnydd o dirlenwi yn y dyfodol

9.54 Mae'r safbwynt yn y dyfodol ar gaffael ar gyfer cyfleuster rhanbarthol yn bwnc sydd wedi'i godi yn argymhellion adroddiadau monitro blaenorol. Gyda'r ddibyniaeth barhaus ar dirlenwi (rhaid o fewn safleoedd y tu allan i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru), a chludo rhywfaint o wastraff gweddilliol y rhanbarth i gyfleusterau EfW ar y cyfandir, mae'r mater hwn mor berthnasol ag o'r blaen. Gyda'r targed tirlenwi ar gyfer 2025 a nodir yn TZW yn prysur agosáu, rhaid mynd i'r afael â dyfodol pob safle tirlenwi yng Nghymru. Gyda'r moratoriwm newydd ar gyfleusterau Troi Gwastraff yn Ynni ar raddfa fawr yng Nghymru, erys y cwestiwn, a fydd digon o gapasiti o fewn cyfleusterau trin gweddilliol amgen i ddarparu ar gyfer gwastraff y rhanbarth ar ôl 2025. O ganlyniad i gwestiynau fel hyn, mae monitro parhaus o'r sefyllfa yn hanfodol, ynghyd â thrafodaethau rhanddeiliaid ar y lefel ranbarthol, a chyda chyfeiriad clir ar y lefel genedlaethol.

RHESTR ACRONYMAU

AD	Treuliad Anerobig
AHPs	Cynhyrchion Hylendid Amsugol
AMR	Adroddiad Monitro Blynnyddol
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
BMW	Gwastraff Trefol Bodduraddadwy
C&D	Adeiladu a Dymchwel [Gwastraff]
